

CANU GWERIN

(FOLK SONG)



34 - 2011

**ADRODDIAD BLYNYDDOL
2010 – 2011**

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas am 11.30
fore Sul, 25 Medi 2011 yng Ngwesty Fron Olau, Dolgellau

SWYDDOGION

Llywydd: D. Roy Saer

Is-Lywyddion

Dr Osian Ellis

Dr Meredydd Evans

Phyllis Kinney


Buddug Lloyd Roberts

Cadeirydd

Dafydd Idris Edwards

Is-Gadeirydd

Ann Saer



Aelodau

Bethan Bryn (2008)

Gwenan Gibbard (2009)

Einir Wyn Jones (2009)

Leila Salisbury (2008)

Siân Thomas (2008)

Ysgrifennydd Cyffredinol:

Dr Rhiannon Ifans

Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EQ

Ffôn: 01970 828719

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:

Rhidian Griffiths

Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

Ffôn: 01970 610160

e-bost: rcg01d@quikmail.co.uk

Golygydd y cylchgrawn Canu Gwerin

Dr Rhiannon Ifans

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol, 25 Medi 2010

Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd, Dafydd Idris Edwards, yn enwedig Mrs Buddug Lloyd Roberts sydd wedi dioddef salwch yn ddiweddar. Cyflwynwyd ymddiheuriadau Mary Llewelfryn Davies, Dr Meredydd Evans, Gwenan Gibbard, Mair Gibbard, Hawys a Glyn James, Phyllis Kinney, Myron Lloyd, Emma Lile, Meinir McDonald, Nia Rhosier, a Leila Salisbury. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y golled a fu yn ystod y flwyddyn yn sgil marwolaeth Dr Enid Pierce Roberts a Bill Thomas; cydymdeimlwyd hefyd â Liz Evans sydd wedi colli ei mam.

Cadarnhawyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2009. Paratowyd mantolen fanwl gan y Trysorydd, ac esboniodd ambell bwynt perthnasol. Derbyniwyd y fantolen a diolchwyd i Dr Rhidian Griffiths am ei waith trylwyr.

Cytunwyd i gyflwyno £1000 yn rhagor i Wasg Prifysgol Cymru tuag at gostau argraffu cyfrol Phyllis Kinney *Welsh Traditional Music*. Adroddodd Rhidian Griffiths ar gyfrol arfaethedig Leila Salisbury ar alawon lolo Morganwg, gan awgrymu ei chyhoeddi gyda gwelliannau. Addawodd Wyn Thomas £2000 o goffrau Prifysgol Bangor tuag at gyhoeddi'r gyfrol a bydd Leila Salisbury yn cyfrannu £1000 o'r arian prosiect; bydd Rhidian yn trafod ffynonellau arian gyda Llyfrgellydd Bro Morgannwg, a Siân Thomas yn chwilio am ffynonellau arian o fyd twristiaeth. Cyhoeddwyd *Canu Gwerin* a diolchwyd i'r cyfranwyr am eu gwaith tra safonol.

Cafwyd stondin ar y cyd â nifer o gymdeithasau gwerin eraill Cymru dan faner Tŷ Gwerin yn yr Eisteddfod Genedlaethol; bu'n llwyddiannus a manteisiol. Nodwyd bod Elfed Roberts yn canmol Tŷ Gwerin yn ystod cyfarfod o Bwyllgor Canolog yr Eisteddfod Genedlaethol, a diolchwyd i Siân Thomas am ei gwaith dros Tŷ Gwerin.

Traddodwyd Darlith Goffa'r Fonesig Amy Parry-Williams yn Eisteddfod Genedlaethol Glynabwy yn 2010 gan Dr Rhidian Griffiths; gan ei bod yn flwyddyn canmlwyddiant geni'r Fonesig Amy Parry-Williams trafododd ei chyfraniad hi i CAGC. Gwahoddwyd Dr Rhiannon Ifans i draddodi Darlith Goffa Amy Parry-Williams yn 2011 ar ryw agwedd ar waith Twm o'r Nant. Gwahoddwyd Leila Salisbury i draddodi'r Ddarlith Goffa ym Mro Morgannwg ar lolo Morganwg gan gyfuno hynny â lansi'o'r gyfrol arfaethedig ar ei alawon.

Penderfynwyd aros yn Fron Olau i gynadledda yn 2011 ar benwythnos olaf Medi. Diolchwyd i Rhiannon Ifans am drefnu cynhadledd 2010; mwynhawyd y cyflwyniadau a llongyfarchwyd pawb am natur hyfryd ac adeiladol y gynhadledd.

Bu Gwenan Gibbard a Myron Lloyd yn cynrychioli CAGC ar Ymddiriedolaeth Nansi Richards, sy'n sicrhau ysgoloriaeth flynyddol gwerth £1,500 i offerynnwr ifanc gael hyfforddiant pellach. Dyfarnwyd Ysgoloriaeth 2010 gan Sioned Williams, y beirniad, i Llewelyn Ifan Jones. Defnyddir yr arian i fynychu ysgol haf yn Ffrainc, ac i ariannu cwrs ôl-radd mewn gwlad dramor. Yn yr hwyr trefnwyd cyngerdd a'r elw yn mynd tuag at Ymddiriedolaeth Nansi Richards.

Bu Meinir McDonald, Buddug Lloyd Roberts, Dafydd Idris a D. Roy Saer yn cynrychioli CAGC ar Banel yr Eisteddfod Genedlaethol. Cynrychiolodd Dafydd Idris y Gymdeithas ar bwyllgor Tŷ Cerdd a phwyllgor Cymdeithasau Dathlu'r Gymraeg (sy'n cydweithio â'r Cynulliad ar welliannau i'r ddeddfwriaeth ynghylch statws yr iaith Gymraeg). Mynychodd Dr Rhiannon Ifans gyfarfodydd Cyloch yr Iaith i gefnogi'r bwriad i gychwyn ymgyrch ddarlledu. Diolchwyd i'r cynrychiolwyr i gyd am eu gwasanaeth.

Etholwyd Dr Rhidian Griffiths yn Drysorydd am dymor pellach, a Dr Rhiannon Ifans yn Ysgrifennydd Cyffredinol. Diolchwyd i'r ddau am eu gwaith graenus dros y tair blynedd diwethaf. Etholwyd Dr E. Wyn James yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith.

MANTOLEN

1 MAI 2010 – 30 EBRILL 2011

DERBYNIADAU	£	TALIADAU	£
Mewn llaw, 1 Mai 2010:			
Cyfrif cyfredol	5011.63	Gweinyddiaeth	394.31
Cyfrif CAF	21117.87	Cynhadledd 2010	1478.30
Tanysgrifiadau	1674.00	Argraffu a chyhoeddi	4692.50
Rhoddion, cymynrodd	214.86	Tâl darlithydd	100.00
Cynhadledd 2010	1415.00	Pabell Eisteddfod	880.91
Gwerthiant llyfrau	1195.35	Hysbysebu	211.50
Breindaliadau	2846.87	Gwerthiant Gwasg Honno	47.94
Incwm buddsoddiad*	190.25	Mewn llaw, 30 Ebrill 2011:	
Llog CAF	42.27	Cyfrif cyfredol	4767.50
		Cyfrif CAF	21160.14
		Siec nas cyflwynwyd	-25.00
	<u>33708.10</u>		<u>33708.10</u>

*Gwerth y buddsoddiad yn Charifund (Cronfa Goffa Amy Parry-Williams) ar 31 Mawrth 2011 oedd £3,869.99.

Ardystir bod y cyfrifon uchod yn unol â'r llyfrau a'r gwarantau a gyflwynwyd i mi a'r wybodaeth a roddwyd i mi, ac mae gweddill yr arian yn y banc a'r buddsoddiad yn Charifund wedi ei wireddu gennyf.

Gorffennaf 2011

W Islwyn Davies FFA, ACEA, FMAAT

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

Elusen gofrestredig rhif 259772

SWYDDOGION

Llywydd: D. Roy Saer

Is-Lywyddion

Dr Osian Ellis

Dr Meredydd Evans

Phyllis Kinney


Buddug Lloyd Roberts

Cadeirydd

Dafydd Idris Edwards

Is-Gadeirydd

Ann Saer



Aelodau

Bethan Bryn (2008)

Gwenan Gibbard (2009)

Dr E. Wyn James (2010)

Einir Wyn Jones (2009)

Leila Salisbury (2008)

Siân Thomas (2008)

Ysgrifennydd Cyffredinol:

Dr Rhiannon Ifans

Rhandir, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3EQ

Ffôn: 01970 828719

Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:

Dr Rhidian Griffiths

Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

Ffôn: 01970 610160

e-bost: rcg01d@quikmail.co.uk

Golygydd y cylchgrawn *Canu Gwerin*

Dr Rhiannon Ifans

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.

Golygydd: Dr Rhiannon Ifans

Argraffu: Y Lolfa

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £10.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £12.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £3.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2HX
(01970) 610160

Llun y clawr: Gwenan Gibbard
Ffotograffydd: Mei Jones

Rhifyn 34 – 2011

Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Journal of the Welsh Folk-Song Society

Golygyddol	5
Tros fesur	
Ledi Amy	7
(Darlith Goffa Amy Parry-Williams, 2010)	
Rhidian Griffiths	
“A’r Ffeiffs a’r Drums yn roario”:	19
Y Baledwyr Cymraeg, y Milisia a’r Gwirfoddolwyr	
Ffion Mair Jones	
‘Cân ‘Mari Lwyd Lawen’ o Landybïe: ei gwir leoliad	43
D. Roy Saer	
Ar drywydd ‘Ifan Glan Teifi’	47
Meredydd Evans	
Dawns gyfoes a chaneuon gwerin	52
Catherine Young	
‘A’r byd i gyd yn bapur ... ’ Rhan 4: Mewnfudwr Saesneg?	54
E. Wyn James	
Englynion: ‘I Phyllis a’i Llyfr’	76
Meredydd Evans	
Adolygiad	77
Phyllis Kinney, <i>Welsh Traditional Music</i> (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2011) Gwenan Gibbard	

TROS FESUR

Bu cyffro mawr ym mhlu'r Gymdeithas eleni eto wrth i'n haelodau gyhoeddi nifer o deitlau sy'n trafod gwahanol agweddau ar ganu gwerin Cymru. Bu nifer ohonom yn teithio dramor i ddarlithio ar ein caneuon a'n halawon brodorol, a bu nifer yn perfformio mewn cyngherddau a nosweithiau draw ac yma o gwmpas y byd yn hyrwyddo canu gwerin Cymru.



Llun: Elin Dafydd

Ond cafwyd un diwrnod hapusach na'i gilydd. Diwrnod o ddathlu mawr i aelodau Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru oedd y diwrnod y cawsom groesawu cyfrol eithriadol hardd Phyllis Kinney i'n dwylo, *Welsh Traditional Music*, cyfrol a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru ac a noddwyd gan Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Roedd yn bleser cael bod yn rhan o noson lansio'r gyfrol hon, a llawenhau yn llwyddiant Phyllis, oedd yn edrych hyd yn oed yn harddach na'r gyfrol, ac yn bictiwr o brydferthwch ar y noson!

Mae Phyllis Kinney yn un o is-lywyddion Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, ac yn werthfawr iawn yn ein golwg ni. Mae hi'n ffrind annwyl ac agos, bron na ddywedem ni mai ni yn y Gymdeithas piau hi. Ond o gymryd cam yn ôl, ac edrych drwy lygad rheswm, buan y sylweddolwn mai dim ond darn o'r gwir yw hynny, a bod yn rhaid inni ei rhannu hi hefo tyrfa fawr o bobl ar hyd a lled y byd oherwydd bod i Phyllis statws rhyngwladol. Ac felly ar noson hyfryd o Fai, yn gwmwl tystion ag yr oeddem ni, cawsom gyfle i gydnabod ein bod ni yng nghwmni awdures sydd wedi rhoi inni chwip o gyfrol awdurdodol ar ein treftadaeth, tra'n bod ni ar yr un pryd yn ymhyfrydu yn y lle annwyl sydd i Phyllis yn ein calon ni.

Egwyl fach i dalu gwrogaeth oedd yr egwyl fach honno, ac un o'r ffyrdd gorau o anrhydeddu Phyllis bob amser yw ar gân. Cafwyd teyrngedau gwiw i'r gyfrol a'i hawdures gan Helgard Krause, Daniel Huws, a Sally Harper, ond i'n cynrychioli ni fel Cymdeithas yr un a gyflwynodd ein diolchgarwch ni i Phyllis am y gyfrol ragorol hon, ac a gyflwynodd ein hedmygedd ni ohoni a'n cariad ni tuag ati hi, oedd aelod o'r Pwyllgor Gwaith, Gwenan Gibbard, un arall o'n merched digymar ni, y gwin gorau. Cyflwynodd Gwenan ddwy gân werin

gyferbyniol i ddathlu cyhoeddi'r gyfrol, ac i ddathlu bywyd a gwaith y ffrind a'r ysgolhaig a'i rhoes hi inni. Gwenan hefyd sy'n adolygu'r gyfrol yn y cylchgrawn hwn.

**Darlith Goffa Amy Parry-Williams
Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd
Awst 2010**



Llun: Catherine Griffiths

LEDI AMY*

Rhidian Griffiths

Ugain mlynedd yn ôl, sef yn 1990, y cynhaliwyd y gyntaf yn y gyfres hon o ddarlithiau coffa Amy Parry-Williams – darlithiau a sefydlwyd gan y Gymdeithas Alawon Gwerin er cof amdani a chydag arian a waddolodd hi i'r Gymdeithas – a hynny yn Eisteddfod Cwm Rhymni. Y darlithydd oedd Dr Meredydd Evans, a chafwyd ganddo drafodaeth nodedig ar ganeuon Americanaidd yng Nghymru a gyhoeddwyd dan y teitl *Canu Jim Cro.*¹ Mae'n briodol ein bod ni'n dathlu ugain mlynedd y ddarlith goffa yn yr un cwr o Gymru, yng nghymoedd y de-ddwyrain, ac yn briodol eleni ein bod ni'n rhoi sylw i'r un y mae ei henw ar y gyfres, sef Amy Parry-Williams, gan fod 2010 yn ganmlwyddiant ei geni. Ond mae un cyswllt arall y mae'n werth ei nodi. Pan ddaeth yr Eisteddfod i'r cwm hwn y tro diwethaf, sef yn 1958, un o feirniaid y cystadlaethau alawon gwerin, yn cyflawni gwaith a gyflawnodd ar lawer achlysur arall, oedd neb llai nag Amy Parry-Williams. Mae'r holl gyd-ddigwyddiadau hapus hyn, rwy'n credu, yn rhoi ystyr arbennig i'r ddarlith eleni.

Fe ddywed y puryddion mai gau ffurf, ffurf anghywir, yw'r 'Ledi Amy' yn y teitl. Y Fonesig Parry-Williams oedd hi, nid y Fonesig Amy Parry-Williams na'r Fonesig Amy. Ond fe'i hanwyliid gan lawer yng Nghymru dan yr enw 'Ledi Amy', ac nid wy'n gweld unrhyw reswm dros beidio â defnyddio'r ffurf honno, cywir neu beidio.

Ym Mhontyberem, sir Gaerfyrddin, y ganed Amy Thomas ar 18 Rhagfyr 1910. Nid Amy chwaith yn ôl cofrestriad ei geni, ond Emiah Jane, dau enw teuluol (Mary Emiah oedd ei mam, a Jane ei mam-gu); ond fel Amy y cafodd ei hadnabod gan ei theulu a phawb arall ar hyd ei hoes. Hi oedd yr hynaf o dri phlentyn ar aelwyd gerddorol Lewis Thomas a'i wraig: y ddau arall oedd ei brawd Madoc, a ddaeth yn offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru, a'i chwaer Mary, a fu'n athrawes ac yn Arolygwr Ysgolion cyn priodi â'r Athro Llewelfryn Davies, Athro'r Gyfraith yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth.

Cadw siop sgidie a gweithdy crydd yr oedd Lewis Thomas, a oedd yn frodor o Bontyberem, ac mewn cyfnod o ddirwasgiad amlygodd ei gydwobod gymdeithasol trwy estyn tic i bawb os gallai, a gosod bwrdd biliards yn y neuadd yn ymyl y gweithdy er mwyn i fechgyn y pentre ddifyrru eu horiau hamdden gorfodol. Ac roedd y dylanwadau cerddorol yno o'r dechrau. Roedd brawd Lewis Thomas, Oliver, yn arwain y canu yng nghapel Caersalem yr Annibynwyr, ac yn arwain côr plant Pontyberem. Ar aelwyd Lewis Thomas ei hun magwyd traddodiad cystadleuol ac eisteddfodol cryf. Bron bob Sadwrn byddai'r tri phlentyn, Amy, Madoc a Mary, yn mynd i gystadlu mewn eisteddfodau ym mhob rhan o sir Gaerfyrddin, a'u mam yn rhoi pisyn chwech i ddymuno lwc iddyn nhw cyn pob gornest. Un car oedd ym Mhontyberem y pryd hynny, car Tom Bronllan, a hwnnw fyddai'n eu cludo nhw. Eu mam fyddai'n mynd â nhw i'r eisteddfodau, er mai eu tad oedd yn eu hyfforddi; ond roedd rhaid i Mam, a oedd yn athrawes, roi'r gwrandawriad olaf ar y nos Wener cyn yr eisteddfod. Byddent yn cystadlu ar bob dim – *solos*, adrodd, canu penillion – ac yn graddio o'r eisteddfodau lleol i lwyfannau uwch. Enillodd Madoc am adrodd yn Eisteddfod Genedlaethol y Barri yn 1920, yn ei *sailor suit* orau. Byddai Amy a Mary yn canu deuawdau; unwaith fe gollson nhw allan ar ddeuawd cerdd dant mewn Eisteddfod Genedlaethol am fod Mary wedi anghofio geiriau olaf y gân. Ond o blith y tri Amy oedd y seren, a hi oedd amlaf ei llawryfon, yn cynaeafu'r cwpanau ym mhob man ac ar bob lefel, o'r lleol i'r genedlaethol.

Roedd tad Amy, Lewis Thomas (1877–1955), yn un o arloeswyr canu penillion yn ne Cymru yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Cyneuwyd ei ddiddordeb yn y grefft yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Byd Cyntaf (tua 1916–18) a dechreuodd osod. Erbyn i'w blant dyfu i oed cystadlu, roedd wedi dod yn osodwr profiadol ac yn gallu eu harwain yn ddiogel ar ffordd cerdd dant.² Yn naturiol ddigon daeth y teulu i amlygrwydd yn y byd hwnnw, a chymerodd Lewis Thomas ran flaenllaw yn y gwaith o sefydlu'r Gymdeithas Cerdd Dant genedlaethol yn 1934, yn un o'r ychydig o dde Cymru a oedd yn rhan o'r symudiad hwnnw. Ac efallai yr un mor naturiol oedd y rifalri rhwng y teulu ac ambell deulu arall – Lewis Thomas yn anghytuno â Ioan Dwyrdd ar faterion gosod, ac Amy ac Eleanor Dwyrdd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Does dim dwywaith nad oedd Amy wedi ei thrwytho'n gynnar yn y pethe cerddorol, nid yn unig yn y grefft o gyflwyno, ond hefyd yn y cythrel canu.

I Ysgol Ramadeg Llanelli yr aeth Amy o ysgol y pentre, ac yn 1929 o Lanelli i Goleg Prifysgol Cymru Aberystwyth i astudio'r Gymraeg. Ar ei haddefiad ei

hunan fe gafodd fwynhad mawr yn y cwrs, a graddiodd yn 1932 gydag anrhydedd yn y dosbarth cyntaf, camp a rannwyd y flwyddyn honno gan Tom Jones, a fu'n Athro'r Gymraeg yn Aberystwyth wedi hynny. Ond ni chyfyngodd Amy ei hun i'w llyfrau chwaith: bu'n aelod brwd o'r tîm hoci a'r tîm rhwyfo, bu'n Llywydd y Merched yn yr Undeb ac yn Llywydd y Gymdeithas Geltaidd. Cystadlai ar ganu penillion yn yr Eisteddfod Ryng-golegol ac yn ôl pob sôn fe loriodd ei chynulleidfia pan ganodd y brif ran yn yr opereta, 'Rhosyn y Coleg' o waith Gwenallt.³ O Aberystwyth aeth yn athrawes i Ysgol Ramadeg y Merched, Caerfyrddin, lle bu'n dysgu Jennie Howells (Jennie Eirian Davies) a Mair Sivell (Mair Jones, priod yr Athro Tom Jones), cyn symud ymhenn rhai blynyddoedd i Goleg Hyfforddi y Barri yn ddarlithydd yn y Gymraeg. Yn y cyfnod hwnnw yr aeth ati i ymchwilio i faes cerddoriaeth werin, gan gofrestru ym mis Mawrth 1938 ar gyfer gradd MA; cyd-gyfarwyddwyr ei hymchwil oedd ei hen Athro Cymraeg yn Aberystwyth, T. H. Parry-Williams, a'r Athro Cerddoriaeth, David de Lloyd. Wrth iddi deithio nôl ac ymlaen rhwng Aberystwyth a'r Barri, ac wrth iddo yntau ymweld â'r Barri fel arholwr allanol yn y Coleg, fe ffynnodd ei pherthynas â'i chyn-Athro, a phriodwyd y ddau yn Awst 1942 yn eglwys Tremarchog, sir Benfro, gyda Madoc, brawd Amy, yn gweinyddu. O hynny ymlaen gwnaethant eu cartref yn y Wern, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, ac ymroddodd Amy i fod yn wraig yr Athro, yn hynod groesawus i fyfyrwyr ei phriod, ac yn cynnal ei freichiau yn ei waith cyhoeddus. Barn yr Athro Caerwyn Williams, a barn Dr David Jenkins, dau a'u hadwaenai'n dda, oedd fod Amy wedi gwneud llawer iawn i beri i'w gŵr oresgyn ei swildod cynhenid, i ddatblygu perthynas agosach a mwy cymdeithasol â'i fyfyrwyr, er enghraifft, a thyfu'n fwy o ffigur cyhoeddus, yn 'eicon y genedl'. Mae R. Gerallt Jones yn cefnogi'r farn hon yn ei gyfrol ar T. H. Parry-Williams: 'mae'n sicr na fyddai [THP-W] wedi llwyddo i gyflawni'r hyn a wnaeth yn gyhoeddus a diwylliadol rhwng 1942 a'i ddyddiau olaf heb gymorth grymus gwraig go arbennig.'⁴

Fe ddibynnai ef lawer arni ac roedd yn barod i gydnabod hynny – 'Dwi ddim yn gwybod beth wnawn i heb Amy,' meddai wrth gyfaill iddo un tro.⁵ Ac roedd yn uniad clôs iawn o'r ddwy ochr. Ddeng mlynedd wedi marw ei gŵr, wrth roi hanes cyfansoddi geiriau 'Beth yw'r haf i mi?', dywedodd Amy pa mor boenus o hyd oedd cofio: 'Trist yw'r galon fach, / Ni bu hiraeth mwy ar neb erioed.'

Dros y blynyddoedd mae rhywrai wedi lled-feirniadu Amy am fyw yng nghysgod ei phriod enwog ac ymroi i'w hyrwyddo ef (ac wedi ei farw, meithrin y cof amdano) ar draul datblygu ei doniau ei hun. Nid felly yr oedd. Yn un peth



roedd yn gwbl naturiol iddi geisio hyrwyddo a chefnogi a meithrin enw ei phriod o ystyried ei fod yn un o feirdd a llenorion mwyaf Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Ond dylid cydnabod hefyd ei bod hithau wedi cael gyrfa amlwg o wasanaeth cyhoeddus amrywiol iawn, nid amlwg academiaidd efallai, ond buddiol a gwerthfawr i eraill. Mae'n wir na pharhaodd â'i gyrfa ddisglair fel athrawes, nac fel darlithydd coleg. Testun ei thraethawd MA oedd 'Y cysylltiad rhwng y tonau a cherddi rhydd yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif': mae

nodiadau trefnus ar gyfer y traethawd hwnnw, swrn o waith dyfal a manwl, ynghadw yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac mae'n golled wirioneddol na chyflwynwyd y traethawd terfynol ac na chyhoeddwyd ffrwyth yr ymchwil.⁶ Byddai'n talu i rywun astudio'r gwaith sydd ar gael. Ond er colli pethau fel hynny, fe ymroes Amy i gyfrannu trwy weithgarwch. Er ei bod hi fel ei phriod yn berson preifat eithriadol, roedd ganddi, ym marn yr Athro Caerwyn Williams, synnwyr cryf o ddyletswydd gyhoeddus; a hyn mae'n debyg a'i gyrrodd i fod yn berson gweithgar mewn sawl maes.

Hwyrach mai ym myd cerdd dant a chanu gwerin y bu'n fwyaf amlwg. Roedd ei thad yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas Cerdd Dant yn 1934. Etholwyd Amy i Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas yn 1946 a bu'n gyd-olygydd *Allwedd y Tannau* (gyda Dewi Mai o Feirion) rhwng 1947 ac 1950, ac yn Llywydd y Gymdeithas wedi hynny.⁷ Cyfrannodd i *Allwedd y Tannau* erthyglau byrion ar hanes canu gyda'r tannau, gan ddangos ei bod â diddordeb yn natblygiad y grefft a ddysgodd gan ei thad.⁸ A chadwodd ei diddordeb yn fyw trwy berfformio, a bod yn lladmerydd cyhoeddus dros y diwylliant gwerin. Fe'i cawn yn nyddiau cynnar Eisteddfod Llangollen, sef ar 17 Mehefin 1948, yn perfformio mewn cyngerdd i gyfeiliant Alwena Roberts. Bum mlynedd yn ddiweddarach, sef ym mis Tachwedd 1953, roedd yn un o'r sêr a berfformiai yng nghyngerdd blynyddol Cymdeithas Cymry Llundain yn Neuadd Albert, y tro hwn gydag Osian Ellis, o flaen cynulleidfao ryw bum mil. Tua'r un cyfnod, sef ar ddiwedd yr 1940au a dechrau'r 1950au, creodd sawl record i'r Gymdeithas Recordiau Cerddoriaeth Gymreig (Welsh Recorded Music Society), recordiau a gynhyrchwyd yn Harlech gan gwmni Decca. Cafodd rhai eu hadolygu yng nghylchgrawn y *Gramophone*, a bu hynny'n fodd i dynnu sylw pobl y tu allan i Gymru at gerddoriaeth draddodiadol Gymreig.⁹ Cyfrannodd i'r gyfres deledu 'Lloffa', ac yna yn ystod

1971–72 cymerodd ran gyda Roy Saer a Huw Williams yn y gyfres ‘Canu’r Bobol’, a oedd yn trafod agweddau ar ganu’r Cymry. Mae ei nodiadau manwl ar gyfer ei chyfraniadau i’r gyfres honno, sydd ar glawr yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn dangos pa mor drylwyr yr oedd yn paratoi.¹⁰ Rai blynyddoedd cyn hynny, sef yn 1963 ac yn 1964, anerchodd gynhadledd breswyl y Gymdeithas Alawon Gwerin gan drafod ‘Geiriau ein halawon gwerin’, ac fe gyhoeddwyd yr anerchiadau hyn ar ffurf dwy ysgrif yn y cylchgrawn *Canu Gwerin* yn 1978 ac 1979.¹¹ Mae darllen yr ysgrifau hyn yn peri inni resynu na fyddai wedi cyhoeddi mwy yn y maes. Er mai cyffredinol yw’r thema, dangosir ei dawn arbennig i ddadansoddi ac i ddosbarthu, ac yn wir gellir cymryd ei dosbarthiad o gategoriâu geiriau ein caneuon gwerin yn un bron â bod yn derfynol. Dangosir pa mor eang oedd ei hamgyffrediad o’r holl faes ac o ganu gwerin cenhedloedd eraill, gan ei bod yn tynnu cymariaethau â gwahanol draddodiadau. Gwelir hefyd hiwmor a deallusrwydd sy’n cuddio’r ysgolheictod gwirioneddol sydd y tu ôl i’r cyfan.

Am gyfnod byr yn unig y bu Amy’n Llywydd y Gymdeithas Alawon Gwerin, sef o 1986 tan ei marwolaeth, ond roedd wedi gwasanaethu’r Gymdeithas fel aelod o’i phwyllgor gwaith ymhell cyn hynny, sef yn ddi-dor o 1947 ymlaen. A bu ei dyfodiad hi ac eraill yn fodd i Gymreigio’r Gymdeithas – yn y cyfnod hwnnw y gwelir newid dramatig yn iaith y cofnodion o’r Saesneg i’r Gymraeg. Bu’n beirniadu’r cystadlaethau alawon gwerin yn y Genedlaethol droeon. Cyfrannodd alawon i’r Cylchgrawn yn yr 1950au, mewn cyfnod pan wnaed ymdrech i barhau â’r gwaith casglu arwrol a gawsid hanner canrif ynghynt, a phan oedd hi’n aelod o’r bwrdd golygyddol a sefydlwyd ar gyfer y Cylchgrawn wedi marwolaeth J. Lloyd Williams yn 1945. Nid hi a gasglodd y caneuon hyn bob tro ond hi a’u cofnododd, a daeth sawl un ohonynt yn enwog: ‘Cân yr hen Wyddeles’ (y fersiwn adnabyddus), ‘Ffarwél i ddociau Lerpwl’, ‘Pla’r cathod’ (a nodwyd gan ei thad), ‘Am dendio’r llan yn wastad’, a ‘Boneddwr mawr o’r Bala’ – hi a olygodd y rhain a’u cyflwyno yng Nghylchgrawn 1951, gydag esboniad yn ddiweddarach fod alaw’r ‘Boneddwr mawr’ yn tarddu o ddarn cerddorfaol gan y cyfansoddwr Weber. Yn 1953 cafwyd ganddi yr alaw hudolus ‘Dod dy law’, a gasglwyd yn Llanerfyl. Yn 1954 cyhoeddodd ‘Tiwn sol-ffa’ a gafodd trwy law ei brawd Madoc yn sir Benfro. Dair blynedd cyn hynny, yn Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst, bu’n beirniadu ar y cyd â John Morgan Nicholas y gystadleuaeth i nodi alaw werin heb ei chyhoeddi o’r blaen, ac o’r gystadleuaeth honno y cafwyd tair enghraifft gan Bob Roberts, Tai’r Felin, yn cynnwys ‘Gwenno Penygelli’ a ‘Bess yn teyrnasu’.

Er mai â meysydd cerdd dant a chanu gwerin y cysylltir ei henw'n bennaf, dylid cofio bod cylch ei gwasanaeth yn ehangach o gryn dipyn. Nid dim ond gwraig yr athro a'r llenor, gwraig oedd yn gallu canu, oedd Amy. Roedd yn awdur ei hun, yn un peth yn awdur llyfrau plant. Erbyn hyn golwg go hen ffasiwn sydd ar gyfrolau *Defi Dwdl-Dw* a gyhoeddwyd gan wasg Llyfrau'r Dryw yn yr 1960au, gyda'u darluniau gan Hywel Harries; ond roedd gwerth mawr iddynt mewn cyfnod pan oedd deunydd Cymraeg i blant yn brin iawn, cyn i'r Cyngor Llyfrau ddechrau gweddnewid y sefyllfa. Ac o sôn am ei gwaith i blant, mae'n briodol cofio hefyd iddi lunio caneuon i gyfres 'Ar lin Mam' a'u perfformio, a phwy all fesur dylanwad y gyfres honno ar genedlaethau o blant? Eto, ymhlith ei phapurau yn y Llyfrgell Genedlaethol mae geiriau'r caneuon hynny, wedi eu cadw'n daclus ac yn drefnus.¹² Bu hi a Shân Emlyn yn cyd-gyflwyno 'Pnawn da, blant' ar orsaf TWW yng nghyfnod arloesol teledu yn Gymraeg. Ei chyd-gyflwynydd ar raglen 'Canu'r Bobol', Roy Saer, sy'n crynhoi ei chryfderau fel darlledwraig: 'yr ysgolheictod praff a chytbwys, y paratoi trylwyr, ac, i goroni'r cwbl, y cyflwyno a oedd ar unwaith yn urddasol a llithrig', disgrifiad yn wir y gellid ei gymhwyso i'w holl waith.¹³ Ar ben ei gwaith darlledu dros y blynyddoedd cyfrannodd at ddiwylliant teledu yng Nghymru trwy fod yn un o gyfarwyddwyr HTV, neu Deledu Harlech fel yr oedd yn y dechrau. Addefodd ei bod wedi synnu cael y gwahoddiad, ond fe welodd y gwaith yn gyfle ac yn her, ac roedd yn falch ei bod wedi gallu cyfrannu, yn enwedig ym meysydd rhaglenni plant a rhaglenni Cymraeg.

Ni ddylem anghofio chwaith ei gwaith llenyddol, yn llunio ac yn cyfieithu geiriau i ganeuon yn ogystal â chyfieithu dramâu a llyfrau. Lluniodd waith gwreiddiol hefyd: cyhoeddodd stori fer ('Henrietta', stori am rwystredigaeth hen ferch o athrawes) mor gynnar ag Ebrill 1938 yn y gyfrol *Ystoriau Heddiw*, a olygwyd gan T. H. Parry-Williams, yn un o gyfrolau'r Clwb Llyfrau Cymreig. Efallai iddo farnu'r pryd hynny fod yn y ferch a fu'n fyfyrwr iddo ac a ddeuai'n wraig iddo maes o law, ddawn storiâ. Beth bynnag am hynny, fe gyhoeddodd Amy (ar anogaeth ei gŵr mae'n siwr) gyfrolau, *Deg o Storiâu* yng nghyfres Y Clwb Llyfrau Cymreig yn 1950, *Y Plât Piwtar a storiâu eraill* yn 1962, a *Dyddiadur Jane Parry* yn 1965. Roedd wedi cyhoeddi *Tŷ ar y Rhos*, sef ffars a luniwyd ar gyfer myfyrwyr Coleg y Barri, yn 1944. Hwyrach fod arddull a chynnwys y rhain yn ein taro eto braidd yn hen ffasiwn erbyn hyn; ond mewn cyfrol fel *Y Plât Piwtar* er enghraifft, gellir edmygu cyfoeth a rhywiogrwydd yr iaith, a'r portreadu effeithiol ar gymeriadau – cymeriadau rwy'n tybio sy'n tynnu ar bobl cylch Pontyberem ei hieuenctid. Mae un stori, 'Pen-blwydd', yn

darlunio'n effeithiol (ac yn drist o broffwydol o gofio am ei dioddefaint hi yn niwedd ei hoes) ferch yn marw o ganser ar drothwy ei phen blwydd yn hanner cant. Efallai nad ydynt ymhlith y clasuron, ond rwy'n tybio taw ei bwriad oedd iddynt fod yn llenyddiaeth at iws, yn rhywbeth i ddifyrru cynulleidfa.

Cyfeiriais eisoes at y gân 'Beth yw'r haf i mi?', cywaith rhyngddi a'i gŵr, ac un peth – efallai uwchlaw pob dim arall – sy'n cadw ei henw'n fyw heddiw. Camp wirioneddol yw llunio geiriau sy'n cael eu mabwysiadu gan y genedl fel petaent yn eiriau traddodiadol. Dyna wnaeth Nantlais ('Mynd drot, drot ar y gaseg wen') ac Enid Parry ('Hen ferchetan'), a dyna'n sicr wnaeth Amy a'i gŵr pan luniwyd 'Beth yw'r haf i mi?', cân a glywyd droeon mewn cystadlaethau eisteddfodol, gan gynnwys cystadleuaeth goffa'r Fonesig Herbert Lewis. Ymhlith ei phapurau ceir rhai nodiadau perthynol i hanes y gân, ac er bod y stori'n ddigon adnabyddus, rwyf am fentro ei hadrodd eto.¹⁴

Man cychwyn y cyfan oedd llythyr gan John Roberts Williams, a anfonwyd ar 21 Mawrth 1963 o swyddfa Teledu Cymru, llythyr a oedd mae'n amlwg yn barhad o sgwrs ffôn:

Wedi'r sgwrs ar y teliffon (a dorrwyd ger ei chynffon gan ryw deleffonydd) wele'r hen alaw. Ymddengys i feiolinydd o Spaenwr glywed yr alaw, naill ai yn cael ei chanu a'r tafod neu ar y ffidil, yng nghastell Harlech, ac iddo ei nodi. Fe'i cyhoeddwyd mewn cyfrol gan wr o athro o Sais o'r enw Crotch ... Nid oes enw i'r alaw na geiriau iddi. Ond mae yna ryw hyfrydwch trist ynddi hi, ac mi hoffwn ei bedyddio a'i gollwng i'r byd mewn rhaglen yng nghanol mis Ebrill. Fy mawr hyder yw y gellwch rhyngoch gael rhyw bedwar pennill i fynd yn gymdeithion i'r alaw Gymraeg hon.

Ychydig o amser a roddwyd fel y gwelwch – o 21 Mawrth i ganol Ebrill. Yn ôl nodiadau Amy hi ddechreuodd arni trwy solffeuo'r alaw ac yna ei thincial ar y piano, a bwrw'r harmoni i mewn fel y dôl:

a dal i dincian, nes i'r alaw gymryd drosodd yn fy mhen ... Yna, o rywle, yn ddisymwth, dyma ymadrodd i'r cymal cynta'n ymddangos yn fy ymennydd, – neu, o leiaf, rywle yn fy mod: Beth yw'r haf i mi? – A dyma ruthro drws nesa i'r stydi i ganu'r ymadrodd ...

A dyma'r ddau yn dechrau arni, gyda'i gilydd weithiau, dro arall ar wahân, 'a'r patrwm yn datblygu o gymal i gymal, o linell i linell'.

Ond, i mi, y gogoniant mwyaf oedd pan d'rawodd fy ngŵr ar y gair "hirlwm" ar ddiwedd y pennill cyntaf. Fe aeth rhyw wefr drwof pan ddigwyddodd hynny:

'Nid yw'r haf i mi'n ddim ond hirlwm er pan gollais di.'

Mae'r wefr yn dal, braidd yn greulon felly bellach.

Ni chafodd John Roberts Williams ei bedwar pennill. Bu rhaid iddo fodloni ar dri (roedd yr amser yn fyr wedi'r cyfan), ond ni allai fod wedi cael tri rhagorach. Os nad oedd Amy'n sicr o ble y daeth iddi'r ymadrodd 'Beth yw'r haf i mi?', rwy'n credu taw ei hadnabyddiaeth hi a'i dealltwriaeth o'r traddodiad canu gwerin yng Nghymru a roes fod i thema'r gân. Yn ei hisymwybod roedd hi'n gwybod yn dda fod tristwch serch yn un o themâu grymusaf ein caneuon gwerin.

Yn nodiadau Amy ar y gân ceir un ôl-nodyn diddorol. Fel y gwyddoch mae'r gân yn ei ffurf adnabyddus yn diweddu:

'Yna bydd i ni / Hyfryd haf a dyddiau dedwydd mwy'.

Ond mae'n debyg na setlwyd rhwng Amy a'i phriod ar ddarlleniad terfynol, ac mae copi yn llaw Syr Tomos sy'n darllen:

'Yna **daw** i ni / Hyfryd haf a dyddiau dedwydd mwy'.

Ac efallai taw honno oedd y ffurf oedd yn hoff ganddo ef, er mai'r llall sydd wedi goroesi.

Yn yr holl weithgarwch amrywiol hyn doedd Amy ddim yn ofni mynegi ei barn, a hynny mor groyw â'i chyflwyniadau i ganeuon ar record. Fwy nag unwaith, er enghraifft, mynegodd ei hamheuan am gyfeiriad datblygiad cerdd dant, neu o leiaf ei chonsŷrn fod rhywbeth yn mynd i golli. Ar glawr y record *Canu Penillion* a gyhoeddwyd yn 1958 mae'n rhoi cownt am gefndir y gelfyddyd, a hynny yn Saesneg – mae'n amlwg fod y record wedi ei hanelu at y farchnad ddi-Gymraeg. Wrth esbonio fel y mae celfyddyd a oedd yn fyrfyfyr wedi datblygu i fod yn rhywbeth creëdig, mae'n dweud fel hyn:

The object of this singing is to give a personal interpretation of a poem or a set of verses. It is, therefore, obviously desirable that singers should make their own melodic settings for the words ... In recent years the art has been extended to include group and choral singing, the scope of the musical

arrangement for words being enlarged to provide for two, three or four part singing. Personal spontaneity is then, of necessity, considerably diminished, and Penillion Singing becomes still more a conscious art form rather than a folk-form of music-making.¹⁵

Chwarter canrif yn ddiweddarach, sef yn 1983 wrth gymryd rhan gyda'i chwaer Mary yn rhaglen radio 'Deuoedd' BBC Cymru gyda Gwilym Owen, mynegodd yr un teimlad. Tra'i bod yn cydnabod y 'datblygiad cerddorol gwyach' ym myd cerdd dant, roedd yn gofidio bod yr hyn a alwai hi'n 'ganu cerddorol ymwybodol' yn llusgo'r geiriau, hynny yw yn tueddu i arafu ac yn methu dilyn rhediad naturiol y farddoniaeth. Golygai hyn, meddai, fod cerdd dant yn ymbellhau o fyd canu gwerin.¹⁶ Sylw dadleuol mae'n siwr, ac yn destun nad wyf yn gymwys i fynd i'r afael ag ef; ond mae'n amlwg fod Ledi Amy yn cadw at ei barn yn onest ac yn drw i'r traddodiad roedd hi wedi cael ei meithrin ynddo, sef mai crefft y bobl ac nid crefft eisteddfodol yw canu penillion yn ei hanfod. Ai awgrym a geir yma fod gorddiwyllio yn gallu bod yn beth peryglus?

Yn yr un ffordd, mynegodd ei chredo am ein halawon gwerin yn groyw iawn yn ei dwy ysgrif ar 'Geiriau ein caneuon gwerin', sylwadau a ddyfynnwyd fwy nag unwaith ac a fu'n fan cychwyn i ddarlith Roy Saer yn y gyfres hon yn Eisteddfod Aberystwyth yn 1992:¹⁷

Hyd y gwela' i, nid pethau i'w cadw'n gysegredig fel creiriau ydyn' nhw; hynny yw, nid pethau i'w cadw nad oes dim newid i fod arnyn' nhw, ac nad oes dehongliad newydd arnyn' nhw i'w oddef a'i ganiatáu. Pethau byw fuon' nhw erioed. Tra bu canu caneuon gwerin yn rhan integrol o fywyd bob dydd – gwaith ac oriau hamdden fel ei gilydd – 'roedd cryn newid yn digwydd i'r caneuon: newid i ateb idiom bro, neu idiom bersonol y canwr. 'Roedd hyn yn wir am y geiriau a'r alawon fel ei gilydd, ac mae'r amrywiaeth fersiynau sydd i rai o'r caneuon yn profi hynny. Pethau byw oedden' nhw; pethau 'at iws', nid pethau statig celfyddydol yn cael eu cadw'n barchus rhwng cloriau llyfrau. Traddodiad llafar oedd i'r caneuon, ac ar dafod leferydd y cawson' nhw'u trosglwyddo gan un genhedlaeth i'r genhedlaeth nesa'. Cof a thafod: dyna i chi ddeubeth na ellwch chi ddibynnu arnyn' nhw'n llwyr – ac os ychwanegwch chi at hynny yr ysfa greu a newid, sy'n ysfa ddynol iawn, a rhoi at honno binsiad o'r awen barod oedd mor gyffredin ymhlith cwmni'r Noson Lawen, er enghraifft, dyna i chi sicrwydd go dda nad oedd dim gwarant y câi nac alaw na phennill aros yn ddigyfnewid.¹⁸

Agwedd iach iawn, ddywedwn i, ac rwy'n sicr y byddai hi wrth ei bodd o weld datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf gyda ffurfio Clera a'r twf aruthrol mewn cerddoriaeth werin offerynnol, yn yr un hen ysbryd o drosglwyddo fel petai 'ar lafar'.

Yn ei hysgrif arni yn y gyfrol *Cwm Gwendraeth* yng Nghyfres y Cymoedd mae Bethan Mair yn dweud am Ledi Amy ei bod yn 'enigma'.¹⁹ Awgrymodd ambell un arall yr un peth. Mewn portread dienw ohoni a geir yn *Y Faner* ym mis Tachwedd 1956 dywedir fel hyn – braidd yn feiddgar rwy'n tybio: 'Ynghanol ei phoblogrwydd, a'i gyrfa gyhoeddus yn un mor ddisglair, ni all y sawl sy'n edrych arni o bell lai na theimlo ei bod yn enaid unig.'²⁰

Ac wrth ei choffáu yn 1988 dywedodd Shân Emlyn hithau eu bod nhw eu dwy yn gyfeillion da heb fod yn gyfeillion agos, am nad oedd Amy'n caniatáu agosrwydd.²¹ Ond rwy'n mentro dweud nad enaid unig mohoni, na pherson pell mewn gwirionedd, ond rhywun preifat iawn a digon swil, fel y cydnabu sawl un a sgrifennodd amdani. Roedd ei chymar enwog yntau yn ddyn preifat iawn, ac mae'n siwr taw dyna gyfrinach eu partneriaeth – roedden nhw'n deall ei gilydd mewn ffordd nad oedd neb arall yn eu deall nhw. Mae'n anodd gan ein byd cyfoes, â'i obsesiwn â 'selebs' a rhaglenni busneslyd o natur 'Big Brother', ddeall pobl sy'n naturiol breifat, pobl nad yn nhw ddim â'r siop i gyd yn y ffenest. Os caf feiddio ychwanegu gair o brofiad personol, doedd Amy ddim yn oeraidd o gwbl – fe'i cefais hi bob amser yn hynod hael ei chanmoliaeth a'i gwerthfawrogiad; ac fe gofias yn dda, a minnau'n gadeirydd ifanc a dibrofiad ar bwyllgor alawon gwerin Gŵyl Cerdd Dant Aberystwyth yn 1983, ei pharodrwydd gostyngedig i fod yn aelod brwd a chefnogol o'r pwyllgor hwnnw.

Sut felly mae crynhoi ei chyfraniad? Yn naturiol ddigon fe rown barch haeddiannol i'r sawl sy'n creu ein diwylliant – y beirdd a'r llenorion, y cyfansoddwyr a'r artistiaid. Hebddynt ni fyddai diwylliant cenedl yn fyw nac yn para. Ond yr un mor allweddol i barhad diwylliant yw'r bobl sy'n dehongli ac yn trosglwyddo, yn rhoi o'u dawn a'u hamser i berfformio ac i esbonio er mwyn i eraill ddyysgu, deall a gwerthfawrogi. Dyna'r llinyn arian sy'n rhedeg trwy yrfa a holl weithgarwch amrywiol Ledi Amy, trosglwyddo rhin a gwerth diwylliant cenedl. A dyfynnu Shân Emlyn eto: 'yr hyn sydd yn dod i'r meddwl yn syth yw harddwch pryd a gwedd, urddas, a theyrngarwch di-ildio tuag at y pethau yr oedd ganddi ymlyniad wrthynt ...'²²

Prin y gallaf ychwanegu dim at hynny, ond fe hoffwn gloi gydag atgof cwbl

bersonol. Roeddwn i wedi galw yn y Wern un prynhawn ar wahoddiad Ledi Amy – nid wy’n cofio pam, i drafod rhywbeth neu i gasglu rhywbeth mae’n siwr. Erbyn hynny roedd hi eisoes yng ngafael ei salwch olaf, ac wedi cael llawdriniaeth egr. Rwy’n meddwl taw dyna’r tro olaf inni gwrdd wyneb yn wyneb, er i mi siarad â hi dros y ffôn wedi hynny. Y diwrnod hwnnw roedd hi wedi paratoi cwpaned o de inni, a chyda’r te, dafelli cwstard. ‘Cymrwch un o’r rhein,’ meddai, ‘mae’r rhein yn neis.’ Doeddwn i ddim wedi cael tafelli cwstard ers dyddiau fy mhлentyndod, pan fyddai Mam yn eu prynu nhw yn y siop fara yn achlysurol. Ac wrth gofio’r te tawel a’r seiadu ar aelwyd y Wern y diwrnod hwnnw mae atgofion plentyndod a phrofiadau’r blynyddoedd yn dod yn un, ac rwy’n cofio’r dylanwadau fu arnaf i bob cam – y bobl y cefais y fraint o ddysgu cymaint ganddynt am bob math o bethau. Pobl oedd y rhain a gyfrannodd lawer at ddiwylliant cenedl, er nad yw enwau’r rhan fwyaf ohonynt yn adnabyddus o gwbl. Nid y lleiaf o’u cyfraniadau oedd trosglwyddo rhin a gwerth diwylliant cenedl i eraill. Dyma’r bobl ‘at iws’, a dyna gamp fawr Ledi Amy hithau. Meddyliwch amdani yn athrawes ifanc yng Nghaerfyrddin (dyma ddisgrifiad portread *Y Faner* yn 1956): ‘Dysgodd Gymraeg i’r merched nid fel pwnc ond fel diwylliant. Ehedai’r gwersi yn sŵn hwiangerddi, dramâu, alawon gwerin a hen chwedlau.’²³

Dull dysgu un a welai mai ei chenhadaeth oedd nid paratoi merched at arholiad ond trosglwyddo trysor iddyn nhw. Onid yw hi’n briodol mai am wasanaeth i’r gymuned ddiwylliannol y dyfernir Medal Syr T. H. Parry-Williams (sydd yn anuniongyrchol yn gofeb i’w briod hefyd)? Onid yw hi’n ddwbl briodol fod y ‘Boot Mart’ ym Mhontyberem, hen gartre’r teulu, bellach yn ganolfan i weithgarwch Menter Cwm Gwendraeth? Mae’r trosglwyddo’n parhau.

NODIADAU

* Darlith a draddodwyd yn y Stiwdio ar faes Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau’r Cymoedd, Glyn Ebwy, 5 Awst 2010. Rwy’n ddiolchgar iawn i Mrs Mary Llewelfryn Davies, chwaer Amy Parry-Williams, am wybodaeth am gefndir y teulu.

¹ Meredydd Evans, *Canu Jim Cro: Caneuon Americanaidd yng Nghymru* (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 1990).

² Gweler *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951–1970*, t. 206 (hefyd ar lein, www.yba.llgc.org.uk).

³ Gweler y teyrngedau iddi yn Saesneg gan J. E. Caerwyn Williams ac yn Gymraeg gan Hywel D. Roberts ym *Mlwyddlyfr Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth* 1989, tt. 21–25.

- ⁴ R. Gerallt Jones, *T. H. Parry-Williams* (Caerdydd, 1999), t. 213.
- ⁵ Y cyfaill hwnnw, Dr R. Brinley Jones, a adroddodd hyn wrthyf.
- ⁶ Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau Syr T. H. a'r Fonesig Amy Parry-Williams, S207.
- ⁷ Aled Lloyd Davies, *Hud a Hanes Cerdd Dannau* ([Y Bala], 1984), tt. 49, 61.
- ⁸ e.e. 'Pigion o'r eisteddfodau cynnar', *Allwedd y Tannau*, 6 (1947), tt. 8–10.
- ⁹ Gweler yr adolygiad ar nifer o recordiau'r Gymdeithas yn *The Gramophone*, Rhagfyr 1951, t. 32.
- ¹⁰ LIGC, Papurau Parry-Williams, RH 153–246; mae ei nodiadau ar gyfer rhaglenni 'Lloffa' yn S176–177.
- ¹¹ Amy Parry-Williams, 'Geiriau ein caneuon gwerin', *Canu Gwerin*, 1 (1978), tt. 5–16; 2 (1979), tt. 11–29.
- ¹² LIGC, Papurau Parry-Williams, RH 1–152.
- ¹³ 'Y Fonesig Amy Parry-Williams (1910–1988)', *Canu Gwerin*, 11 (1988), t. 58.
- ¹⁴ Ceir yr ohebiaeth a nodiadau perthynol i'r gân yn LIGC, Papurau Parry-Williams, S168.
- ¹⁵ *Canu Penillion*, Amy Parry-Williams, telynores Ann Griffiths. Qualiton QMP 2019, Tachwedd 1958.
- ¹⁶ 'Deuoedd': Gwilym Owen yn holi Amy Parry-Williams a Mary Llewelfryn Davies, BBC Radio Cymru, recordiwyd 23 Medi 1983. LIGC, Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, RM 319/01.
- ¹⁷ D. Roy Saer, *Canu at Iws* (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 1992).
- ¹⁸ Amy Parry-Williams, 'Geiriau ein caneuon gwerin', *Canu Gwerin*, 1 (1978), tt. 5–6.
- ¹⁹ Bethan Mair Matthews, '“Yr afon sy'n canu yn y cwm”: y Fonesig Amy Parry-Williams (1910–1988)' yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Gwendraeth* (Llandysul, 2000), tt. 161–70.
- ²⁰ 'Portread – Amy Parry-Williams', *Baner ac Amserau Cymru*, 14 Tachwedd 1956, t. 6.
- ²¹ 'Shân Emlyn yn cofio Ledi Amy', *Y Faner*, 12 Chwefror 1988, t. 5.
- ²² Ibid.
- ²³ 'Portread', *Baner ac Amserau Cymru*, 14 Tachwedd 1956.

“A’R FFEIFFS A’R DRUMS YN ROARIO”:¹

Y BALEDWYR CYMRAEG, Y MILISIA A'R GWIRFODDOLWYR

Ffion Mair Jones

Ym 1759, yr oedd Huw Jones, y prydydd o Langwm, yn treulio cyfnod yn nhref Amwythig er mwyn llywio ei fenter gyhoeddi fwyaf uchelgeisiol hyd hynny drwy'r wasg, sef blodeugerdd o gerddi gan feirdd amrywiol yn dwyn y teitl *Dewisol Ganiadau yr Oes Hon*.² Proses araf a llafurus oedd goruchwyllo gwaith Stafford Prys, y 'Printwr', a'r 'Prentis' a'i cynorthwya, ac fe ganodd Huw Jones gerdd i'w gyfeillion a'i gefnogwyr gartref yng Nghymru yn egluro anawsterau ei sefyllfa. Y mae'r gerdd dan sylw, a gyhoeddwyd dros y gwerthwr Thomas Mark, yn llawn arwyddion o rwystredigaeth y bardd a'i hiraeth am Gymru, ac yn cyfleu darlun o estronrwydd y dref ar ochr arall Clawdd Offa. Yng nghanol 'Cleger' dieithr y Saeson, amlygrwydd trosedd a chosb ('Rhai'n lladd a rhai'n crogi . . .') ac addewidion ffug yr argraffydd a'i gydweithwyr, tynnodd un presenoldeb arall sylw'r bardd:

Y Soldiers cyn goched yn britho y llyged
A nhwythe'r Capteinied yn cerdded oi co
Cymry wlad addas sydd ore yn y dynas
Py gallwn o eu dinas fynd yno.³

Ym 1756 cychwynasai rhyfel arall rhwng Prydain a Ffrainc, hynny yn sgil tensiynau ar ffrynt orllewinol y trefedigaethau Prydeinig yn America. Ym 1757 ymatebwyd i ddifrifoldeb y sefyllfa drwy adolygu'r milisia, sef y lluoedd cartref a godid i warchod tir a daear Prydain rhag gelynion o'r tu allan. Sicrhâi Deddf Milisia newydd 1757 well trefniadau ar gyfer tynnu tocyn (neu gynnal 'ballot') i ddewis aelodau i'r lluoedd hyn, a chaent eu hymgorffori mewn argyfyngau cenedlaethol am gyfnodau hwy nag yn y gorffennol. Nid ymgorfforwyd y milisia yn sir Amwythig hyd 1762, felly y mae'n annhebygol mai llu lleol a welodd Huw Jones yno ym 1759. Yr oedd 1759 yn flwyddyn allweddol yn natblygiad y milisia, serch hynny. Yn wyneb y bygythiad y byddai'r gelyn yn ceisio glanio ar diroedd Prydain, ymgorfforwyd cynifer â saith llu ar hugain o'r milisia yn ystod y flwyddyn honno. Byddai llawer o'r lluoedd hyn yn cael eu lluestu mewn tafarnau ar hyd a lled y wlad.⁴ Y mae'n bur debyg mai lluoedd o filisia o sir arall a welodd Huw Jones yn Amwythig, a'u capteiniaid yn eu hyfforddi yn eu hymarferion milwrol.

Y Rhyfel Saith Mlynedd

Os oedd presenoldeb milwyr ar y strydoedd yn cyfrannu at estronrwydd Amwythig i Huw Jones, y mae'n bur bosibl nad oedd y cynnydd mewn milwra (ar ffurf ymgorfforiad y milisia) ym mlynnyddoedd olaf y 1750au a dechrau'r 1760au yn ffenomen ddeniadol yng ngolwg ei gyd-Gymry ychwaith. Yn wir, y mae'r baledi Cymraeg a oroesodd o'r cyfnod hwn yn dangos amrywiaeth o agweddau tuag at y profiad o filwra a'r milisia'n benodol, gan gynnwys awgrymu amharodrwydd eu hawduron a'u cynulleidfaoedd i dderbyn goblygiadau Deddf 1757. Y mae'r amharodrwydd hwn yn bur wahanol i'r agwedd a welir mewn baledi Saesneg cyfoes, sy'n dangos hyder jingoistaidd yn y milisia fel corff. Ceir dwy faled o'r fath sy'n deillio o sir Amwythig, ac sy'n tanlinellu, felly, y gagendor rhwng agwedd Huw Jones ac agweddau'r Saeson y bu yn eu plith yn ystod ei arhosiad yn y dref ym 1759. Ymhyfrydir yn y milisia fel sioe yn y baledi hyn. Ceir portreadau o'r dynion yn mynd trwy'u driliau ym mhresenoldeb y merched:

To see us so nobly ADVANCE –PRESENT –FIRE
Our wives and our sweethearts will like and admire;

canmoliaeth o arweinwyr lluoedd y sir (boneddigion lleol a ddyrchafwyd yn gynroliaid, lefftenantiaid, capteiniaid, uwchgapteiniaid a llumanwyr); a rhagwelir hyfrydwch y profiad o adael cartref am dair blynedd i wasanaethu'r brenin (gan nodi, fodd bynnag, yn un o'r cerddi, nad oedd hawl gan y llywodraeth i orfodi unrhyw un i adael tir Prydain). Yn goron ar y cyfan, ceir yn un o'r baledi fyrddwn ymfflamychol, egnïol, gwarchodol a gwrth-Ffrengig:

Then let it appear,
Should the Frenchmen come here,
We're ready to make them to skip back again,
That We'll fight for our Houses
Our Children and Spouses,
And shew them the Courage of true Shropshire-men.⁵

O ystyried agosrwydd Amwythig at Gymru, gellir disgwyl y byddai baledi yn yr arddull hon wedi dylanwadu ar arferion Cymreig o ganu am y milisia. Yn wir, cadwyd testunau baledi yn ymwneud â'r milisia mewn casgliadau yng Nghymru, megis casgliad Bodwenni yn ardal Llandderfel, Meirionnydd, a chasgliad Brogyntyn (neu Porkington), cartref ar ororau Cymru a fu unwaith yn gyrchfan i feirdd traddodiad y canu mawl.⁶ Y mae'n ddigon posibl fod testunau

cyffelyb yn cylchdroi mewn cartrefi bonheddig eraill ar y gororau, cartrefi megis un boneddigesau Llangollen neu Gastell y Waun, mannau yr ymwelai Jonathan Hughes â hwynt i ddiddanu boneddigion di-Gymraeg.⁷ Yn bwysicach, y mae'n debygol iawn y byddai caneuon Saesneg o'r fath wedi cael eu perfformio yng Nghymru. Y mae dylanwad jingoistiaeth cerddi sir Amwythig i'r milisia yn amlwg mewn cerdd a luniodd Jonathan Hughes ym 1756 'yn amser rhyfel'.⁸ Darparwyd byrdwn Saesneg ei iaith i'r gerdd hon, sy'n ymdebygu i'r byrdwn a ddyfynnwyd uchod, gyda'i bwyslais ar deimladau gwrth-Ffrengig:

We will go along all through every throng,
With trumpets and song of all size;
Believe every lad, be merry, very glad,
In the face of our mad enemies.
We men of train band at King George's command
At hand in all England and Wales,
Will give a new gown to the French in every town
With the sword and cut down all their tails.⁹

Sylwer mai fel y 'Train band' y cyfeirir at y milwyr yn y byrdwn hwn. Canwyd y gerdd flwyddyn cyn cymeradwyo Deddf Milisia 1757, ac y mae'n bosibl ei bod yn adlewyrchu'r paratodau at lunio milisia ar sylfeini newydd. Awgrymir hynny gan y cyfeiriad at yr hyfforddi neu'r '[t]rainio ... I fflamio, trin powdwr a phlwm', a gwneud hynny 'boed rhyfel boed hedd'. Disodlwyd y term 'Train band' (neu 'trainedband') i raddau wedi cymeradwyo'r Ddeddf, ac adlewyrchir hynny yn y modd yr ychwanegwyd at deitl y gerdd pan y'i cyhoeddwyd ym 1762 gan Stafford Prys yn Amwythig i gynnwys cyfeiriad at 'y Militia'.¹⁰ Er gwaethaf presenoldeb byrdwn hyderus ei gywair a Saesneg ei iaith, y mae cynnwys y gerdd Gymraeg yn awgrymu ymdrech i ddwyn perswâd ar y cyhoedd i dderbyn realiti rhyfel ac ymarfogi. Yn wahanol i'r baledi Saesneg, nid ymhyfrydu yn y pethau hyn a wneir, ond ceisio darbwyllw'r gwrandawyr o'u pwysigrwydd. Nodir presenoldeb 'gwŷr da ar ein tu, yn llewyrch i'n llu, / I'n dysgu, rheoli'n un rhyw', ond nid enwir unrhyw arweinwyr penodol. Awgrymir yn ogystal islais dadl y Cymry cyffredin yn erbyn ymarfogi:

Pob Cristion ar droed sy'n ifanc mewn oed,
I'w frenin ymroed mewn iawn rym;
Gwell ymladd â'r gad na'i gollwng i'n gwlad,
Rhag ofn y bydd lladdiad mwy llym.

Rhai ddywed fel hyn, yn swrth ac yn syn,
Fod ymladd yn ddychryn rhy ddwys;
Ond dychryn mwy drud pe doent yma i gyd –
Dau mwy fydde'n penyd a'n pwys.

Ymdrechir yn y pennill hwn i ddadlau yn erbyn y reddf naturiol, sef ofni ymladd, drwy dynnu sylw at ganlyniadau peidio â gwneud hynny.

Nid Jonathan Hughes oedd yr unig un a synhwyrai amharodrwydd ymhlith y Cymry i ymarfogi. Canodd bardd o'r enw Rosser Llwyd gerdd faith, ac iddi'r teitl cynganeddol 'Carol, Anogol Gynigiad, Ar Frydain Hyfrydol Erfynniad', sy'n mynd i'r afael â'r agwedd hon, a'i chyhoeddi yng Nghaerfyrddin ym 1759.¹¹ Portreada Brydain fel mam a fagodd feibion lu. Yn awr, a hithau mewn cyfyngdra, y mae'r rheini'n gyndyn iawn o 'm daro neu bledio yn [ei] [ph]laid', ac yn ymddwyn 'Fel rhyw fabanod gwinion a dwlion eusieu Dysg', er gwaethaf crechwen Ffrainc a'i thad ysbrydol, y Pab. Fel yng ngherdd Jonathan Hughes, awgrymir dadleuon y gwrandawr yn erbyn ymarfogi yma hefyd, gan gyfeirio ato fel 'ti' – ffactor sy'n gwneud y ddadl rhwng y bardd a'i wrandawr unigol yn un ddwys a phersonol. Yn y penillion canlynol gwelir dadl a gwrthddadl y gwrandawr a'r bardd:

Di fynnu i eraill fyned i Ludded o dy Wlâd,
I yrru 'mhell o'th Oror bob Bredych oer a Brâd;
Os Gelyn ddaw i'r golwg ond mawrddrwg cynddrwg cân,
Ni fynnu gynnig cyffro na cheisio taro Tân!

Oh! Nage meddi'n union fel glewion oll yn glîr
Ni awn o blaid ein Brenhin os taro ddaw i'n Tir:
Ymleddu'n iawn heb fedru tra fyddo'r Drwg ymhell
Pan by's yn ceisio'th ddysgu di ymgyddi yn dy gell.

Nid hynny meddi'n hynaws sy'n peri i'm naws roi pall
Ond gwelaf Eraill gwiwlwys mor gymmwys ac mor gall
Ond dewis pawb yn dawel i'n rhyfel wrth ein rhaid,
Heb nago gwyro geiriau a'mhlentyn innau o'm mhlaid.

Da 'styria mewn distawrwydd mai gwradwydd yw dy gri

Beth raid i'm mhlentyn inneu fynd fwy na'th blentyn di
Beth raid i un Dŷn arall yn fwy na finnau fyn'd;
Bydd neb i fyned drosom pan cadwo Pawb ei ffrynd.

Dadlennir hunanoldeb y gwrandawr, sy'n gweld cymhwysedd ac addasrwydd dynion eraill i'r gwaith o amddiffyn Prydain, ond yn methu'n glir â deall pam y dylai ef ei hun, neu blentyn iddo, orfod ymwneud â'r gwaith hwnnw. (Y mae'n bur bosibl mai cyfeirio at y mamau a wna Rosser Llwyd yn y penillion sy'n sôn am amharodrwydd y gwrandawr i anfon ei blentyn i ryfel.) Awgrymir hefyd ffolineb a dallineb y gwrandawr yn wyneb y bygythiad sy'n bodoli: gwell ganddo gladdu'i ben yn y tywod na pharatoi i wrthsefyll ymosodiad. Yn y penillion sy'n dilyn, y mae ymosodiad y bardd ar ei wrandawr ystyfnig yn parhau mewn cywair ychydig yn fwy dymunol. Ceisia ei sicrhau o ofal y 'Boneddigion mwynion . . . sy o fewn dy Sir / I'th arwain a'th gyfrwyddo', a nodi na fydd yn rhaid iddo adael ei 'Ynys fwyn' o dan unrhyw amgylchiad, na'i gartref hyd yn oed 'nes delo drygau dro'. Llu lleol ei ganolbwynt yw'r milisia, ac y mae Rosser Llwyd yn awyddus iawn i bwysleisio hynny, fel un o faledwyr sir Amwythig o'i flaen.

Y mae tensiynau ynghylch bodolaeth a swyddogaeth y milisia i'w gweld drachefn mewn 'Cerdd newydd, sef y Militia yn canu ffarwel i'w gwlad', a gyhoeddwyd ym 1761.¹² Fel cerdd Jonathan Hughes, y mae hon i'w chanu ar yr alaw 'Tempest of War', ac ymddengys fod y dewis hwnnw'n gymorth iddi ymagweddu'n hyderus a heriol tuag at gwestiwn y milisia. Adroddir y gerdd y tro hwn yn llais 'llange o Lan fair' sydd wedi ymaelodi â'r milisia, ond cyfansoddiad a wnaed ar ei ran ydyw gan brydydd anhysbys.¹³ Egyr drwy herio 'Pob prydydd mewn bri sy ag 'wllys da i ni' i greu cân i ddathlu dewrder aelodau'r milisia. Awgryma hynny fod y bardd yn ymdrechu i lywio cyfeiriad caneuon i'r milisia a'u defnyddio er mwyn ennill y ddadl ideolegol o blaid y corff hwnnw. Ceir ymwybyddiaeth yma, fel yng ngherdd Rosser Llwyd, o wrthwynebiad i'r milisia:

Mae rhai'n beio'n rhwydd arw Sôn ar ein Swydd
Mai gwradwydd anhylwydd i'w hi . . .

Y mae'n anodd dehongli'n union beth a gynrychiolir gan y ddau air 'gwradwydd anhylwydd'. Y mae'r ystyr 'cywilydd' ac 'amharch' ynghlwm wrth y gair 'gwaradwydd', a gellir cyplysu'r ystyr honno gyda'r diffiniad 'anffodus,

anlwcus' ar gyfer 'anhylwydd'. Ar y llaw arall, gellid rhoi'r ystyr 'anhrefn blêr' i'r geiriau yn ogystal. Y mae yma, felly, amrediad posibl o ymatebion chwyrn yn erbyn y milisia. Gellir darllen y penillion sy'n amgylchynu'r cwpled hwn ynghylch 'gwradwydd anhylwydd' y swydd er mwyn ceisio mynd i'r afael â gwir natur y gwrthwynebiad. Ymdrinnir yn y penillion hyn â phroblem yr hiraeth teuluol sy'n rhwystr i famau, yn enwedig, ddygymod â realiti ymaelodaeth eu meibion â'r milisia, drwy ddadlau bod y llanciau yn 'drwi ynghweryl Mâb Duw'. Dangosir parch at awdurdod a gallu '[ein] hoffisers ni . . . / . . . / I'n dysgu mewn dawn i drin arfe'n iawn', a rhoddir sylw (ychydig yn anuniongyrchol) i drydedd ffactor nad yw eto wedi dod i'r amlwg, sef perthynas y Cymry fel cenedl â'r corff holl-Brydeinig hwn a allai olygu eu bod yn gadael eu mamwlad am gyfnod o dair blynedd gyfan. Gellid defnyddio'r elfennau hyn i gadarnhau y naill neu'r llall o ystyron posibl 'gwradwydd anhylwydd'. Efallai fod y cyfeiriad at fedrusrwydd y swyddogion, er enghraifft, yn ymgais i dynnu'r gwynt o hwyliau'r sawl a gred mai sioe aflêr, ddi-lun yw'r milisia wrth eu driliau. Ar yr un pryd, y mae'r cyfeiriadau at boen y mamau yn awgrymu ymdeimlad o 'amharch' ynghlwm wrth y milisia, wrth i bwerau dienaidd y llywodraeth ymyrryd â chlymau cariad a charennwydd.¹⁴ Amarch arall sy'n cael ei awgrymu yw'r amarch yn erbyn cenedl y Cymry. Nodir mewn un pennill:

Ymdeithiwn mewn dawn i Loegr yr awn
 A'n gwynfyd a gawn yn di gân
 Ond Cymru bydd ffiri ein hen noddfa ni
 Ni fynwn itti'r un gair tw'n
 Yr um ni yn un ainge i ffraeo a gwyr ffrainge
 I'r rhain Seiniwn gaingc sw'n y gwn;

ac yna'n ddiweddarach yn y gerdd:

. . . ni gawn fel y gwynt
 Ymladd yn hy gyda'n gwlad rhag drwg lu
 Yr un modd ar hen gymru fu gynt.

Wrth i'r lluoedd lifo dros y ffin i Loegr, gadawant Gymru, eu 'hen noddfa', o'u hôl. Teimla'r bardd reidrwydd i nodi na fyn y milwyr yr 'un gair tw'n' i'u mamwlad – hynny yw, yr un gair 'toredig, drylliog . . . cleisiog, ysig'.¹⁵ Awgryma hynny, yn ei dro, ymdeimlad o ansicrwydd yn nheyrngarwch y milwyr hyn; teimlad, efallai, eu bod yn bradychu eu mamwlad. Y mae'r ail ddyfyniad, sy'n

cyplysu'r ymddygiad milwrol hwn â rhai o ymgyrchoedd yr 'hen gymru fu gynt', yn dangos ymdrech i ddilysu yng ngolwg y Cymry y weithred o frwydro dros Brydain.

Ac eithrio'r penillion hynny yn ail hanner y gerdd sy'n ymdrin â chwestiynau anodd ynghylch y milisia, y mae'r faled yn dathlu'r proses o ymarfogi. Dangosir pa mor ddiogel fydd 'Trigolion Sir Ddimbych' gyda'r lluoedd o'u cwmpas 'fel Dur' i'w gwarchod rhag glaniad o'r cyfandir. Rhoddir cryn sylw hefyd i'r gelyn ei hun, gan bwysleisio Catholigiaeth Lewis, brenin Ffrainc, a'i ddeiliaid, a chwarae ar ragfarnau gwrth-Babyddol y gynulleidfa. Y mae Crist yn gadarn ar ochr y Protestaniaid yn y brwydro sydd i ddod:

Na hidiwn trwy'n hoes mewn delw na chroes
Yn rheini nid oes ond y dwyll
Na byddwch chwaith drist er Pab nag er prist
Fe yrwn bob papist heb pwyll
Trwy nerth Iesu Sant yr offeren ai phlant
A rown bob yn gant tan y gŵys
[Ni] fynwn ein lle mewn grym a llaw gre
[Er] gwaetha Padere'r Pab Dŵys.

Y mae'r atgasedd hwn at symbolau a chreiriau'r ffydd Gatholig yn erfyn pwerus yn yr ymdrech i ddarbwylllo'r gwrandawyr o hygyrdd yr achos dros godi gwŷr i'r milisia.

Soniwyd eisoes am agwedd ymddangosiadol elyniaethus Huw Jones, Llangwm, tuag at gotiau cochion milisia sir Amwythig. Fel y gwelwyd, canodd bardd anhysbys gerdd ar ran ac ar ddeisyfiad 'llanc o Lan fair' ynghylch y profiad o ymuno â'r milisia. Ymddengys fod Huw Jones wedi cyflawni'r swyddogaeth o ganu cerddi ar ran llanciau eraill mewn sefyllfaoedd tebyg, ond y mae ei gynnyrch ef yn gwbl wahanol.¹⁶ Y mae ei gerdd 'i ŵr Ieuangc oedd wedi mynd yn sawdwr i ganu ffarwel i'r wlad, ar Charity Mistress' yn cydnabod anochedd mynd i ryfel a phledio teyrngarwch i'r brenin Siôr II, ond gwna hynny gyda gostyngeddrwydd a gwyleidd-dra.¹ Y mae'r pwyslais ar ffarwelio hiraethlon y llanc â'i deulu, a sicrheir natur bersonol y gerdd drwy gyfeirio at aelodau penodol o'r teulu hwnnw, yn fam, yn bedwar brawd a phedair chwaer, a hyd yn oed yn chwaer yng nghyfraith (ategiad sy'n awgrymu'n gryf ddilysrwydd y darlun). Flwyddyn yn ddiweddarach yr oedd Huw Jones yn cyflawni

swyddogaeth debyg ar ran John Morris, a ymaelodasai â milisia sir Ddinbych. Y tro hwn, canwyd y gerdd ar ffurf anerchiad John Morris i'w gyfaill Owen Jones o Gaergybi, a dwysawyd yr elfen o hiraeth a phoen o adael cartref drwy ddewis canu ar y mesur 'Ffarwel Brydain'.¹⁸ Clymwyd wyth pennill y faled wrth ei gilydd gan gyrch-gymeriad, a gair olaf pob pennill yn cael ei ailadrodd ar ddechrau pob un o gwpledi'r pennill dilynol bob tro. Golyga hyn fod pwyslais cryf ar emosiynau a theimladau'r milwr wrth iddo ymadael â'i fro enedigol (a'r ferch 'anwadal' o'r ardal honno a'i 'Clwyfodd'). Ceir pennill yr un ar y cymeriadau geiriol 'Gyrru', 'Môn', 'Merch', 'Trwm', 'Sôn', 'Mentro', 'Duw', a 'Ffarwel'. Nid cân am deimladau hiraethlon ac am helyntion carwriaethol John Morris yn unig yw hon, fodd bynnag. Ceir ynddi'r ymgodymu â phenbleth cwestiwn y milisia sy'n nodweddu caneuon ar y testun yn y cyfnod hwn. Yn y pennill a genir ar y cymeriad 'Sôn', dangosir diymadferthedd y milwr yng nghanol y 'sôn' a'r clegar am 'adfyd' a 'r[h]yfel':

Sôn am fynad Syn wyf ine
I gario'r Cledde i rywle'r af
Sôn am adfyd farwol funud
Duw wyr pa fyd i gud a gaf
Sôn am Ryfel Sy'n ym-rwyfo
Ond Crist a fotho'n Pledio in plith
Sôn y leni am Syn elynion
Bradwyr Creulon chwerwon chwith
Sôn y byddan o hyn allan
Na chawn yn ddiiddan fwynlan fyw
Sôn a ddylen am ddi ale
Holl gyfreithie a deddfe Duw.

O ongl wahanol i un Rosser Llwyd, sy'n cynnig lleisiau gwrthwynebus y cyhoedd i Ddeddf Milisia 1757, clywir yma ymateb aelod cyffredin o'r milisia i'r lleisiau 'swyddogol', pleidiol-i-ryfel sydd o'i gwmpas ym mhobman ym mlynnyddoedd cynnar y 1760au. Darlunnir ei ddiniweidrwydd a'i ansicrwydd yn y portread ohono'n cael ei ysgubo ymaith 'I gario'r Cledde i rywle', a chan y sangiad 'Syn wyf ine'. Cyferbynnir yr ansicrwydd hwn â 'Sôn' di-baid lleisiau eraill am drychinebau sydd ar y gorwel, am 'elynion' a 'Bradwyr Creulon'. Yng nghanol yr holl gythrwfl geiriol, y mae gan y milwr cyffredin ddealltwriaeth amgen o'r sefyllfa, a cheir cynddaredd ei ymateb i'r clegar dynol yng nghwpled olaf y pennill, sy'n troi ei olygon at Dduw a'i gyfreithiau Ef. 'Duw all wared fy

mhenaeithiad' medd llinell agoriadol y pennill dilynol, ac eir ymlaen i ddisgrifio achubiaeth yr Israeliaid gan Dduw, gyda'r ymhlygiad y daw achubiaeth debyg i'r Prydeinwyr (fel cenedl Brotestannaidd, ddewisedig), dim ond i ddynion roi eu ffydd ynddo Ef. Rhydd y ffydd hon galon i John Morris y gerdd 'Fentro' i ryfel yn y pennill nesaf, ac yna 'Ffarwelio' yn chwervw felys yn y pennill olaf.

Y mae'r mynegiant ymddangosiadol bersonol hwn o ymateb i Ddeddf y Milisia a'i goblygiadau yn ymgais ddeheuig, o du un sy'n cydymdeimlo â gwrthwynebiadau pobl gyffredin i'r milisia, i egluro ei wir arwyddocâd a dangos ei fod yn gorff y gallant hwy, fel unigolion, ei wasanaethu. Er mwyn gwasanaethu Duw y gwnânt hynny, ac nid er mwyn boddhau'r pwysigion a'i creodd. Ni cheir y pwyslais a welwyd yn rhai o'r cerddi eraill ar ddibynadwyedd a rhinweddau eraill swyddogion y milisia yn y gerdd hon, ac y mae'r un cyfeiriad at '[b]enaethiad' yn pwysleisio'u hymddibyniaeth lwyr hwythau ar Dduw. Ymdrechir i ddiffinio perthynas gwŷr cyffredin â'r milisia heb eu gosod mewn safle israddol mewn hierarchaeth ddynol, felly, a thrwy wneud hynny, gwneir realiti gwasanaeth yn oddefadwy a dealladwy i'r gwŷr hynny ac i'w cymdeithas. Fel gwasanaeth i Dduw yn enw'r genedl Brydeinig ddewisedig, y mae ymaelodi â'r milisia'n cael ei gyflwyno fel peth derbynol i rai o isel dras.

Rhyfel Annibyniaeth America

Trechwyd y Ffrancwyr gan Brydain yn y Rhyfel Saith Mlynedd a ddaeth i ben ym mis Chwefror 1763. Yr oedd goblygiadau'r rhyfel hwnnw i Brydain ymhell o fod ar ben, fodd bynnag. Fel yr oedd yr Arglwydd Bute yn arwyddo'r cytundeb heddwch â Ffrainc, gwnaeth benderfyniad allweddol arall, sef y byddai byddin Prydain yn cadw lluoedd ar ffiniau gorllewinol America, i amddiffyn y trefedigaethau rhag bygythiad y Ffrancwyr yng Nghanada, y Sbaenwyr i'r de, yn Florida, a'r Indiaid brodorol yn y gorllewin. Yr oedd y brenin, Siôr III, yn arbennig o awyddus i wireddu cynllun o'r fath er mwyn gwobrwyo ei fyddin am ei gwasanaeth triw yn ystod y rhyfel a ddaethai i ben.¹⁹ Nid oedd yn fwriad gan y Weinyddiaeth Brydeinig i'r Americanwyr dalu cost cynnal y fyddin yn America yn llawn, ond credai George Grenville, olynydd Bute pan ymddiswyddodd ef yng ngwanwyn 1763, y dylai'r trefedigaethwyr dalu rhywfaint o'r gost. At y diben hwn, aed ati i gynllunio ar gyfer eu trethu, a chymeradwywyd Deddf Refeniw (neu'r Ddeddf Siwgwr, yn ôl ei henw poblogaidd) ym 1764, yna'r Ddeddf Stampiau ar 15 Chwefror 1765.²⁰ Arweiniodd y deddfau hyn at anghytundeb chwyrn rhwng y trefedigaethwyr a'r Prydeinwyr ynghylch yr 'hawl i drethu heb gynrychiolaeth', gyda'r

trefedigaethwyr yn dadlau pa mor annheg ydoedd system a ganiatâi i senedd Prydain godi trethi arnynt er nad oedd ganddynt un cynrychiolydd yn y senedd honno. Arweiniodd yr anghydfod hwn, a fu'n cyniwa'r er hanner cyntaf y 1760au, at ryfel rhwng Prydain a'r threfedigaethau Americanaidd. Cyhoeddodd y trefedigaethwyr eu hannibyniaeth oddi wrth Brydain Fawr ar 4 Gorffennaf 1776, a sicrhawyd eu buddugoliaeth filwrol dros Brydain pan ymunwyd â hwy gan y Ffrancwyr, y Sbaenwyr a'r Iseldirwyr rhwng 1778 a 1780.

Y ffactor pwysicaf yn y symudiad i ailymgorffori'r milisia yn ystod y cyfnod hwn oedd ymuniad y Ffrancwyr â'r rhyfel ym 1778. Ni chawsai lluoedd y milisia eu codi yn holl siroedd Cymru yn ystod y Rhyfel Saith Mlynedd, a phrofiad newydd oedd ymaelodaeth â'r lluoedd hyn i drigolion Môn, Ceredigion, Meirionnydd, Maldwyn a Maesfed ym 1778.²¹ Adlewyrchir y newydd-deb hwn mewn pedair baled sydd i gyd, fwy na thebyg, yn deillio o'r flwyddyn honno, ac yn canu 'clod', 'mawl' neu 'ffarwel' i luoedd milisia Cymru gyfan, 'chwe sir Gwynedd' neu 'sir Fôn' yn unig.²² Y mae'r twf yn nifer y lluoedd yn achos hyder newydd yn y canu drwyddo draw, ac y mae'r dadleuon y bu'r beirdd yn ymgodymu â hwynt yn erbyn hawliau'r wladwriaeth i orfodi gwasanaeth yn y milisia ar ei phobl yn llai amlwg. Ym maled Ellis Roberts (Elis y Cowper) 'O ffarwel i'r Militia Cymru', rhoddir pwyslais ar atgasedd y gelyn wrth annog y lluoedd, fesul sir, i arddangos eu gwrhydri a phrofi eu teyrngarwch i'r goron. Y mae dimensiwn cenedlaethol newydd i'r dweud: tyn y bardd sylw at hynafiaeth y 'Brutanied' a'u traddodiad rhyfelgar ('Rhyfelwyr Cymru oedd gynt yn ffynnu'), a chrybwylla luoedd Athan Llwyd wrth sôn am filisia sir Ddinbych. Nid dros Gymru yr ymleddir, fodd bynnag, ond 'dros eich Ynys, / [H]ên wlad barchus ddilys ddâ'. Ni cheir cymaint ag un cyfeiriad at Loegr yn y faled, er ei bod yn bur debygol mai yno yr âi'r lluoedd wrth ymadael â'u 'cartre i bell siwrne', fel y nodir yn y pennill cyntaf.²³ Y mae Ynys Prydain fel endid yn eiddo i'r Cymry hyn yn y byd a grëir yn y gerdd, yn enwedig felly o ystyried y bygythiad sy'n ei hwynebu o du '[p]edair teyrnas' elyniaethus (Ffrainc, Sbaen, yr Iseldiroedd ac America). Yn wahanol i'r gerdd anhysbys ei hawduraeth ynghylch 'y Militia yn canu ffarwel i'w gwlad', a gyhoeddwyd ym 1761, hepgorir Lloegr (a'r drafodaeth ynghylch teyrngarwch tuag ati) o'r darlun yn llwyr, gan nodi teyrngarwch sy'n cwmpasu Ynys chwedlonol y gorffennol Cymreig.²⁴

Y mae cerdd arall o waith Ellis Roberts ‘o glod i’r milisia Cymru sy yn ddychryn i’n gelynyon’ yn disgrifio Prydain mewn ffordd wahanol, gan gyfeirio at ‘[L]oiger wiwras wen’, a dymuno ‘llwyddiant heb derfynu’ i’r Cymry ar yr un pryd. Serch hynny, y mae’n parhau i ddefnyddio cymeriad o orffennol Brytanaidd Cymru fel ysgogiad i’r lluoedd fod yn ddewr – Caswallon, arwr o gyfnod y Rhufeiniaid yn Ynys Brydain yn yr achos hwn.²⁵ Fel yr awgryma’r teitl, y mae’r pwyslais yn y faled hon ar herio’r gelyn. Yn wir, yn yr ymdrech i awgrymu rhyfelgarwch y milisia, cyfeirir at lu o elynion Prydain, yn y presennol a’r gorffennol, ymhell ac agos. Crybwyllir y ‘barbaried’ a’r ‘Tyrcied’, Ffrainc, Sbaen, y Pab, India a’r ‘Pretender’, gan apelio at gymysgedd o ofn creulondeb eithafol pobloedd ecsotig, ddwyreiniol, ofn y gelyn traddodiadol (Ffrainc, Sbaen a’r Eglwys Gatholig), ac ofn gweld glaniad ar lun glaniadau’r Stiwtariaid ar draethau Prydain yn hanner cyntaf y ganrif. Ymddengys fod mynegi rhagfarnau yn erbyn y bobloedd hyn oll yn ffordd o ennyn cefnogaeth gwrandawyr y faled i’r ymdrech i godi lluoedd i’r milisia. Yn wir, y mae’r gerdd hyd yn oed yn herio’r boneddigion oedd wrth y llyw yn y lluoedd hynny i ‘[wneud] yn fawr o’r dynion’, gan honni mai hwynt-hwy ‘sy’n cadw llawen wŷr Bryden rhag cael brad’. Ni roddir unrhyw bwyslais ar yr angen i hyfforddi’r milwyr, ychwaith: ‘Nhw ydi’r milwyr gwcha’, gwŷr brafia’ ger ein bron’, ac y maent yn ‘medru trin ’u harfe, y sawdwyr gore i gyd’. Os oes yma ymgais i ddwyn perswâd, yna fe’i gwneir drwy ysgogi hyder dall ymysg y milwyr hyn yn eu gallu, gan roi o’r neilltu ofnau ac ansicrwydd cynulleidfaoedd cyfnod y Rhyfel Saith Mlynedd.

Mewn cerddi pellach i annerch y milisia, trawa Ellis Roberts amryw o gyweiriau gwahanol eto. Y mae ei ‘Ffarwel i’r Militia Chwe’ Sir Gwynedd sydd yn myned trwy genad yr Hollalluog oddi Cartref. Yn ddychryn iw gelynyon’ ar fesur ‘Bore Dydd Llun’ yn agor drwy bwysleisio digalondid y milwyr wrth ymadael â’u cartrefi, a hiraeth eu cariadon a’u teuluoedd ar eu holau. Try’r mynegiant o hiraeth yn weddi dros fuddiannau’r milwyr, ond ymddengys mai pryder y bydd Duw yn gwrthod cefnogi achos Prydain sydd y tu cefn i’r eiriol: y mae’r bardd yn ymwybodol iawn mai dim ond drwy i’r milwyr ymatal rhag pechodau megis tyngu ‘llyfon a chelwydd, / A Meddwod Anlladrwydd . . .’ y gellir bod yn gwbl sicr y bydd Duw yn ‘achub e[i] B[o]bol’. Enwir y lluoedd fesul sir, gan gynnig enghreifftiau o arwyr yr Hen Destament (Josua a Jona) fel ysbrydoliaeth iddynt i wrthwynebu ‘Bwistfil’ Llyfr y Datguddiad, neu’r Anghrist Pabaidd Ffrengig. Y mae’n bur debygol fod cydio yn y gyfeiriadaeth Feiblaidd hon yn fodd i leddfu hiraeth ac ofn, ac yn rhoi nerth i’r gwŷr a’u teuluoedd wynebu ‘Dros 5 mlynedd hirion’ ar wahân.

Un o'r lleoedd yr âi'r milisia iddynt wrth ymadael â Chymru oedd gwersyll Coxheath yn swydd Gaint. Yno, byddent yn hyfforddi ochr yn ochr â'r lluoedd milwrol rheolaidd ac yn dod yn rhan o 'deulu' holl-Brydeinig a gynhwysai filwyr o Loegr, Iwerddon a'r Alban yn ogystal ag o Gymru.²⁶



A perspective view of Coxheath Camp representing a Grand Review of the Army, ysgythriad gan W. Walker yn null O'Neil (Llundain, 1778). Casgliad Mihwrol Anne S. K. Brown, Llyfrgell Prifysgol Brown, Rhode Island.

Yr oedd milisia sir Gaernarfon yn Coxheath ym 1779, blwyddyn o bryder cynyddol ynghylch y posibilrwydd y gallai'r gelyn (America a'i chynghreiriaid) lanio ar arfordiroedd Prydain a cheisio goresgyn y deyrnas. Canodd Matthew Prichard faled 'I Filwyr Sir Gaernarfon ar ei trosglwyddiad o Gaergybi Ymôn, ir Gwersyll sy'n y Coxheath yng-Nghent', ar y dôn 'Diniweidrwydd', sy'n coffáu ymadawiad y milisia.²⁷ Un o'r pryderon a fynegir yn y gerdd yw beth fydd tynged tref gymharol leol megis Caergybi yn awr wedi'i ymadawiad:

Os doe nhw [y Ffrancod] leni i Drê Caergybi,
Bydd edifaru mi wn ar fyrr,
Na basem yno y[w] llwyr ddinistro,
Ai llâd rwy'n gwirio yn un gyrr.

Yr oedd gallu'r lluoedd i warchod eu tiriogaethau eu hunain yn un o achosion balchder mwyaf y baledi hyn. Un faled o'r cyfnod yn unig sy'n moli llu unigol penodol, sef cerdd Ellis Roberts 'O Fawl i Falisia Sir Fon' ar 'Ffansî'r Milwr'.

Ddiwedd mis Mawrth 1778 yr ymgorfforwyd milisia sir Fôn am y tro cyntaf, ac y mae'n amlwg fod y bardd yn gweld ei swyddogaeth fel un leol sy'n ateb i ofnau trigolion yr ynyys:

Nid gwiw bellach son Mae gwae fydd i Fôn
O ddiffig Gwyr Arfog Nodidog y Dôn.²⁸

Nodir ymhellach na fydd yn 'rhaid ir Gwyr Clîr mo'r myned oi Tîr / Ond Gonest ymgynill a Sefull yw Si'r', ac ymhyfydir yng ngallu'r dynion hyn 'Dann Arfe'n gytûn' i '[g]astellu' Môn rhag bygythiad allanol. Yn wir, y mae'r gerdd yn gweld Rhyfel Annibyniaeth America fel brwydr uniongyrchol rhwng Môn, y fam, a gynrychiolir gan ei 'meibion' dewr a chryf, a Ffrainc ei hun. Nid oes obaith i lu Ffrengig o 'Bapistiaid[,] penbyliaid o bell ... [l]ygru' Môn tra bo'i hamddiffynwyr yn eu lle i'w gwarchod. Y mae'r modd y gwelir y gwrthdaro fel un rhwng cenedl Ffrainc ac Ynys Môn yn awgrymu gafael ystyriaethau lleol ar gynulleidfara'r faled, ac yn danwydd i'r ddadl ymysg haneswyr ynghylch natur ymlyniad gwladgarol pobloedd Ynysoedd Prydain yn y cyfnod hwn.²⁹ Dim ond pan yw'n troi at arweinwyr y milisia – Syr Nicholas Baley, Arglwydd-Lefftenant Môn yn y cyfnod, 'Syrr Charles', a 'Dau Williams Price' – y mae Ellis Roberts yn pwyso ar Gymreictod fel ffactor i ddilysu ac awdurdodi. Y mae Baley, er enghraifft, 'n perthynu ir hen gymru fu gynt / Yn ore am ryfela rai haela ar i hynt', ond gall ei lusgo ei hunan o niwloedd y gorffennol heddiw i fod yn 'ben ... ar Wÿr Newydd'.³ Ni roddir unrhyw awgrym yn y gerdd fod y bardd yn sylweddoli y gallai'r llu hwn o filisia gael ei symud allan o Fôn i rannau eraill o Brydain yn ystod y blynyddoedd i ddod. Dyna fu ei hanes, serch hynny. Erbyn mis Mai 1779 yr oedd yn ymdeithio tua gwersyll Coxheath, ac er iddo aeafu ym Môn y flwyddyn honno, yr oedd yn ôl ar ei hynt tua swydd Gaint yn ystod 1780.³¹

I grynhoi. Gwelir yng nghyfnod Rhyfel Annibyniaeth America dwf sylweddol yn niferoedd y lluoedd o filisia a ymgorfforwyd yn unol â Deddf 1757. Y mae'r baledwyr yn dathlu'r lluosogrwydd hwn gyda cherddi sy'n enwi lluoedd y siroedd oll yn eu tro, gan ymhyfrydu yng ngwrthdri'r milwyr.³² Wrth wneud hynny, ymgodymant â chwestiynau ynghylch hunaniaeth y dynion: ai Prydeinwyr, ai Cymry, ai Monwysion (neu frodorion unrhyw sir arall) ydynt? Yn sicr, y mae atgasedd tuag at y Ffrainc Gatholig yn ffactor sy'n dwyn yr uned filwyr (pa fodd bynnag y mae'n cael ei phortreadu) yn nes at ei gilydd, fel y dadleuodd Linda Colley.³³ Y mae gwrthwynebiad cyhoeddus i'r milisia yn llawer

llai amlwg yn y cerddi hyn nag ydoedd yng nghyfnod y Rhyfel Saith Mlynedd. Efallai mai goruchafiaeth llais un bardd sy'n gyfrifol am hyn. Ellis Roberts yw'r bardd amlycaf yma, ac y mae ei agwedd ef yn gyson ymladdgar a heriol, yn wahanol i Huw Jones, Llangwm, sy'n fwy parod i gydymdeimlo â'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan ofynion gwasanaethu yn y milisia.

Milisia a Gwirfoddolwyr Rhyfeloedd 1793–1815

Parhaodd y milisia i fod yn destun canu i'r baledwyr mewn trydydd cyfnod o ryfel rhwng Prydain a Ffrainc yn ystod y ddeunawfed ganrif, sef y rhyfeloedd yn erbyn Gweriniaeth Ffrainc o 1793, a'r Ffrainc Napoleonaidd o 1799. Pan gychwynnodd y rhyfel, galwyd lluoedd y milisia i wasanaethu mewn garsiynau ymhell o siroedd eu tarddiad. Aeth llu sir Fôn, er enghraifft, i swydd Hampshire, gan adael rhai o'u gwŷr yn Portsmouth a Gosport, lle y gwarchodent yr arfordir ymhlith tasgau eraill.³ Yr oedd lluoedd gwirfoddol, yn ogystal â lluoedd y milisia rheolaidd, yn rhan o ymarfogi'r lluoedd cartref yn y cyfnod hwn, hynny o 1794 ymlaen, gyda chynnydd ym 1797–8. Yn wahanol i'r milisia, nid oedd 'ballot' yn rhan o'r proses recriwtio ymysg y lluoedd hyn: fel yr awgryma'u henwau, gwirfoddoli i wasanaethu a wnaent. Yr oeddynt yn fwy trwyadl leol na'r milisia, ac ni chaent eu gyrru ymaith i wasanaethu mewn garsiynau yn Lloegr neu mewn rhannau eraill o Gymru. Cafwyd cyfnod byr o heddwch yn ystod 1802–3, canlyniad cytundeb heddwch Amiens, a diarfogodd y lluoedd gwirfoddol bryd hynny. Pan ddaeth yr heddwch i ben ym mis Mai 1803, troes Bonaparte ei olygon (am yr eildro) tuag at draethau Prydain, gan gredu y câi oruchafiaeth ar y byd i gyd pe gallai ddim ond croesi culfor Dover yn llwyddiannus.³⁵ Arweiniodd hyn at ailsefydlu'r gwirfoddolwyr, gyda chynnydd sylweddol yn niferoedd yr aelodau yn ystod 1804–5. Ym 1808 daeth oes y gwirfoddolwyr i ben, a chymerwyd eu lle gan y milisia lleol. (Sylwer bod llawer o'r lluoedd hyn yn cynnwys grwpiau o wirfoddolwyr oedd wedi parhau i weithredu o dan enwau newydd.) Fel y nododd J. E. Cookson, yr oedd sefydlu'r milisia lleol yn fuddugoliaeth i'r aristocratiaid, a deimlai fod y gwirfoddolwyr fel lluoedd yn rhy annibynnol a democrataidd, a bod eu bodolaeth yn rhoi gormod o raff i ddynion o isel dras gymryd rhan ym mywyd milwrol a chymdeithasol y genedl.³⁶ Ar yr un pryd, dadleuodd Jon Newman fod llawer o asbri lluoedd y 1790au wedi'i golli gyda sefydlu lluoedd mwy rheoledig blynnyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd ffresni'r gwirfoddoli cynharaf, a dyfasai o weithgaredd cymdeithasau teyrngarol ar ddelw un John Reeves yn Llundain, yn eisiau ymhlith aelodau lluoedd 1803. Yr oeddynt yn hytrach, yn ôl Newman, yn fwy 'earnest in a joyless sort of way'.³⁷

Un o'r tasgau sy'n wynebu'r sawl sydd am ymdrin â baledi 'milisia' y cyfnod hwn, felly, yw gwahaniaethu rhwng yr amrywiol fathau o wasanaeth milwrol a gynrychiolir ynddynt, tasg sy'n anos nag y mae'n ymddangos oherwydd cymhlethdod y lluoedd eu hunain, a chan nad oes dyddiadau ar nifer o'r cerddi printiedig sydd wedi goroesi. Parhaodd y milisia rheolaidd (y lluoedd a sefydlwyd gan Ddeddf 1757) i weithredu drwy gydol y cyfnod hwn, a pharhaodd y beirdd i ganu iddynt. Y mae'n debygol mai lluoedd o'r fath yw testun cerddi Richard Roberts 'o Fawl i Filitia Swydd Aberteifi'; 'Cân milisia Dinbych' gan Robert Davies, a'r gerdd gysylltiedig ddienw 'A wnaed i Filitia Cymru'; ynghyd â'r gerdd anhysbys ei hawduraeth, 'Ffarwel Milisia i'w gwlad sydd yn awr wedi mynd dan arfau'r Brenin yn ddychryn i'n gelynyon'; a chân Griffith Williams 'i annerch milwyr cartrefol swydd Gaernarfon'.³⁸ Nodweddir y cerddi hyn gan gyfeiriadau at adael cartref. Y mae milisia sir Aberteifi, er enghraifft, 'yn rhodio Lloegr' yng nghwmni eu swyddogion (a enwir fesul un, gyda chanmoliaeth am eu gwrhydri) ac, mewn ambell achos, gwmni eu gwragedd ('Mae o'n gwragedd puredd parod, / Wedi dyfod i'r hir daith, / A gado eu hanwyl ffrindiau gartre, / A mentro'r siwrne moddau maith'). Sicrheir y gwrandawyr na chaiff yr un o'r gwrgaedd hyn '[l]'wgu mewn un lle', a bod '[d]igon i rannu rhyngddom'. '[G]waelod Lloegr' yw cyrchfan 'Milisia Cymru' yn y gerdd 'A wnaed i Filitia Cymru', ac yng ngherdd Robert Davies i '[f]ilisia Dinbych' nodir i luoedd sir Ddinbych gyrraedd Llundain yng nghwmni eu harweinwyr (yn eu plith y cynoliaid Syr Watkin Williams Wynn, Wynnstay, a Lloyd Salisbury, Gallt Faenan). Llundain (neu 'London City') yw cyrchfan y milwyr o ardal Caernarfon a Bangor sy'n ymadael â chartref yn y gerdd 'Ffarwel Milisia i'w gwlad' yn ogystal. Awgrymir gan y cyfeiriad at 'y ffrancod' a'r 'Ianceys' i'r faled hon gael ei chanu yng nghyfnod rhyfel Prydain yn erbyn America ym 1812, ac y mae'n debyg mai gwarchod yr arfordiroedd fel ym mlynnyddoedd cynharach y rhyfel fyddai rôl y milisia (sonnir am 'rwystro trymion wyr i'n tre'). Drwy ddefnyddio alawon megis 'Trymder' a 'Peggy Band', â'u cysylltiadau digalon a phruddglwyfus, sefydlodd y beirdd hyn gywair hiraethus ar gyfer caneuon i'r milisia rheolaidd.³⁹ Serch hynny, ceir digon o anogaeth i ddewrder a gwrhydri yn y cerddi oll, a gwelir y beirdd yn taflu hiraeth a phryder o'r neilltu, gan annog 'N[a] chariwn druan galon drom'.⁴⁰ Gwasanaethodd lluoedd milisia rheolaidd Caernarfon yn Iwerddon rhwng 1810 a 1813. Cynigiasent eu gwasanaeth yn Rhyfel Iberia ym 1812 hefyd, ond ni dderbyniwyd y cynnig. Er mai milisia rheolaidd oedd y llu hwn, gyda'i aelodau wedi'u dewis drwy'r 'ballot', y mae parodrwydd y llu i wirfoddoli eu gwasanaeth dramor yn arwydd o'r hyn a ddisgrifiwyd gan Kevin Linch fel natur drawsffurfiol y profiad o filwra yn y

cyfnod.⁴¹ Adlewyrchir pwysigrwydd ‘newid’ yn ail bennill cân Griffith Williams i’r llu hwn:

Rhoes y llywodraeth i chwi uchafiaeth,
Yn helaeth, mewn mwynhad,
Am eich purder a’ch gwrolder
A’ch glewder dros eich gwlad.
Cael newid dull a lliw eich dillad
Am wisgiad ydoedd well,
A newid eirf a newid arfer
Er mwyn eich purder pell;
A newid rhodiad rhwym
Yn llwyr am rediad llym,
A newid enw i nod union –
Arwyddion mwy o rym.
Yn glod i’n gwlad a rhad fawrhydi,
I’n cenedl ni a’n iaith,
A drych ydych (orwych aerwyr)
I filwyr Brydain faith.⁴²

Y mae defodaeth weledol a chlywedol liwgar y lluoedd yn rhan annatod o’r portread a rydd y baledi o wirfoddoli yn y cyfnod, yn ogystal, fel y gwelir isod. Cychwynnodd y lluoedd gwirfoddol ym 1794, ond prin yw’r baledi Cymraeg o’r cyfnod cynharaf hwnnw, ac y mae cerdd George Stephens i ‘*volunteers* y tair sir, sef sir Benfro, sir Aberteifi a sir Gaerfyrddin’, a gyhoeddwyd ym 1799, yn parhau i ymddrin â’r gwirfoddolwyr fel ffenomen gymharol newydd ag iddi’i gwreiddiau o hyd yn rhethreg y cymdeithasau teyrngarol.⁴³ Rhydd gyfieithiad Saesneg o’r term ‘*folunteer*’ mewn nodyn ymyl dalen, gan awgrymu newydddeb canu yn y Gymraeg i’r lluoedd hyn. Y mae pwyslais cryf yn ei gerdd ar gyfraniad y boneddigion, a enwir gyda dyledus barch bob yn un, ac y mae’r bardd yn cofio hefyd am berygl gelynyion mewnol y wladwriaeth:

Mawr barch i rhain [y boneddigion], ond clod i Dduw –
Fe’n cadwodd ni hyd yn hyn yn fyw
Er amled ein gelynyion cas,
Un rhyw o fewn a’r llall o fa’s.

Nid ymhelaethir ar y cyfeiriad hwn at y gelyn ‘o fewn’, ond gallai’r bardd fod yn meddwl am rai o’r Ymneilltuwyr y teimlid eu bygythiad yn sir Gaerfyrddin yn ystod 1793, neu’r rhai yr honnwyd iddynt gyfeillachu â’r Ffrancwyr a laniodd yn Abergwaun ym 1797.⁴⁴ Y mae glaniad Abergwaun yn dal yng nghof Dafydd Evan Morgan yn ei ‘[G]ân o glod i foluntiers Glan Teifi a’u hoffisers’.⁴⁵ Dehongla lwyddiant y gwirfoddolwyr a’r lluoedd eraill a ymatebodd i laniad Abergwaun trwy sbectol Protestaniaeth, gan gyferbynnu eu ffydd hwynt ag ‘Atheisti[aeth]’ y ‘Ffrancod di-gred’. Honna’n gyntaf mai corwynt wedi’i godi gan Dduw a sicrhodd lwyddiant lluoedd sir Benfro, ac yna mai ‘Trwy nerth y Jehofa’ y trechwyd y Ffrancod gan yr Arglwydd Cawdor, arweinydd y milwyr lleol yn Abergwaun. Ar yr un pryd, y mae dangos gwerthfawrogiad o gyfraniad y gwirfoddolwyr ac, yn enwedig, y boneddigion a ‘gyd-unodd, / I guro maes am *volunteers*’ yn y lle cyntaf, yn allweddol i ddiben ei gerdd. Noda sut y canwyd eisoes gan eraill am lwyddiannau’r lluoedd Cymreig yn Abergwaun, ond nid eu harweinwyr hwy yn unig sy’n haeddu eu ‘henwau a’u clod yn hynod, / Yn argraffedig, wedi’u gosod’, yn ôl Dafydd Morgan. Y mae’n awyddus ‘I ddweud am eraill’ o’r un anian â hwynt mewn ardaloedd cyfagos.

Y mae haneswyr yn parhau i ddadlau ynghylch beth oedd ysgogiad gwŷr o gefndir cyffredin i ymaelodi â’r lluoedd gwirfoddol. Y cwestiwn sy’n poeni haneswyr llên yw beth oedd ysgogiad y beirdd i ganu mor glodforus i luoedd o’r fath. Ni ellir peidio â sylwi ar y pwyslais diymholiad yn eu plith oll ar ddefodaeth liwgar y gwirfoddolwyr, a hynny ar draul unrhyw drafodaeth o’u diben a heb awgrym o wrthwynebiad i’w bodolaeth. Y mae’r gwahaniaeth rhwng y milisia a’r gwirfoddolwyr yn allweddol, yn hyn o beth, wrth gwrs: nid oes amheuaeth nad oedd yn haws derbyn y drefn wirfoddol na’r un a reolid gan ‘ballot’ y milisia. Yn achos y cerddi a ganwyd i wirfoddolwyr yn dilyn glaniad y Ffrancod yn Abergwaun, fodd bynnag, gellir awgrymu bod tensiynau’n ymwneud â’r glaniad yn rhan o’r ysgogiad i ganu. Y mae cyfeiriad Dafydd Morgan at ei frys i efelychu ‘beirdd Abergwaun’ a rhoi cyhoeddusrwydd i arweinwyr gwirfoddolwyr Glan Teifi yn awgrymu nid yn unig bwysigrwydd yr argraffwasg a’r faled fel cyfrwng yn achos y glaniad a’r helynt a’i dilynodd, ond hefyd barhad peth o’r tensiwn gwrthradical ac Ymneilltuol a dyfodd yn sgil digwyddiadau mis Chwefror 1797. Y mae’r awydd i goffáu mewn print yn dangos dymuniad y bardd hwn i’w leoli ei hun o fewn tiriogaeth deyrngarol ac i hybu teyrngarwch o fewn ei gymdeithas. Ond nid yw ysgogiad pob bardd yr un fath. Y mae deunydd George Stephens (er ei fod yn enwi’r un boneddigion â Dafydd Morgan) gryn dipyn yn symlach (ffaith a sicrheir gan ei ddewis o’r

mesur hir neu ‘wyth ac wyth’). Gallai hynny adlewyrchu’i resymau dros ganu. Gofynna am ‘[d]air hatling fychan’ yn rhodd am ei gerdd wrth nesu tua’i diwedd, gan awgrymu felly mai ffactorau economaidd a’i gyrrodd i’w chreu, yn rhannol, o leiaf. Yr oedd canu cerddi a folai’r boneddigion gan dderbyn y drefn a osodent hwy yn ffordd o wneud bywoliaeth dwi i feirdd cyffredin.

Yn olaf, troir at ddefodaeth y lluoedd gwirfoddol. Y mae’r dyfyniad sy’n deitl i’r erthygl hon yn awgrymu nid yn unig sut y mewnoforiwyd iaith estron i’r Gymru Gymraeg drwy gyfrwng y rhyfeloedd yn erbyn Gweriniaeth Ffrainc a’r Ffrainc Napoleonaid, ond hefyd sut y cyflyrwyd pobl gyffredin gan synnau offerynnau megis y ‘Ffeiffs ar Drums’. Ceir disgrifiad gan Robert Morris (Robin Ddu Eifionydd), o effaith clywed sŵn o’r fath ar bobl sir Gaernarfon, ac y mae’n werth dyfynnu’r pennill (i’w ganu ar ‘Belisle March’) yn ei gyfanrwydd:

Cenwch fiwsig (hoenwyth fesur),
Yn eglur iawn eich nod,
Nes byddo’r creigiau yn rhoi lleisiau
A thyrfâu’n rhannau’r rhod.
Doed naturiaeth i gyd-daro
I byncio’i dawn yn bêr;
Coded nwydau yno i neidio
I seinio dan y sêr.
Y miwsig oll ynghyd,
Hyfrydol o unfryd –
Codwch faner Siôr i fyny
I’w barchu a’i harddu o hyd;
Dadseiniwch allan (unwedd anian),
Yn gyfan (wiwlan waith);
Dysgwch droedio, saethu a tharo,
A mwrddo’r gelyn maith.
Dadseiniad George y drwm
Nes codo pawb o’u cwm,
Wrth glywed lleisiau a gweled goleu
Y fflamau tân a phlwm;
Na chlywodd pobloedd trwy Lanbeblig
Erioed fath fiwsig fwyn –
Adlais odlau, lwysedd leisiau,
A doniau gwych ar dwyn.⁴⁶

O'r tu allan, ac yntau'n Gymro oddi cartref, y sylwodd Huw Jones, Llangwm, ar gotiau cochion y milisia yn Amwythig ym 1759. Er bod rhai o'i gydnabod wedi dewis (neu gael eu dewis) i wasanaethu'r lluoedd hyn ar eu newydd wedd yn y Rhyfel Saith Mlynedd, yr oedd y milisia'n parhau i fod yn ddieithr i drwch poblogaeth Cymru yr adeg honno. Erbyn rhyfeloedd diwedd y ganrif a dechrau'r ganrif a'i dilynodd, yr oedd 'cotiau cochion' – boed y rheini ar gefnau aelodau'r milisia neu aelodau'r lluoedd gwirfoddol – yn cyffwrdd yn llawer mwy uniongyrchol â chynulleidfa'r bardd baledol Cymraeg.

Ellis Roberts, 'Cerdd ar "Frynie yr Werddon"
o glod i'r milisia Cymru, sy yn ddychryn i'n gelynyon'
(Wrecsam, [?1778]; JHD 289i)
llsgr. LIGC 1940Aii, ff. 70b–71a, 'Bryniau Iwerddon / Powys'



Atodiad: nodyn

Y mae'r atodiad yn cynnwys gosodiad o gerdd Ellis Roberts 'ar "Frynie yr Werddon" o glod i'r milisia Cymru, sy yn ddychryn i'n gelynyon'. Golygwyd y testun yn ysgafn iawn, gan safoni'r atalnodi a nodweddion orgraffyddol, ond gan gadw ffurfiau llafar ynghyd â sawl nodwedd ansafonol arall. Lle gwnaed newidiadau y tu hwnt i newid yr orgraff, defnyddiwyd ffont italig i nodi hynny.

Dewiswyd fersiwn 'Powys' ar alaw 'Bryniau Iwerddon' o un o gasgliadau John Jenkins (Ifor Ceri), sef 'Per-seiniau Cymru' (llsgr. LIGC 1940Aii), am ei bod yn gweddu o ran mydr ac ysbryd i eiriau'r faled.

NODIADAU

¹ John Thomas, 'Cerdd Newydd i annerch Volunteers Gwynedd' (Trefriw, d.d.; JHD 806ii). Nodwyd rhifau JHD ar gyfer baledi o'r ddeunawfed ganrif a enwir yn yr erthygl hon, ynghyd â manylion cyhoeddi. Defnyddier 'Cronfa Baledi', <<http://www.e-gymraeg.org/cronfa/baledi>>, i leoli'r testunau. Manylion cyhoeddi'n unig a roddwyd ar gyfer baledi'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gellir canfod lleoliad y ffynonellau ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru, <<http://llgc.org.uk>>, naill ai ar ISYS: Baledi, <<http://isys.llgc.org.uk/index/htm>>, neu ar 'Baledi Cymru Ar-Lein'. Golygwyd rhai o'r testunau a drafodir yn Ffion Mair Jones (gol.), *Welsh Ballads of the French Revolution (1793–1815)* (Caerdydd, i'w gyhoeddi). Nodir hynny gan ddyfynnu'r cerddi perthnasol o'r golygiad hwn.

² Ynghylch y *Dewisol Ganiadau* a chyhoeddiad diweddarach Huw Jones, *Diddanwch Teuluaid* (1763), gw. A. Cynfael Lake (gol.), *Anterliwtiau Huw Jones o Langwm* ([Abertawe], 2000), tt. 12–20; idem, *Huw Jones o Langwm* ([Caernarfon], 2009), tt. 112–35.

³ 'Annerchiad Hugh Jones y Prydydd or Mwythig at y Cymry' (Mwythig, d.d.; JHD 155bii). Dyfynnir y gerdd yn llawn yn Lake (gol.), *Anterliwtiau Huw Jones o Langwm*, t. 19.

⁴ J. R. Western, *The English Militia in the Eighteenth Century: The Story of a Political Issue* (London, 1965), tt. 154–61, 447–8, 378–81. Nid enwir Amwythig gan Western fel cyrchfan i luoedd yn y cyfnod hwn, ond sonnir am luoedd o swydd Lincoln yn lluestu ym Manceinion, Stockport, Macclesfield a Knutsford, ac y mae'n ddigon posibl y byddai Amwythig wedi bod yn gyrchfan i luoedd o siroedd cyfagos, megis sir y Fflint, swydd Warwick a swydd Gaer, neu i luoedd o ardaloedd pellach i ffwrdd.

⁵ Gw. dienw, 'A new Song calld the Militia-Man' yn *The Militia-Men's Garland, containing 4 new songs*, tt. 2–4, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, llsgr. Bodwenni 246; a dienw, 'The Shropshire Militia' yn Michael Peele, *Shropshire in Poem and Legend* (Shrewsbury, 1923), tt. 123–4. Dyddir 'The Shropshire Militia' i 1762; y mae 'A new Song calld the Militia-Man' yn ddiddydidiad, ond fe'i cyhoeddwyd ar y cyd â cherdd o'r enw 'The Queen of Hungary in the Suds' (tt. 5–7), lle y dangosir brenhines Hwngari yn galaru wrth weld goruchafiaeth filwrol y Prwsiaid drosti. Y mae'n crybwyll cyrhaeddiad buan lluoedd o Loegr ('English Troops') yn ogystal. Tebyg

mai Maria-Theresa (m. 1780) yw'r frenhines dan sylw. Hi oedd y fenyw gyntaf i esgyn i orsedd Ymerodraeth Habsbwrg, a gynhwysai Hwngari.

⁶ Gw. nodyn 5 uchod ynghylch baled o gasgliad Bodwenni; a gw. 'Sir Dilberry Diddle, Captain of Militia: An excellent new Song' (1766) yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cofnodion Ystad Brogyntyn, PQH1/5. Ynghylch Brogyntyn gw. Meic Stephens (gol.), *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru* (Caerdydd, 1997), d.g. Brogyntyn neu Porkington, a'r cyfeiriadau pellach yno.

⁷ Siwan Meleri Rosser, 'Golwg ar Ganu Rhydd Jonathan Hughes, 1721–1805' (traethawd MPhil anghyhoeddedig Prifysgol Cymru, 1998), tt. 28–9.

⁸ Llsg. LIGC 18B, t. 453. Y mae'r testun yn anghyflawn.

⁹ Dyfynnir o Jones (gol.), *Welsh Ballads of the French Revolution*, rhif 11. Gweler ymhellach ibid. ynghylch yr amrywiol argraffiadau o'r faled hon.

¹⁰ Jonathan Hughes, 'Cerdd o Galonddid ir Milwyr Gwladychaidd, yr ydis yn ei godi yn y Deyrnas hon I gadw'r Porthladdoedd pa rai a elwir [. . .]din y Militia, neu Train Bands' (Amwythig, 1763; JHD 766ii). Yr oedd gwreiddiau'r 'trained bands' yn oes y Tuduriaid, a chwaraeasant ran hefyd yn Rhyfeloedd Cartref yr ail ganrif ar bymtheg. Gw. P. R. Newman, *Atlas of the English Civil War* (London, 1985), tt. 10–11.

¹¹ Rosser Llwyd, 'Carol, Anogol Gynigiad, Ar Frydain Hyfrydol Erfynniad' (Caerfyrddin, 1759; JHD 508).

¹² Dienw, 'Cerdd newydd, sef y Militia yn canu ffarwel i'w gwlad, yr hon a genir, a'r Tempest of War' (Amwythig, 1761; JHD 876ii).

¹³ Gellir gweld y geiriau 'a'i Cant' ar ddiwedd y copi yn Llyfrgell y Ddinas, Caerdydd (ROB 02495462), ond y mae cyflwr y ddogfen yn rhy wael i alluogi darllen yr enw.

¹⁴ Un o gryfderau cerdd Rosser Llwyd yw'r modd y llwyddodd i ailfapio natur carennnydd, drwy ddelweddu Prydain fel mam.

¹⁵ *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 3659.

¹⁶ Noder bod Huw Jones, yntau, yn gallu canu mewn cywair canmoliaethus i'r milisia. Gw. 'Cerdd o glod i filisia sir Fôn, i'w chanu ar Monday Morning' (c. 1765) yn Alaw Mai Edwards ac A. Cynfael Lake (goln), *Detholiad o Faledi Huw Jones: 'Llymgi Penllwyd Llangwm'* (Aberystwyth, 2010), tt. 108–10.

¹⁷ Huw Jones, 'Ychydig benillion i ŵr Ieuangc oedd wedi mynd yn sawdwr i ganu ffarwel ir wlad, ar Charity Mistress' (Amwythig, 1760; JHD 764iii).

¹⁸ Huw Jones, 'Cerdd newydd i annerch Owen Jones o Gaer Gybi Oddi wrth ei hên ffrynd John Morris, yr hwn aeth yn un o Filitia Sir Ddimbech: iw chanu ar ffarwel Brydain' (Y Bala, 1761; JHD 480ii).

¹⁹ Robert Middlekauff, *The Glorious Cause: The American Revolution, 1763–1789* (argr. diwygiedig, Oxford, 2007), tt. 55–6.

²⁰ Ibid., tt. 62, 89–90.

²¹ Stephen Conway, *The British Isles and the War of American Independence* (Oxford, 2000), t. 19.

²² Ellis Roberts, ‘[Cerdd] O ffarwel i'r Militia Cymru’ (Trefriw, 1778; JHD 346i); dienw, ‘Ffarwel i'r Militia Chwe’ Sir Gwynedd sydd yn myned trwy genad yr Hollalluog oddi Cartref. Yn ddychryn i'w gelynion’ (Machynlleth, 1778; JHD 741ii); Ellis Roberts, ‘[Cerdd] O fawl i Falisia Sir Fon’ (Bala, [?1778]; JHD 485i); idem, ‘Cerdd ar “Frynie yr Werddon” o glod i'r milisia Cymru, sy yn ddychryn i'n gelynion’ (Wrecsam, [?1778]; JHD 289i). Ceir golygiad o'r olaf, ynghyd â gosodiad o'r pennill cyntaf ar yr alaw ‘Bryniau Iwerddon’, ar ddiwedd yr erthygl hon. Daw pob dyfyniad ohoni o'r golygiad hwnnw.

²³ Roedd y milisia yn ystod y rhyfel hwn yn hyfforddi gyda'r lluoedd milwrol rheolaidd mewn gwersylloedd megis Coxheath yn swydd Gaint. Conway, *The British Isles and the War of American Independence*, t. 157. Gweler ymhellach isod am faled sy'n sôn yn benodol am y gwersyll hwnnw.

²⁴ Ynghylch Ynys Brydain y traddodiad chwedlonol a barddonol Cymraeg, gweler Dafydd Glyn Jones, *Gwlad y Brutiau* (Abertawe, 1991).

²⁵ Sylwer mai ‘Caswalldon’ yw'r ffurf ar yr enw yn y testun. Gw. yr atodiad.

²⁶ Gw. Conway, *The British Isles and the War of American Independence*, tt. 192–4.

²⁷ Matthew Prichard, ‘I Filwyr Sir Gaernarfon ar ei trosglwyddiad o Gaergybi Ymôn, i'r Gwersyll sy'n y Coxheath yng-Nghent’ (Trefriw, 1780; JHD 327ii).

²⁸ Gw. Bryn Owen, *Welsh Militia and Volunteer Corps 1757–1908: 1. Anglesey & Caernarfonshire* (Caernarfon, 1989), t. 21.

²⁹ Gw., er enghraifft, astudiaeth hynod ddylanwadol Linda Colley, *Britons: Forging the Nation 1707–1837* (London, 1992); a hefyd Conway, *The British Isles and the War of American Independence*, tt. 166–202.

³⁰ Ynghylch Baley ac arweinwyr eraill milisia Môn yn y cyfnod gw. Owen, *Welsh Militia and Volunteer Corps 1757–1908: 1. Anglesey & Caernarfonshire*, tt. 22, 31. Sylwer bod Baley yn oedranus iawn yn ystod cyfnod Rhyfel America, ffaith sy'n tanlinellu pwysigrwydd cyfeirio at ei bresennol gyda'r milisia cyfoes yn ogytal â sôn am orffennol gwych ei deulu.

³¹ Ibid., tt. 21–2.

³² Gw. yn enwedig Ellis Roberts, ‘Cerdd ar “Frynie yr Werddon” o glod i'r milisia Cymru, sy yn ddychryn i'n gelynion’.

³³ Gw. Colley, *Britons: Forging the Nation 1707–1837*, pennod 1.

³⁴ Owen, *Welsh Militia and Volunteer Corps 1757–1908: 1. Anglesey & Caernarfonshire*, t. 24.

³⁵ Ynghylch symudiadau Bonaparte gw. Alexandra Franklin a Mark Philp, *Napoleon and the Invasion of Britain* (Oxford, 2003), t. 9. Am grynodedd o ddatblygiad y gwirfoddolwyr yn ystod y cyfnod hwn gw. Kevin B. Linch, ‘“A Citizen and Not a Soldier”: The British Volunteer Movement and the War against Napoleon’ yn Alan Forrest, Karen Hagemann a Jane Rendall (goln), *Soldiers, Citizens and Civilians: Experiences and Perceptions of the Revolutionary and Napoleonic Wars, 1790–1820* (Basingstoke, 2009), tt. 205–21.

³⁶ J. E. Cookson, ‘The English Volunteer Movement of the French Wars, 1793–1815: Some Contexts’, *Historical Journal*, 32 (1989), 878. Am enghraifft o wrthwynebiad y boneddigion i bresenoldeb gwirfoddolwyr yn sir Gaernarfon yn ystod y cyfnod hwn gw. Dafydd Glyn Jones, ‘Dragwniaid yn y Dref’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, 72 (2011, i’w gyhoeddi).

³⁷ Jon Newman, ‘“An Insurrection of Loyalty”: The London Volunteer Regiments’ Response to the Invasion Threat’ yn Mark Philp (gol.), *Resisting Napoleon: The British Response to the Threat of Invasion, 1797–1815* (Aldershot, 2006), t. 83.

³⁸ Richard Roberts, ‘Cerdd o Fawl i Filitia Swydd Aberteifi, ynghyd a’r Officers, gan rodidi iddynt Glod fel y maent yn ei haeddu’ (Croesoswallt, 1794; JHD 271i); Robert Davies (Bardd Nantglyn), ‘Cân milisia Dinbych’ (Llanrwst, d.d.; gw. Jones (gol.), *Welsh Ballads of the French Revolution*, rhif 37); dienw, ‘Cerdd A wnaed i Filitia Cymru, i’w chanu ar Drymder’ (Dolgellau, [1799]; JHD 701ii); dienw ‘Ffarwel Milisia i’w gwlad sydd yn awr wedi mynd dan arfau’r Brenin yn ddychryn i’n gelynyon’ (Caernarfon, [1812]); Griffith Williams (Gutyn Peris), ‘[P]enillion i annerch milwyr cartrefol swydd Gaernarfon’ (Caernarfon, 1812; gw. Jones (gol.), *Welsh Ballads of the French Revolution*, rhif 33).

³⁹ ‘Trymder’ yw’r alaw ar gyfer cerdd Robert Davies, ‘Cân milisia Dinbych’, a’r gerdd ddienw ‘A wnaed i Filitia Cymru’; ‘Peggy Band’ yw’r alaw a ddynodir ar gyfer ‘Ffarwel Milisia i’w gwlad’.

⁴⁰ Dienw, ‘Ffarwel Milisia i’w gwlad’.

⁴¹ Linch, ‘“A Citizen and Not a Soldier”: The British Volunteer Movement and the War against Napoleon’, t. 217. Sylwer mai at y gwirfoddolwyr y mae’n cyfeirio.

⁴² Griffith Williams, ‘[P]enillion i annerch milwyr cartrefol swydd Gaernarfon’.

⁴³ [George Stephens], ‘Cân o ganmoliaeth i volunteers y tair sir, sef sir Benfro, sir Aberteifi a sir Gaerfyrddin’ (Caerfyrddin, 1799; JHD 567; gw. Jones (gol.), *Welsh Ballads of the French Revolution*, rhif 23).

⁴⁴ Gw. ymhellach Jones (gol.), *Welsh Ballads of the French Revolution*, rhagarweiniad. Noder bod ofn yr Ymneilltuwyr yn yr ardal yn symbyliad amlwg a chryf i Edward Corbet o Ynysmaengwyn, Tywyn, fynd ati i sefydlu llu gwirfoddol ym 1795. Dadleuodd Hugh J. Owen fod Corbet yn ‘much more concerned with the enemy from *within* than from *without*. In fact, it is doubtful if Captain


Corbet gave much thought to the question of danger from the common enemy. . . . His chief concerns were the local tumults and the propagation of the teachings of the dissenters'. Hugh J. Owen, *Merioneth Volunteers and Local Militia During the Napoleonic Wars (1795–1816)* (Dolgelley, [1934]), tt. 22–4.

⁴⁵ Dafydd Evan Morgan, 'Cân o glod i foluntiers Glan Teifi a'u hoffisers' (Caerfyrddin, 1800; gw. Jones (gol.), *Welsh Ballads of the French Revolution*, rhif 24).

⁴⁶ Robert Morris, 'Cerdd i milisia cartrefol sir Gaernarfon' (Caernarfon, 1810; gw. Jones (gol.), *Welsh Ballads of the French Revolution*, rhif 29).

CÂN ‘MARI LWYD LAWEN’ O LANDYBÏE: EI GWIR LEOLIAD

D. Roy Saer



Dair blynedd yn ôl, mewn rhifyn arall o'r cylchgrawn hwn,¹ cyhoeddais y pennill uchod o'r gân ddefodol hon fel y'i cofnodwyd gan Jennie Williams (yn ddiweddarach Mrs Jennie Ruggles-Gates) a'i gyflwyno ganddi, yn rhan o gasgliad o ganeuon gwerin siroedd Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin, ar gyfer cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, 1911.²

Gyda'r pennill, yr wybodaeth a gynigiodd Jennie Williams am ffynhonnell a chefnidir oedd: 'T. Mathews Llandebie [*sic*]. Cened hi gan yr hen bobl trwy eu trwynau'. Cymerais yn ganiataol mai hen bobl Llandybïe a oedd yma o dan sylw; wedi'r cwbl, yr oedd y 'Pen Ceffyl' tymhorol ar grwydr yno mewn dyddiau a fu, ac yn dal i dramwyo mor ddiweddar â dechrau'r ugeinfed ganrif.³ Ond bellach rhaid ailystyried pa mor ddilys ydyw lleoli'r fersiwn hwn ar y gân yn Llandybïe fel y cyfryw.

Nodais y tro o'r blaen fod '[y]r un fersiwn i'w ganfod – nodyn am nodyn, bron, a hefyd air am air – yn llyfryn *Llen Gwerin Blaenau Rhymni*'. Ac yr oedd hyn yn peri rhywfaint o benbleth. Ychwanegais, felly, mai 'Diddorol, gyda llaw, fyddai gwybod sut y cariodd y fersiwn mewn ffurf mor ddigynfnewid rhwng deule cyn belled oddi wrth ei gilydd â Llandybïe a Chwm Rhymni.'⁴

Yn niwedd 2009 fe ddaeth goleuni, a hyn pan gyrhaeddodd rhifyn Gaeaf *Y Casglwr*, cylchgrawn Cymdeithas Bob Owen. Ynddo cynhwyswyd ysgrif, o waith Dylan Rees, ar ‘Thomas Matthews (1874–1916): Arloeswr a Gweledydd’.⁵

Fe geir mai yn Llandybïe y magwyd ac y claddwyd y gwladgarwr pybyr hwn, ac efe yn ddiau a roes y gân ‘Mari Lwyd Lawen’ i Jennie Williams. Llawn mor ddadlennol am hanes y gân yw i’r ysgrif nodi bod Thomas Matthews yn ystod ei flynyddoedd olaf yn dal swydd draw yng Nghwm Rhymni. Ef, mewn gwirionedd, oedd ‘yr athro Cymraeg cyntaf i gael ei apwyntio yn Ysgol y Bechgyn, Pengam’. Datgelir, ymhellach, iddo hefyd ymddiddori ym maes canu gwerin:

Yn Ysgol Lewis, anogai ei ddisgyblion i ymchwilio i draddodiad cyfoethog llafar Cwm Rhymni, ac i gasglu a chofnodi enghreifftiau o chwedlau a chaneuon gwerin cyn iddynt fynd ar goll drwy ddiwydiant a Seisnigeiddio.

A dyma, felly, y person yr arweiniodd ei weithgarwch fel athro at gyhoeddi’r ddau lyfryn *Llen Gwerin Blaenau Rhymni o gasgliad Bechgyn Ysgol Lewis, Pengam* (Pengam [Gwent]: Ysgol Lewis, 1912) a *Dail y Gwanwyn: Barddoniaeth, Llen-gwerin a Straeon gan Fechgyn Ysgol Lewis, Pengam*, gol. T. Matthews (Pengam [Gwent]: Ysgol Lewis, 1916).

Dengys Dylan Rees i Thomas Matthews gyflawni llawer iawn mwy na hyn, gan gwmpasu meysydd hanes a llên gwerin, iaith a llenyddiaeth, a hyd yn oed ddiwylliant gweledol. Rhwng 1908 ac 1916 cyfrannodd doreth o ysgrifau i *Cymru*, cylchgrawn O. M. Edwards, ac yn 1910 ymddangosodd ei brif waith *Welsh Records in Paris* (a gynhwysai lythyron Owain Glyndŵr at Frenin Ffrainc). Nid oes amheuaeth i Thomas Matthews – a hyn wedi oes fer o 42 mlynedd yn unig – lwyrr deilyngu ei alw yn ‘Arloeswr a Gweledydd’. Erbyn chwilio ymhellach fe ganfyddir bod dau dudalen wedi eu neilltuo iddo yn llyfr Gomer M. Roberts, *Hanes Plwyf Llandybïe* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru dros Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, 1939),⁶ a phurion peth, yn wir, fyddai iddo gael ei le maes o law yn *Y Bywgraffiadur Cymreig* yn ogystal.

A minnau eisoes wedi llunio drafft o’r ysgrif bresennol fe roed sylw mwy haeddiannol i’r gŵr hwn y llynedd pan gyhoeddwyd cyfrol *Thomas Matthews’s Welsh Records in Paris: A Study in Selected Welsh Medieval Records* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010) gan Dylan Rees a J. Gwynfor Jones. Cynigir

yma (tt. 1–48) wybodaeth lawnach am ei fywyd a'i waith, ynghyd â lluniau ohono.

O ddarllen am yr ymchwil ym Mharis, naturiol dyfalu ai yno y croesodd llwybrau Thomas Matthews a Jennie Williams. Bu Mary, chwaer ddisglair Jennie, yn fyfyrwraig yn y brifddinas rhwng 1907 ac 1912, ac fe'i dilynwyd yno gan Jennie ei hunan rywdro o fewn i'r un cyfnod.⁷ Ond pythefnos yn unig, a phythefnos eithriadol brysur, a dreuliodd Thomas Matthews ym Mharis.⁸ Ymddengys yn fwy tebygol mai yn Llundain y cyfarfu ef a Jennie Williams. Yn wir, nododd Jennie Williams ei hunan wrthyf un tro,⁹ gyda golwg ar ei chasgliad o ganeuon gwerin siroedd Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin, mai trwy gyfarfod â Chymry yn Llundain y llwyddasai i hel caneuon o'r ddwy sir olaf. O sylwi mai Thomas Matthews a roes iddi y cwbl ond un o'i chaneuon Shir Gâr, mae'n deg cymryd taw yn Llundain y digwyddodd hynny. (Tybed, o ran diddordeb, a sgysiodd y ddeuddyn hefyd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ryw dro. Yr oedd Thomas Matthews yntau'n mynychu'r Brifwyl, a chafodd ei dderbyn i Orsedd y Beirdd yng Nghaernarfon yn 1906.¹⁰ Pwy a wŷr: efallai ei fod yn bresennol yn y cyfarfod hanesyddol yno a esgorodd ar Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru.)

Ond i ddychwelyd at gân 'Mari Lwyd Lawen'. Yn 1912 y cyhoeddwyd hi – o dan olygyddiaeth Thomas Matthews – yn *Llen Gwerin Blaenau Rhymni*,¹¹ gan ymddangos yno fel un o ganeuon y cwm hwnnw. Ond flwyddyn yn gynharach yr oedd eisoes wedi ei chyflwyno yng nghasgliad eisteddfodol Jennie Williams fel cân o Shir Gâr (a hyn, fel y dywedwyd, gan gydnabod 'T. Mathews Llandeibie' fel y ffynhonnell).

Sut mae egluro'r 'anghysondeb'? Ateb posibl yw fod Jennie Williams wrth lunio'i chasgliad ar gyfer y Brifwyl yn wynebu un broblem sylfaenol, sef bod ei chynhaeaf o eitemau o Shir Gâr yn dra thenau, a dweud y lleiaf. Cyfeiriwyd gan Wyn Thomas at yr anghydbwysedd daearyddol yn ei chronfa – tra bod yno wyth cân ar hugain o Geredigion ac wyth o sir Benfro, ni chynhwysai ond pedair o Shir Gâr (a thair o'r rhain yn deillio oddi wrth Thomas Matthews).¹² Fe allai fod Jennie Williams yn sylweddoli mai yng Nghwm Rhymni y cawsai Thomas Matthews 'Mari Lwyd Lawen' yn y lle cyntaf, ond iddi eto gyfiawnhau ei chynnwys ar y tir mai brodor o Landybïe ydoedd ef ei hunan. Yn arwyddocaol, yn achos y ddwy gân arall a roes Thomas Matthews iddi, mae sylwadau golygyddol Jennie Williams yn cyfeirio'n benodol at eu canu tua Landybïe. Am 'Cân Triban' dywed 'Fel y'i cenir yn y gymdogaeth', ac am 'Oes Gafr Eto?'

nodir ‘Fel y’i cenid yn yr ardal honno’.¹³ Am ‘Mari Lwyd Lawen’, fodd bynnag, ni ddatgelir ond ‘Cenid hi gan yr hen bobl trwy eu trwynau’.¹⁴ Ymddengys bellach nad hen bobl Llandybïe oedd y rhain wedi’r cwbl ond hynafgwyr Cwm Rhymni, ac mae’n briodol inni ofyn a ddewisodd Jennie Williams drawsblannu’r eitem hon er mwyn chwyddo ar ei chyflenwad prin o ganeuon Shir Gâr. (Cofier, wrth gwrs, taw yn nhref Gaerfyrddin yr oedd Prifwyl 1911 i’w chynnal.)

NODIADAU

¹ D. Roy Saer, ‘Pedair cân o gasgliad (1911) Jennie Williams’, *Canu Gwerin (Folk Song)*, 31 (2008), 22. Sylwer mai yn llaw Dr J. Lloyd Williams y goroesodd y pennill (heb nodi’r geiriau drwodd i’r diwedd) – diflannu a wnaeth casgliad gwreiddiol Jennie Williams.

² Am drafodaeth ar y casgliad, gweler erthygl Wyn Thomas, ‘“Ffarwel i Aberystwyth...”: Jennie Williams (1885–1971) a Byd yr Alaw Werin yng Nghymru’, ynghyd â’i chyfieithiad Saesneg, yn *Cynheiliaid y Gân/Bearers of Song*, gol. Sally Harper a Wyn Thomas (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2007), tt. 251–96.

³ Gomer M. Roberts, *Hanes Plwyf Llandybïe* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru dros Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, 1939), tt. 272–6.

⁴ D. Roy Saer, art. cit. 22–3.

⁵ Dylan Rees, ‘Thomas Matthews (1874–1916): Arloeswr a Gweledydd’, *Y Casglwr* (Gaeaf 2009), 3.

⁶ Gomer M. Roberts, op. cit. tt. 243–4.

⁷ Wyn Thomas, art. cit. tt. 254–5.

⁸ Dylan Rees yn Dylan Rees a J. Gwynfor Jones, *Thomas Matthews’s Welsh Records in Paris: A Study in Selected Welsh Medieval Records* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2010), t. 11.

⁹ Yn ystod cyfweiliad â hi (Mrs Jennie Ruggles-Gates, bellach) a recordiwyd yn ei chartref, 35 Fitzjohns Avenue, Hampstead, ar 1 Tachwedd 1963. Tâp Amgueddfa Werin Cymru (AWC) 618.

¹⁰ Dylan Rees yn Dylan Rees a J. Gwynfor Jones, op. cit. t. 8.

¹¹ *Llen Gwerin Blaenau Rhymni o gasgliad Bechgyn Ysgol Lewis, Pengam* (Pengam [Gwent]: Ysgol Lewis, 1912), t. 75.

¹² Wyn Thomas, art. cit. t. 257.

¹³ Ibid. tt. 276–7.

¹⁴ Ibid. t. 273.

AR DRYWYDD ‘IFAN GLAN TEIFI’

Meredydd Evans



Na, nid ar drywydd unrhyw ddyn o'r enw, ond alaw. Cychwyn y cyfan oedd darllen yn ddiweddar gerdd gan Lewis Morris yn rhifyn Hydref 2004 o'r cylchgrawn difyr hwnnw, *Thysau'r Hen Oesoedd* (tt. 10–12). Fe'm trawyd gan ei mydr. Ymddangosai'n gyfarwydd. Cofiais am alaw 'Y Glomen' (*Cylchgrawn* I, t. 70) a daeth goleuni. Gellir canu'r geiriau arni, gydag arbed ambell sillaf yma ac acw.

Ychydig cyn hynny roeddwn wedi bod yn gweithio ar gefndir y gân hyfryd honno ac wedi darganfod bod amrywiad ar y geiriau, lle mae'r bardd yn sgwrsio nid â cholomen ond hefo llamysten:¹ hynny wrth ddarllen llawysgrif drwchus Dafydd Jones o Drefriw, LIGC 9B. Yn honno gwelwn fod y gerdd i'w chanu ar 'Ifan Glan Teifi'. Cynhwysai'r llawysgrif gerdd arall hefyd, mewn mydr gwahanol, i'w chanu ar yr un alaw. Roedd hynny ynddo'i hun yn ddigon o ysgogiad i chwilio ymhellach, felly dyma droi at esiampl(au) ohoni. Ces gyfeiriad i'm hymchwil yn rhai o bapurau Phyllis [Kinney].

Mae'n bosibl mai'r cyfeiriad cynharaf at yr alaw yw hwnnw a welir mewn rhestr o enwau ceinciau yng Nghoflyfr Phillip Powell, Aberhonddu, dan y pennawd 'Lute Leasons', rhestr a luniwyd ganddo o gwmpas 1635.² Ei henw yno yw 'Farwell Ieuan glyn Tivy'.

Rhaid aros am y cyfeiriad nesaf ati hyd at dridegau'r ddeunawfed ganrif, sef yn llawysgrif Dafydd Jones y cyfeiriais ati eisoes. A manylu ychydig ymhellach dyma benawdau'r ddwy gerdd sydd i'w canu arni yno: 'Ymddiddan Rhwng Dyn ar Llamysten ar Ifan Glan Teifi' (t. 21), a 'Marwnad am Rys Morys ar fesur Ifan glan Teifi' (t. 594). Mydr sillafog y gyntaf yw 9.9.9.3.3.5 (weithiau 4.4.5). Mydr yr ail yw 88.88.88. Mwy am hyn yn nes ymlaen.

Ceir cyfeiriadau eraill ati yn ystod yr un ganrif o dan amrywiol benawdau, er enghraifft 'Wiellan Ddyrus neu Ffarwel Glan Teifi' (Rhif 276), a 'Gwinllan Ddyrus, neu Ifan Glan Teifi, yr Ffordd hwyaf' (Rhif 655), hyn yn J. H. Davies, *Bibliography of Welsh Ballads* (London: The Honourable Society of Cymmrodorion, 1911). Cyfeiriodd Richard Morris ati hefyd dan y pennawd 'Conset Ifan Glanteifi' mewn rhestr o enwau ceinciau a anfonodd at Edward

Jones ‘Bardd y Brenin’ yn 1779. Cyfeiriad arall difyr ati yw hwnnw a welir mewn pennill o gerdd gan John Jones, athro ysgol, o gwmpas 1772 yn Llandeiniolen, cerdd dan yr enw ‘Gwisg meinwen o amryw fesureu ...’:

Mae ganddi Saneu o Wêl'r adeilad
A chwirc Coch, Twll yn ei boch, na welsoch trwy'r ddwywlad
Gan neb o'i bath ond Pretty Nani
O weyad Evan o Lan Teify.

Eithr y cyfeiriad mwyaf annisgwyl at yr alaw yw un yng nghofnodion y Sesiwn Fawr (LIGC 4/176/1) mewn achos cyhuddiad yn erbyn ‘Evan Glynne of Glynne, Esq.,’ iddo lofruddio Evan Humphreys, crydd o Lanidloes, ar 8 Ebrill 1727 yn dilyn ar helynt mewn tafarn yn y dre.

Gan Cledwyn Fychan y cefais yr hanes ac mae o'n digwydd bod yn un o'r ymchwilwyr diflino hynny sy'n hael ei gymwynasau i gyd-ymchwilwyr. Rhoes wybod i mi am sawl ffaith yr oedd, ac y mae, gennyf ddiddordeb ynddyn nhw. Dyma ddyfyniad a gefais ganddo o rai o'r dogfennau sy'n ymwneud â'r achos dan sylw, achos a gynhaliwyd ar 16 Mai 1727. Evan Glynne sy'n honni mai fel hyn y dechreuodd yr helynt rhyngddo a'r crydd druan:

... upon Saturday ye Eighth day of April last, He accidentally came with some other gentlemen to ye House of Richd Spoonley of Llanidloes Innkeeper and they procur'd a Fidler to Divert them, and while they were Merrily Enjoying each other's Company [yn ôl un tyst, hyn yn cynnwys dawnsio] One Evan Humphreys of ye sd Town Shoomaker came into their Room and in a very Insolent manner commanded the Fidler to play for him ye Tune Called Evan Glan Teifi. This Surprising Impudence gave offence to ye whole company.

Thomas Williams oedd enw'r ffidler a thystiodd yntau i'r un perwyl. Chwaraeai i'r cwmni, meddai, yn y gegin ac Evan Glynne oedd wedi galw am ei wasanaeth yn y dafarn. Ychwanegodd iddo wrthod chwarae ‘Evan Glan Teifi’ i Evan Humphreys. Tu allan i'r dafarn y bu'r cwffio tyngedfennol, ond hyd yma ni wn beth oedd dyfarniad y Llys yn yr achos. Gobeithiaf gael cyfle rywbryd i ymholi ynghylch hynny. O ddarllen rhai o'r tystiolaethau deuai un peth yn amlwg, sef bod y ‘gentlemen’ yn ystyried y crydd yn rhywun isradd iddyn nhw. Gwan iawn, dybiwn i, oedd gobeithion teulu'r crefftwr am gyfiawnder. Hyn oll wrth fynd

heibio, ond y mae'n dystiolaeth hanesyddol bendant fod yr alaw yn cael ei defnyddio fel alaw ddawns yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif.

Symudwn yrŵan at ffurfiau o'r alaw ei hun. Yn gyntaf, y ffurfiau a gysylltir yn benodol â rhyw gerddor o'r enw Ifan Glan Teifi, na wyddys rhagor amdano na'i enw. Digwyddaf wybod am bedwar amrywiad arni, tri mewn llawysgrifau ac un mewn print.³ Perthynai'r ddwy lawysgrif gyntaf i ffidleriaid, sef John Thomas (gŵr o Bowys, y ceir ymdriniaeth gampus ar ei gasgliad yn Cass Meurig, *The Music of the Fiddler in Eighteenth Century Wales* (traethawd PhD, Prifysgol Cymru, Bangor, 2001) a Maurice / Morris Edwards, brodor o Ynys Môn. A hwythau'n ffidleriaid eu tuedd oedd addurno cryn dipyn ar rediad ceinciau a newid peth ar eu ffurf (tuedd naturiol telynorion yn ogystal) a dyna'n union a welwn yn yr amrywiadau sydd dan sylw yma. Amlygir yr un nodwedd yn y ddau amrywiad arall ond ar raddfa beth yn llai. Ar bwys hyn oll teg casglu mai alaw ar gyfer cyfeilio i ddawnsio ydoedd yn bennaf.

Eithr fel y gwelwyd eisoes fe'i defnyddiwyd hefyd i osod cerddi arni, ac yn ei hachos hi'n benodol, cerddi ag iddynt ddau fydr gwahanol. Er hwylustod cyfeiriwn atynt yma fel mydrau 'Marwnad Rhys' a'r 'Llamysten / Clomen'. Yn gyffredinol, gydag addasu rhediad a ffurf yr alaw mewn amrywiol ffyrdd, gellir canu'r ddau fydr perthnasol ar y pedwar amrywiad uchod ond, fel y gwelaf i bethau, yr un rwyddaf i'w haddasu felly yw alaw Morris Edwards. Fel hyn yr ymddengys honno yn y llawysgrif wreiddiol:



Dyma'r addasiadau o'r alaw a awgrymaf, gan gychwyn gyda'i gosod ar gyfer mydr 'Marwnad Rhys' 88.88.88 a dilyn hwnnw gyda gosodiad ohoni ar gyfer mydr 'Llamysten/Clomen' 9.9.9.3.3.5 (weithiau 4.4.5). Sylwer yn arbennig ar y modd y symleiddiwyd y rhediadau:

PRY- DYDD- ION CYM-RU PA- HAM Y CYM- RWCH Y FATH_ O-
 - FE - REDD YN_ DDI - FYR - RWCH ? SŌN_ AM GLŌG_ A
 CHLYT- TIAU LA - WER CŴD_ A CHŌD_ A SATS - IEL
 LE - DER GWELL I CHWIYS- TYR- IED YN_ DOS - TU - RUS
 RE - SWM A - RALL AM_ RYS MO - RUS.

Addasiad 'Marwnad Rhys' ar alaw Morris Edwards


MAE'N DDRWG GAN I_ LA- MYS - TEN ADD- FWYN DY
 GLO - WED TI_ MOR BRYDD_ YN A - CHWYN A
 DDWE-Ų DI I - MI RWY'N DY - MU-NO ER MWYN
 DUW_ Y FWY-NA'N FYW PA LIW_ SYDD AR- NO.

Addasiad 'Llamysten / Clomen' ar alaw Morris Edwards

Cymhlethdod pellach ar y sefyllfa yw i'r pennawd 'Ifan Glan Teifi' gael ei newid, i bob golwg, rywbryd yn ystod traean olaf y ddeunawfed ganrif i ffurfiau ar bennawd arall, sef 'Rhuban Morfudd'. Ni wyddys sut y digwyddodd hyn, ond ceir y cofnod cyntaf o'r alaw dan y pennawd hwn yng nghyfrrol gyntaf Edward

Jones, *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards* yn 1784. Ymhellach, copi sydd bron yn unffurf â hon yw'r un a gyhoeddwyd gan William Crotch yn ei *Specimens of Various Styles of Music ...* (1806–07), a cheir amrywiadau hefyd gan John Parry yn *Welsh Melodies II*, a Llewelyn Alaw yn LIGC 337D, t. 192. Nid af i fanylu ymhellach ar y cydberthnasu rhwng yr amrywiadau hyn, dim ond bodloni'n unig ar nodi y gellir canu'r ddau fydr sydd dan sylw yma yn weddol rwydd ar addasiad Edward Jones o'r alaw. Gwaetha'r modd caf anhawster mawr i osod y geiriau'n foddhaol ar y ddau amrywiad arall.

Wrth gloi dychwelaf at ddechrau hyn o druth gyda chyfeirio eto at y gerdd gan Lewis Morris. Tybed a oedd amrywiad o gainc Ifan Glan Teifi yng nghefn ei feddwl pan oedd wrthi'n ei llunio, a thybed a oedd honno'n unffurf â'r un oedd yn gyfarwydd i'w gyfoeswr ym Môn, y ffidler Morris Edwards? Os felly, rhywbeth yn debyg i hyn a 'glywai' y bardd wrth roi bod i'w bennill cyntaf:



Addasiad o gainc Morris Edwards ar gyfer cerdd Lewis Morris

NODIADAU

¹ Llamysten yw 'hebog bach sy'n hela adar mân, cudyll glas, gwalch glas ... *sparrow-hawk*', gw. *Geiriadur Prifysgol Cymru*, t. 2094.

² Sally Harper, *Music in Welsh Culture before 1650* (Aldershot: Ashgate, 2007), t. 326.

³ LIGC, llawysgrifau J. Lloyd Williams AH1/36 (llawysgrif John Thomas), f. 56; Llawysgrifau Bangor 2294 (llawysgrif Maurice / Morris Edwards), t. 27; LIGC Cwrt Mawr 30B (Cerddoriaeth), cyfrol I, f. 45^o; Robert Griffith, *Llyfr Cerdd Damau* (Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwyd Cymreig, [1913]), t. 195.

DAWNS GYFOES A CHANEUON GWERIN

Catherine Young

Yn ystod haf 2010 derbyniais arian oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru er mwyn ymchwilio i'r berthynas rhwng dawns gyfoes a chaneuon gwerin. Defnyddiais yr arian i gydweithio â'r gantores Siân James ac â'r coreograffydd Rosemary Lee gyda'r bwriad o ddefnyddio storïau, emosiynau, geiriau a cherddoriaeth y caneuon i greu coreograffi.

Fel rhan o'r prosiect perfformiais ddarn o waith ym mhabel Tŷ Gwerin ar faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd. Y bwriad oedd cyflwyno cefndir y prosiect, sef y broses goreograffeg, sy'n golygu astudio'r caneuon yn fanwl ac wedyn gorffen y cyflwyniad gydag arddangosfa ddawns.

Dewisais ddwy gân werin ar gyfer yr arddangosfa, sef 'Y Glomen' ac 'Yr Eneth Glaf'. Wrth greu'r coreograffi defnyddiais broses debyg gogyfer â'r ddwy gân er mwyn datblygu geirfa dawns. Y broses oedd defnyddio'r profiad Somateg. Roedd hyn o ddiddordeb mawr i mi. Mae'r broses yn defnyddio cysylltiadau rhwng y corff a'r meddwl, y teimladau a'r emosiynau, er mwyn datblygu'r cyswllt rhwng y berfformwraig a'r gynulleidfa. Hefyd mae'n ychwanegu at ddealltwriaeth o'r thema. Wrth greu'r gwaith bŵm yn gweithio'n agos iawn gyda geiriau a straeon y caneuon er mwyn darganfod yr wybodaeth iawn am y broses Somateg. Ar ôl gwneud hyn a dod i ddeall y gân, defnyddiais yr holl deimladau a'r emosiynau mewn datganiad byrffyr er mwyn dod o hyd i'r eirfa bwrpasol.

Ar gyfer 'Y Glomen' mi wnes i ganolbwyntio ar y berthynas rhwng y ddawnswraig a'r gantores, sef Eleri Roberts. Defnyddiais hefyd emosiynau'r gân a symudiadau'r adar fel prif ffocws y ddawns. Wrth greu'r coreograffi daeth y berthynas rhwng y gantores a'r ddawnswraig yn rhan allweddol o'r perfformiad er mwyn dangos deialog rhwng dau gymeriad. Lona Jones oedd yn canu 'Yr Eneth Glaf'. Prif ffocws yr ail berfformiad oedd y naratif lle datblygodd y ddawns i fod yn ddehongliad gweledol o'r stori. Roedd llai o gysylltiad rhwng y gantores a'r ddawnswraig y tro hwn, gyda'r ddawns yn digwydd yn gefndir i'r gân, fel cof Lona.

Roedd y profiad o berfformio ym mhabel Tŷ Gwerin yn un gwerthfawr, yn

enwedig wrth gyflwyno'r gwaith o flaen cynulleidfa oedd yn cynnwys aelodau o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Er bod y gynulleidfa yn un fechan o ran nifer, bu'r adborth yn un positif a defnyddiol. Trafodwyd nifer o bwyntiau, gan gynnwys sut mae dawns yn gallu ychwanegu at y caneuon mewn ffordd weledol, a thrafodwyd hefyd y cyswllt creadigol rhwng y ddawnsraig a'r gantores, sy'n medru creu perfformiad diddorol.

Mi wnes i fwynhau'r profiad yn fawr. Rwyf wedi gweithio gyda'r gantores werin Siân James ers hynny, ac wedi creu gwaith coreograffi byrffyr sy'n cyfuno geiriau a cherddoriaeth. Gweithiais hefyd gyda'r coreograffydd Rosemary Lee yn Llundain ar y broses Somateg o fewn coreograffi. Ar hyn o bryd rwy'n ceisio am 'Wobr Cymru Greadigol' er mwyn datblygu'r gwaith ymhellach. Byddaf yn canolbwyntio ar ddefnyddio caneuon gwerin, iaith, tirlun, a hanes er mwyn ymchwilio i ymgorfforiad diwylliannol (*cultural embodiment*), ac yn defnyddio hyn i greu coreograffi.



‘A’R BYD I GYD YN BAPUR ... ’

Rhan 4: Mewn fudwr Saesneg?

E. Wyn James



Tua deng mlynedd yn ôl dechreuais gyhoeddi cyfres o erthyglau ar dudalennau *Canu Gwerin* yn trafod fformwla lenyddol hynafol iawn, ac un eang iawn ei dosbarthiad amseryddol a daearyddol, a gyrhaeddodd y Gymraeg erbyn y bymthegfed ganrif – a dyma ailgydio yn y pwnc yn awr am un tro arall!¹ Ffurf ar ‘dopos yr anhraethadwy’ yw’r fformwla. Mae’n digwydd yn enwedig yng nghyd-destun canu crefyddol a chanu serch, ac er bod nifer o amrywiadau o ran ei manylion, yr elfennau sylfaenol yn y fformwla rethregol hon yw dweud pe bai’r môr yn inc a’r byd (neu’r ffurfafen) yn bapur, a holl wellt a choed y ddaear yn ysgrifbinnau, na fyddai modd hyd yn oed wedyn fynegi rhywbeth neu’i gilydd yn llawn neu’n ddigonol. Gellir olrhain y fformwla i ysgrifeniadau Sansgrit dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ac er ei bod yn y cyfnod modern yn cael ei hystyried braidd yn dreuliedig o safbwynt llenyddol,² mae wedi parhau i frigo i’r wyneb ar hyd y canrifoedd, yn enwedig mewn llenyddiaeth werinol.

Fel y nodwyd yn erthygl gyntaf y gyfres hon (yn *Canu Gwerin*, rhif 25), mae’r enghraifft gynharaf o’r fformwla sydd ar glawr yn y Gymraeg i’w gweld mewn cywydd o’r bymthegfed ganrif. Erbyn ail hanner y ddeunawfed ganrif a dechrau’r bedwaredd ar bymtheg, yr oedd i’w gweld mewn emynau Cymraeg; a thrafod yr emynau hynny, a sut y cyrhaeddodd y fformwla hynafol hon ein hemynyddiaeth, yw pwnc y gyfres hon o erthyglau.

Pennill gan yr emynydd adnabyddus, Dafydd William (1721?–94), Llandeilo Fach, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf tua 1786 yw’r enghraifft gynharaf o’r fformwla y gwn i amdani mewn emyn Cymraeg. Dyma’r pennill:

Pe byddai’r moroedd mawrion

Yn inc o’r dua’i liw,

A’r tywod dirifedi

I gyd yn ddynion byw,

A’r byd i gyd yn bapur,

Pob un â’i ’sgrifen bin,

Ni allent gynnwys cariad

Yr Oen fu ar y bryn.

Aeth y pennill yn boblogaidd fel emyn llafar gwlad, y math o emynau a elwir yn aml yn ‘wreichion y diwygiadau’, sy’n mynd ar led ar lafar ac yng ngwres diwygiadau crefyddol, ond sydd yn aml braidd yn rhy werinol eu naws a’u delweddaeth, neu’n rhy amrwd eu mynegiant, i’w cynnwys yn y llyfrau emynau enwadol ‘swyddogol’. Y pennill poblogaidd arall ymhlith yr emynau llafar gwlad sy’n defnyddio’r un fformwla yw un gan Hywel Gruffydd (1771?–1856), bardd gwlad o ardal Beddgelert, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn rhan o farwnad yn 1826. Dyma’r pennill hwnnw:

Pe byddai gwellt y ddae’r yn binnau,
A’r môr yn inc o’r dua’ ei liw,
A’r nefoedd faith i gyd yn bapur,
A’r tywod mân yn ddynion byw,
A phawb yn ysgrifennu yn hoyw,
Yn rhoddi’n loyw eiriau i lawr,
Ni thraethant byth werth etifeddiaeth
’R un o blant yr arfaeth fawr.

Fel y gwelir, er bod rhai trawiadau tebyg yn hanner cyntaf y ddau bennill, maent yn amlwg yn annibynnol ar ei gilydd. Mae’r mesur yn wahanol. Cariad Crist yw pwnc y naill; etifeddiaeth nefol y Cristion yw testun y llall. Y byd yw’r papur yn y naill; y nefoedd yn y llall – amrywiad ar y fformwla sydd i’w gael i lawr trwy’r canrifoedd, oddi ar yr enghreifftiau cynharaf yn y Sansgrit.

Y byd yw’r papur yn y tair enghraifft o’r fformwla y gwn i amdanynt yn y Gymraeg cyn pennill Dafydd William. Yn y cywydd o’r bymthegfed ganrif a grybwyllwyd eisoes y ceir un o’r tair enghraifft hynny. Cywydd ydyw gan y bardd Hywel Dafi, o dde-ddwyrain Cymru, ac yn dyddio o ail hanner y bymthegfed ganrif. Yn un o’r cerddi rhydd cynnar, ‘Helfa Hawdd ei Hepgor’, ac yn un o’r darnau rhyddiaith rhethregol a elwir yn ‘areithiau pros’ y ceir y ddwy enghraifft arall. Ymddengys fod gan y ddwy hyn gysylltiad ag ardal Llanelwy yn y gogledd-ddwyrain, ac maent yn dyddio o tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Er iddynt fod mewn cylchrediad mewn llawysgrifau a/neu mewn print yn ystod y ddeunawfed ganrif, fel y dywedais yn ail erthygl y gyfres hon (yn *Canu Gwerin*, rhif 26), ni chredaf fod yr un o’r tair yn ffynhonnell uniongyrchol y fformwla ym mhennill Dafydd William, nac ym mhennill Hywel Gruffydd o ran hynny; ond maent yn dangos bod enghreifftiau o’r fformwla ar gael yn y Gymraeg o ail hanner y bymthegfed ganrif ymlaen, o leiaf.³

Y cwestiwn sy'n codi, wrth gwrs – cwestiwn dyrys yn wyneb diffyg tystiolaeth bendant – yw sut y cyrhaeddodd y fformwla benillion Dafydd William a Hywel Gruffydd. Fe allai fod wedi eu cyrraedd trwy ffynonellau (llafar neu lyfr) a oedd yn cylchredeg yn y Gymraeg yn ystod y ddeunawfed ganrif a blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond nad ydynt wedi goroesi (neu nad wyf wedi llwyddo i ddod ar eu traws hyd yma). Er enghraifft, mae'n hysbys fod Dafydd William yn gyfarwydd â pheth o'r canu rhydd cynnar.⁴ Ar y llaw arall, o gofio pa mor eang fu dosbarthiad y fformwla yn rhyngwladol, fe allai fod wedi cyrraedd yr emynau hyn, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, trwy amryw byd o ffynonellau mewn amryw byd o ieithoedd.

Mae ardal Beddgelert – ardal Hywel Gruffydd – yn enghraifft dda o'r croesffrwythloni diwylliannol amlweddol a fu yng Nghymru ar draws y canrifoedd. Diddorol gweld, er enghraifft, yn y bymthegfed ganrif fod un o feirdd mawr yr ardal, Dafydd Nanmor (*fl.* 1450–90), yn medru Saesneg a Lladin.⁵ Ac fel y bu Beddgelert yn gyrchfan pererinion i'w briordy Awstinaidd yn yr Oesoedd Canol, felly y tyfodd yr ardal honno, yn niwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn gyrchfan i aelodau o haenau uwch y gymdeithas Seisnig a fethai fynd ar y Daith Fawr (y *Grand Tour*) i'r Cyfandir oherwydd y rhyfela mawr yno. Ar gyfer y twristiaid hynny y datblygwyd Chwedl Gelert;⁶ o 'bentref tawel' Beddgelert yr aeth William Wordsworth un noswaith yn haf 1791, yng nghwmni ei gyd-fyfyriwr a'i gyfaill agos, Robert Jones, Llangynhafal, i ddringo i ben yr Wyddfa i weld y wawr yn torri;⁷ a bu'r bardd Shelley yn byw yng nghyffiniau'r Traeth Mawr am gyfnodau yn 1812 ac 1813 yn cefnogi prosiect W. A. Madocks i greu patrwm o'r bywyd diwylliedig gwâr ar ei stad ym Mhenmorfa, gan gynnwys codi Tremadog, a'i theatr a'i lyfrgell a'i neuadd ddawnsio. 'Wrth osod dorau i gau yn erbyn llanw'r môr, fe agorodd Maddocks [*sic*] led y pen i Seisnigrwydd,' yw dyfarniad Gruffudd Parry ar waith William Madocks yn codi morglawdd ar draws y Traeth Mawr.⁸ Ac nid twristiaid yn unig a ddeuai i'r ardal. Denai Beddgelert lawer o Loegr, Iwerddon a'r Alban ar gyfer y gwaith copr llewyrchus a oedd yn yr ardal, heb sôn am y bobl a ddeuai o bell ac agos i fod yn llygaid-dystion i'r diwygiad ysbrydol grymus a dorrodd allan yno yn 1817.⁹ Yn wir, wrth sôn am ymateb rhai ymwelwyr i Ddiwygiad Beddgelert, gallai John Jones, Glan Gwynant, ddweud am y lle: 'Gwybydder fod Bedd Gelert yn lle ag y bydd llawer o ddieithraid o foneddigion yn dyfod yno o bell, yn yr haf, i weled mynyddoedd yr Eryri.'¹⁰

Yn ogystal ag ymwelwyr a mewnfudwyr, rhaid cofio hefyd am y brodorion hynny a fyddai'n crwydro o ardal Beddgelert, gan gludo dylanwadau yn ôl gyda hwy. Enghraifft dda o hynny yw David Williams (1785–1849) o'r Perthi Llwydion, tua chwarter milltir o bentref Beddgelert. Fe'i ganed yn ail fab i William Williams, Hafod-y-rhisgl, Nant Gwynant, un o flaenoriaid y Methodistiaid Calfinaidd ym Meddgelert adeg Diwygiad 1817. Bu'r bardd gwlad, Hywel Gruffydd, yn gweini ar fferm William Williams am gyfnod, ac yn ei farwnad i William Williams y cyhoeddodd Hywel Gruffydd ei bennill am y môr yn inc a'r nefoedd yn bapur am y tro cyntaf, yn 1826.¹¹ Porthmon oedd David Williams wrth ei alwedigaeth. Gyrrai gannoedd o wartheg bob blwyddyn i lawr i swydd Gaint yn ne-ddwyrain Lloegr, a dywed un a fu'n cydborthmona ag ef:

Yr wyf yn meddwl nad oedd ond ychydig iawn o amaethwyr yn byw yn unrhyw ran o sir Gaernarfon nad adwaenent ef, ac agos yr oll o amaethwyr Meirion; hefyd gallaf sicrhau nad oedd ond ychydig iawn o amaethwyr o fewn cylch o ugain milltir oddiamgylch i dref Maidstone, Kent, nad oeddynt yn adnabyddus ag ef.¹²

Pan fyddai yng nghyffiniau Llundain, byddai David Williams bob amser yn bwrw'r Sul yng nghapel Jewin, capel y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig; 'ac yr ydoedd agos mor gartrefol yng nghapel Jewin Crescent ag ydoedd yng nghapel Beddgelert, – pawb yno yn ei adnabod.'¹³ Ond yn ddiddorol iawn, pan fyddai yn Ashford yn swydd Gaint, i gapel y Morafiaid yr âi. Dichon fod hynny i'w briodoli i un o'r dylanwadau rhyngwladol eraill ar gylch Beddgelert yn y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ar bymtheg, oherwydd yno y cafwyd un o'r ychydig genadaethau yng Nghymru gan y Morafiaid, y mudiad efengylaidd a darddodd yng nghanolbarth Ewrop ac a fu'n ddylanwad pwysig ar arweinwyr crefyddol amlwg megis John Wesley a Howel Harris.¹⁴

Dengys hyn oll fel y gallai'r topos am y môr yn inc a'r byd (neu'r ffurfafen) yn bapur fod wedi dod i Gymru, ac i emynyddiaeth Gymraeg, trwy sianelau o bob math. Dadleuwyd yn nhrydedd erthygl y gyfres bresennol (yn *Canu Gwerin*, rhif 27), mai dau o'r llwybrau tebycaf ar gyfer hynny fyddai trwy gysylltiadau Cymreig â llenyddiaeth India ac ag ysgrifeniadau Iddewig. Ond y gwir yw nad oes rhaid crwydro'n bell iawn i ddod o hyd i'r ffynhonnell debycaf un – dim ond camu dros Glawdd Offa.

Mae'r enghraifft gynharaf o'r fformwla sydd wedi goroesi yn y Saesneg i'w chanfod mewn cerdd wrth-fenywaidd o hanner cyntaf y bymthegfed ganrif. Mae honno'n datgan, pe bai'r ddaear yn bapur, y cefnfor yn inc, pob brigyn yn bin a phob dyn yn ysgrifydd, na ellid hyd yn oed wedyn fynegi brad merch.¹⁵ Fel y pwysleisiwyd eisoes yn y gyfres hon o erthyglau, y tebygrwydd yw mai ysgrifeniadau'r Iddewon a gludodd y fformwla am y môr yn inc a'r byd (neu'r ffurfafen) yn bapur o India trwy'r Dwyrain Canol i Ewrop, ac mai hwy hefyd a fu'n bennaf cyfrifol wedyn am ei lledaenu i lenyddiaethau Ewrop yr Oesoedd Canol. Er bod rhai enghreifftiau o'r fformwla i'w gweld mewn llawysgrifau Lladin a fu'n cylchredeg ym Mhrydain o'r ddeuddegfed ganrif ymlaen, nid yw'n ymddangos mewn llenyddiaeth Saesneg tan y bymthegfed ganrif. Ys dywed Andrew Breeze: 'It is interesting that this ancient Oriental figure, having long entered the Latin learning of medieval Europe and the vernaculars of France, Spain, and Germany, should appear at about the same time in the poetry of late medieval England, Wales, and Scotland.'¹⁶ Ac un rheswm a awgrymir am yr ymddangosiad cymharol hwyr hwn yw oherwydd y diffyg presenoldeb Iddewig cyn hynny, am fod y brenin Edward I wedi gyrru'r Iddewon allan o Loegr yn 1290 – y gyntaf o nifer o wledydd Ewropeaidd i wneud hynny yn yr Oesoedd Canol diweddar.

Ni bu cymunedau Iddewig o unrhyw faint yng Nghymru a'r Alban tan y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ar bymtheg;¹⁷ ond gwahanol fu'r sefyllfa yn Lloegr, a de Lloegr yn enwedig. Yn y cyfnod rhwng y Goresgyniad Normanaidd yn yr unfed ganrif ar ddeg ac adeg trechu Llywelyn y Llyw Olaf gan Edward I yn niwedd y drydedd ganrif ar ddeg, fe gafwyd yn Lloegr nifer o gymunedau Iddewig, a rhai ohonynt yn ddigon llewyrchus a dylanwadol ar adegau. Ond yn 1290, ar ôl cyfnod o gyfyngu llym ar eu galwedigaethau a'u gweithgareddau, penderfynodd Edward yrru'r Iddewon o'r wlad;¹⁸ ac am y tri chant a hanner o flynyddoedd nesaf, hanes unigolion a grwpiau bychain cudd yw hanes yr Iddewon yn Lloegr, nes i Oliver Cromwell gydsynio i adael iddynt ddychwelyd, yn 'answyddogol', yng nghanol yr 1650au.¹⁹ O ganol yr ail ganrif ar bymtheg ymlaen, felly, gwelwn gymunedau Iddewig yn dechrau datblygu o'r newydd yn Lloegr, ac un o'r arwyddion cyntaf o hynny oedd agor synagog yn nwyrain Llundain yn 1656 – er bod addoli cudd cyn hynny, yn enwedig yn Llundain a Bryste, o tua 1540 ymlaen, yn sgil dyfodiad nifer o fasnachwyr o Sbaen a Phortiwgal.

Masnachwyr a ffoaduriaid oedd llawer o'r Iddewon a ddaeth i Brydain rhwng

1290 a 1655, ond mae'n bwysig cofio bod nifer o ysgolheigion yn eu plith hefyd, yn enwedig yn sgil y diddordeb newydd yn yr Hebraeg a chyfieithu'r Beibl adeg y Dadeni Dysg a'r Diwygiad Protestannaidd.²⁰ Yn wir, bu twf Protestaniaeth, a thwf Piwritaniaeth yn enwedig, yn elfen allweddol yn y twf mewn ffïlo-Semitiaeth a welwyd yn y cyfnod hwnnw, twf a baratôdd y ffordd ar gyfer dychweliad yr Iddewon i Loegr dan Cromwell. Un ffactor bwysig yn hyn oedd y gred filenaraidd mai rhai o'r camau a fyddai'n arwain at ailddyfodiad Crist oedd y byddai'r Iddewon yn treiddio i bob rhan o'r byd ac yn troi at Grist.²¹ Fel y gweddiodd Morgan Llwyd yn un o'i gerddi: 'Difetha Anghrist ymhob gwlad / tro attad yr Iddewon.'²²

Cyfeiriwyd yn barod fwy nag unwaith yn y gyfres hon o erthyglau at yr 'Akdamut', y gerdd gyfriniol a luniwyd yn wreiddiol mewn Aramaeg yn yr Almaen yn yr unfed ganrif ar ddeg ac sy'n parhau i gael ei hadrodd hyd heddiw yn y synagog ar ddiwrnod cyntaf Shavuot (Gŵyl yr Wythnosau). Tua dechrau'r gerdd defnyddir y fformwla am y môr yn inc a'r ffurfafen yn bapur, a dyna, efallai, yr enghraifft enwocaf a mwyaf dylanwadol o ddefnyddio'r fformwla honno mewn cerdd.²³ Erbyn teyrnasiad Siarl I yn hanner cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg, daethai hwiangerdd yn boblogaidd yn y Saesneg, mae ei phennill cyntaf o bosibl yn barodi ar yr 'Akdamut' (er mai'r ffurfafen ac nid y byd yw'r papur yn 'Akdamut' ei hun). Mae hynny, fe ddichon, yn arwydd fod yr 'Akdamut' a'i hieithwedd wedi dod yn gyfarwydd yn y diwylliant Saesneg erbyn hynny, a hynny mae'n siŵr yn sgil y twf graddol yn nifer yr Iddewon (cudd ac fel arall) yn Lloegr o tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, ynghyd â'r diddordeb cynyddol a welwyd ynddynt hwy a'u diwylliant yn yr un cyfnod. Dyma bennill cyntaf yr hwiangerdd honno:

If all the world were paper,
And all the sea were ink,
If all the trees were bread and cheese
What should we have to drink?

Cyhoeddwyd y gerdd am y tro cyntaf, yn chwe phennill ffwlbri, yn 1641, a bu ei phennill cyntaf yn boblogaidd fel hwiangerdd i lawr trwy'r canrifoedd wedyn, weithiau â'r llinell agoriadol 'If all the world was apple-pie'. Mor ddiweddar â diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dywedir bod pobl mewn rhai ardaloedd gwledig yn Lloegr yn gosod hances dros eu bys a'u bawd er mwyn creu siâp offeiriad yn ei wenwisg, ac yna yn adrodd y geiriau:

If all the food were paving-stones,
And all the seas were ink,
What should we poor mortals do
For victuals and for drink?

It's enough to make a man like me,
Scratch his head and think.²⁴

Fel y soniwyd yn nhrydedd erthygl y gyfres hon (yn *Canu Gwerin*, rhif 27), erbyn ail hanner y ddeunawfed ganrif yr oedd pennill o emyn mewn cylchrediad ar lafar yn Saesneg y mae ei bedair llinell gyntaf fel petai'n seiliedig ar y fformwla sydd yn yr 'Akdmut' (ond eto gyda'r byd ac nid y ffurfafen yn bapur). Dyma'r pennill:

Could we with ink the ocean fill,
Was the whole earth of parchment made,
Was every single stick a quill,
Was every man a scribe by trade:
To write the love of *God* alone,
Would drain the ocean dry;
Nor would the scroll contain the whole,
Tho' stretch'd from sky to sky.²⁵

Fe'i priodolir weithiau – ar gam, mae'n debyg – i'r emynydd mawr Saesneg, Isaac Watts (1674–1748);²⁶ ond yr hyn a ddywedir am ei darddiad, yn amlach na pheidio, yw ei fod wedi'i lunio gan ddyn a oedd bron yn ynyfytyn a oedd yn byw yng Nghaergeri (Cirencester) yn 1779.²⁷ Yn nechrau'r ugeinfed ganrif, fe glywodd Frederick M. Lehman (1868–1953) – Almaenwr a ymfudodd i'r Unol Daleithiau pan oedd yn bedair blwydd oed – y pennill yn cael ei ddyfynnu ar ddiwedd pregeth efengylu. Gwnaeth argraff ddofn arno, ac yn 1917 lluniodd ddau bennill arall i'w ragflaenu a llunio hefyd gerddoriaeth ar ei gyfer.²⁸ Daeth yr emyn tri-phennill hwn – 'The Love of God is greater far / Than tongue or pen can ever tell ...', yn boblogaidd iawn mewn cylchoedd efengylaidd yn America yn ystod yr ugeinfed ganrif; ac fe ddaeth yn boblogaidd ym Mhrydain hefyd, yn enwedig yn sgil cenadaethau Billy Graham yn yr 1950au.

Mae'n bosibl iawn fod y pennill Saesneg 'Could we with ink the ocean fill, / Was the whole earth of parchment made' wedi cyrraedd Cymru cyn diwedd y

ddeunawfed ganrif. Fe'i cyhoeddwyd, er enghraifft, yn *The Evangelical Magazine* yn 1793, cylchgrawn a gâi dipyn o gefnogaeth gan arweinwyr crefyddol Cymreig. Fel mae'n digwydd, mae gennym dystiolaeth bendant fod y pennill yn cylchredeg yn Saesneg ymhlith Methodistiaid Calfinaidd gogledd Cymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg am i rywun ysgrifennu'r pennill ym mis Mawrth 1862 yn albwm un Lizzie Rowlands, aelod o deulu o Fethodistiaid o sir Feirionnydd.²⁹ Nid yw'r pennill a gyhoeddodd Dafydd William, Llandeilo Fach, tua 1786, 'Pe byddai'r moroedd mawrion / Yn inc o'r dua'i liw', yn gyfieithiad o'r pennill Saesneg, ond fe allai'n rhwydd fod wedi'i ysbrydoli ganddo, yn enwedig o gofio iddo gael ei lunio tua'r un adeg ag yr oedd y pennill Saesneg yn dod i amlygrwydd. Ond fe gafwyd fersiwn Cymraeg o'r pennill Saesneg, a hynny'n ddiddorol iawn gan Hopcyn Bevan (1765–1839), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llangyfelach, ond un a fu'n aelod yn y Gopa Fach, Pontarddulais (lle bu Dafydd William, Llandeilo Fach, yn aelod cyn iddo symud i Fro Morgannwg yn yr 1770au). Yr oedd Hopcyn Bevan hefyd yn gyfeillgar ag Israel, mab Dafydd William.³⁰ Cyhoeddwyd addasiad Hopcyn Bevan mewn llyfryn o'i emynau ef ac eraill, *Hymnau a Phennillion*, a ymddangosodd o wasg y gweinidog Annibynnol, Evan Griffiths ('Ieuan Ebbilig'; 1795–1873), yn Abertawe yn 1837:

Pe inc a fyddai'r moroedd
A'r wybr fry fel llen
O femrwn i sgrifennu
Am gariad ar y pren:
Holl laswellt man y ddaear
Yn esgyll sgrifenlaw
A'r dwylaw i'w defnyddio
Fu, sydd, ac eto a ddaw:

Cyn cyrraedd i berffeithrwydd
Helaethrwydd cariad Duw,
Rhy brin a fyddai'r memrwn
A'r holl sgrifenwyr gwiw;
Er maint trysorau'r moroedd
A'r dyfroedd rannodd Ef,
Nol tynnu'n sych y tonnau
Mwy fyddai'i gariad Ef.³¹

Er y dywedir bod pedair llinell cyntaf pennill yr ‘ynfyty’n’ o Gaergeri yn seiliedig ar yr ‘Akdamut’ maent mewn gwirionedd, er eu bod ar fesur gwahanol, yn cyfateb yn agos iawn i linellau ym mhennill olaf cân a ddaeth yn boblogaidd iawn yn theatrau a gerddi pleser Llundain o ganol yr 1740au ymlaen. Cyhoeddwyd y gân am y tro cyntaf, mae’n debyg, yn *The London Magazine* ym mis Awst 1746 dan y teitl ‘The Precaution, moderniz’d from Chaucer, and sung by Mr. Lowe, at Vaux-Hall’:

From sweet, bewitching tricks of love,
 Young men, your hearts secure;
Lest from the paths of sense you rove,
 In dotage premature:
Look at each lass thro’ wisdom’s glass,
 Nor trust the naked eye;
Gallants! beware, look sharp, take care,
 The blind eat many a fly.

Not only on their hands and necks,
 The borrow’d white you’ll find,
Some belles, where interest directs,
 Can even paint the mind:
Joy in distress they can express,
 Their very tears will lie;
Gallants! beware, &c.

There’s not a spinster in the realm,
 But all mankind can cheat;
Down to the cottage, from the helm,
 The learn’d, the brave, and great
With lovely looks, and golden hooks,
 T’ entangle us they try:
Gallants! beware, &c.

Could we with ink the ocean fill,
 Was earth of parchment made,
Was ev’ry single stick a quill,
 Each man a scribe by trade;

To write the tricks of half the sex
 Would drain that ocean dry:
 Gallants! beware, &c.



Spring Gardens o'r *Illustrated*
London News, 1860

Y Mr. Lowe a ganodd y gân yn y Spring Gardens yn Vauxhall, Llundain oedd y tenor, Thomas Lowe (c.1719–1783). Ef yn 1740 a roddodd y perfformiad cyntaf o'r gân 'Rule, Britannia'. Thomas Arne (1710–78) a gyfansoddodd y gerddoriaeth ar gyfer 'Rule Britannia', ac ef hefyd a luniodd y gerddoriaeth ar gyfer 'The Precaution'. Awdur geiriau 'The Precaution' oedd Christopher Smart (1722–71), bardd Saesneg poblogaidd a chynhyrchol iawn. Yr oedd yn enedigol o ardal Maidstone yn swydd Gaint, ond yr oedd ei fam, Winifred Griffiths, yn dod o sir Faesyfed. Ymddangosodd y gân 'The Precaution' droeon lawer mewn casgliadau o ganeuon poblogaidd yn ystod y ddeunawfed ganrif ac wedyn, a chafwyd o leiaf bedwar addasiad ohoni yn ei hateb o safbwynt y ferch. Roedd 'The Precaution' yn un o gyfres o ganeuon a luniodd Smart yn seiliedig ar eiriau gan Geoffrey Chaucer (c.1340–1400). Mae'n seiliedig ar 'Look well about, ye that lovers be', y gerdd wrth-fenywaidd o hanner cyntaf y bymthegfed ganrif y cyfeiriwyd ati uchod, sy'n cynnwys yr enghraifft gynharaf sydd ar glawr yn Saesneg o fformwla y môr yn inc a'r byd yn bapur, oherwydd er y priodolir y gerdd honno fynychaf i John Lydgate (c.1370–1449/50?), y gred pan luniwyd cân Smart oedd mai Chaucer oedd ei hawdur.³² Fe dreuliodd Christopher Smart beth amser mewn seilam, a chynhyrchodd lawer o farddoniaeth grefyddol mewn cywair emynyddol cyn diwedd ei oes, ond ni welais briodoli iddo'r pennill emyn, 'Could we with ink the ocean fill, / Was the whole earth of parchment made'; ond mae'r pennill hwnnw a'i gân 'The Precaution' yn enghraifft dda o'r croesi ffiniau rhwng y 'seciwlwr' a'r 'sanctaid' sy'n digwydd mor aml ym myd cerdd a chân ar draws y canrifoedd.³³

Er nad yw pennill Dafydd William, ‘Pe byddai’r moroedd mawrion / Yn inc o’r dua’i liw’, yn gyfieithiad o’r pennill emyn Saesneg (nac o gân Christopher Smart, ‘The Precaution’, ychwaith), o gofio eu poblogrwydd yn ystod y ddeunawfed ganrif anodd credu nad hwy, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, oedd yr ysbrydoliaeth y tu cefn i lunio’r pennill Cymraeg. Ac anodd credu hefyd nad ffynhonnell Saesneg sydd y tu cefn i bennill Hywel Gruffydd, ‘Pe byddai gwellt y ddae’r yn binnau, / A’r môr yn inc o’r dua’ ei liw’, yn enwedig gan i gyfieithiadau Cymraeg o gerdd Saesneg sy’n cynnwys fformwla y môr yn inc a’r byd yn bapur ymddangos mewn print, mewn cylchgrawn a gylchredai ymhlith y Methodistiaid Calфинаidd, ychydig flynyddoedd cyn cyhoeddi pennill Hywel Gruffydd yn 1826.

Peth digon cyffredin yng nghylchgronau Cymraeg hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw gweld ceisiadau am gyfieithiadau o gerddi Saesneg. Cais felly a anfonwyd i rifyn mis Mai 1822 o *Goleuad Cymru*, cylchgrawn a gyhoeddwyd yng Nghaer gan y gweinidog amlwg gyda’r Methodistiaid Calфинаidd, John Parry (1775–1846). Yn y rhifyn hwnnw (tt. 424–5), gwelir llythyr gan un yn ei alw ei hun yn ‘Flintensis’ at ‘Feirddion enwog Cymru’, yn eu cymell i droi eu llaw at gyfieithu cerdd Saesneg. Dyma destun y gerdd Saesneg honno fel y’i ceir yn *Goleuad Cymru*:

LOVE OF GOD.

Could oceans, rivers, springs, and lakes,
All that the name of water takes,
Beneath th’ expanded skies,
Be turn’d to ink of blackest hue;
And all the drops of falling dew;
To make the wonder rise:

A book so large could we suppose,
Which thinnest paper could compose,
As the whole earthly ball:
Was ev’ry shrub, and ev’ry tree,
And ev’ry blade of grass we see
A pen to write withal:

Were all that ever liv'd on earth,
Since nature first receiv'd her birth,
The aptest scribes to place:
In clearest light that wond'rous love,
Found in the heart of God above,
To Adam's sinful race.

Were each Methuselah in age,³⁴
And ev'ry moment wrote a page
They'd all be tir'd and die:
The pens would ev'ry one wear out,
The book be fill'd within, without:
The ink be drain'd all dry:

And then to tell his love, O then!
Angels above, as well as men;
Archangels ev'n would fail!
Nay, till eternity shall end,
A blest eternity we'll spend,
Nor then have told the tale!

Yr unig dro arall imi weld y gerdd Saesneg hon mewn print yw yn *The Christian's Magazine*, cyfrol 1:3 (Mawrth 1790). Fe'i cyhoeddwyd yno yn ddienw dan y pennawd 'A Poetic Thought on the Love of God' (t. 125). Golygydd y cylchgrawn oedd Timothy Priestley (1734–1814), gweinidog eglwys Annibynol Saesneg Jewin Street, Llundain, a brawd yr enwog Joseph Priestley; ond yn wahanol i'w frawd, yr oedd argyhoeddiadau crefyddol Timothy yn rhai efengylaidd a Chalfinaidd, ac yr oedd ganddo gysylltiadau ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig, gan gynnwys Thomas Charles o'r Bala.³⁵

Ymatebodd tri bardd i'r her ar dudalennau *Goleuad Cymru*. Yn rhifyn Mehefin 1822 (t. 452), cafwyd cyfieithiad gan 'I.E. Môn', sef pregethwr mawr y Methodistiaid Calfinaidd, John Elias (1774–1841). Er ein bod yn meddwl amdano fel pregethwr uwchlaw popeth arall, fe luniodd rai cerddi, gan gynnwys yr emyn adnabyddus 'Ai am fy meiau i'.³⁶ Dyma ei gyfieithiad ef o'r gerdd Saesneg:

AM GARIAD DUW.

Pe troid afonydd daear lawr,
Ffynnonau, llynau, moroedd mawr,
Tan y ffurfafen faith,
Yn ingc o'r dua' ei liw, a'i lun,
'Chwanegu gwlith y nef bob un,
I roi mwy rhyfedd iaith:

Pe tybiem lyfr mor fawr ynghyd
O bapur teneu oll i gyd
Ag ydyw y byd yn grwn;
A phob blaguryn, a phob pren,
A phob glaswelltyn îs y nen,
'N bin i 'sgrifenu hwn:

A phawb fu yn byw o dan y rhôd
Er pan y cafodd natur fod;
I ysgrifenu yn un,
Mewn goleu llawn, am gariad rhâd
Ynghalon Duw gorucha' a ga'd
At bechadurus ddyn:

Pe oes Methusalem gaent i fyw,
Pob moment llenwi dalen wiw,
Nes blino a marw ynghyd;
Y pinau wedi treulio a gawn
O fewn ac allan llyfr yn llawn,
A'r Ingc yn sych i gyd:

Ac yno i draethu ei gariad cun,
Angylion fry'r un modd a dyn,
Archangel, methai ei ddawn
Ni wnaent i drag'wyddoldeb pell
Er iawn ddefnyddio eu gwynfyd gwell,
Fynegi hyn yn llawn.³⁷

Nid yw'n gyfieithiad gwyh, ond mae'n rhagori rywfaint ar y ddwy ymgais arall
a gafwyd ar dudalennau *Goleuad Cymru*, ill dwy yn rhifyn Awst 1822 (t. 499).

Mae'r naill gan Iago Trichrug (James Hughes; 1779–1844), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yn Llundain ac awdur yr emyn 'Cydduned Seion lân'.³⁸ Dyma ei gyfieithiad ef:

CARIAD DUW.

Pe'r holl ffynnonydd dyfnion iawn,
Afonydd, moroedd, llynoedd llawn,

Holl ddafnau gwlith y wawr;
A droid yn inc o'r dŷa'i liw,
I ysgrifenu fel mae gwiw:
Y mwyn ryfeddod mawr:

A phe caid llyfr gyda hyn,
O'r glân deneuaf bapur gwyn
O faint yr anferth fyd;
A chael y coedydd manwydd mwy,
A phob glaswelltyn gyda hwy,
Yn ysgrifellau i gyd:

Pe byddai pawb o ddechreu'r byd,
Yn ysgrifenwyr call i gyd,
Yn gyflym, hwylus oll;
I osod mewn egluraf wedd,
Ryfeddol gariad Duw a'i hedd,
At ddyn syrthiedig, coll:

Pe oed Methusalem a gaent,
Pe llenwi dalen faith a wnaent,
Bob eiliad dyfal iawn;
Treulient eu dyddiau yn y byd,
Yr inc, a'r ysgrifellau i gyd,
A'r llyfr a fyddai'n llawn:

Ac yna, traethu Cariad Duw,
Yna, nid allai dynol ryw,
Nac Archangelion nef!
Ië, treuliwn drag'wyddoldeb maith
I'w adrodd, hyfryd fydd y gwaith,
Heb byth ei adrodd ef!

Yr ymgais arall oedd un gan Don Glan Towy o 'A-b-r-s-t-th' (sef Aberystwyth). Argraffydd oedd ef, nid gweinidog. John A. Williams oedd ei enw. Brodor o Gaerfyrddin ydoedd, ond yn amlwg yr oedd yn Aberystwyth yn ystod haf 1822, efallai er mwyn cynorthwyo ei chwaer yng nghyfraith, Esther Williams, i redeg y wasg argraffu yr oedd hi wedi'i hetifeddu yn dilyn marwolaeth sydyn ei gŵr, Samuel, ym mis Tachwedd 1820. Symudodd J. A. Williams i weithio yng ngwasg Joseph Harris 'Gomer' yn Abertawe yn ystod haf 1823, gan fynd yn berchennog y wasg ar ôl marw Gomer yn Awst 1825. Aeth yn fethdalwr yn 1830 ac ymfudo i America, ac fe brynwyd ei fusnes argraffu yn Abertawe gan Evan Griffiths 'Ieuan Ebbllig'.³⁹ Dyma gyfieithiad Don Glan Towy:

Pe gellid troi dyfrodd, aberodd y byd,
Y morodd, y llynodd, a'r gwyodd i gyd,
O dan y ffurfafen faith fan;⁴⁰
Yn nghyd a phob gwlybwr y gwlaw ac y gwlith
Yn Ddu⁴¹ oc y gwyllaf a'r harddaf ei rith
Er codi d y syndod i'r lan:

A llyfr neu gyfrol anfeidrol o fawr,
Llawn dail o'r teneuaf a gwynaf eu gwawr,
F'ai gymmaint a'r ddaear fawr gun;
A phob rhyw brysgwydden, pob brigyn, pob pren,
A phob rhyw eginyn sy'n tyfu dan nen,
Yn binau ysgrifaw bob un:

Pe b'ai'r holl gre'duriaid a fu dan y rhod,
Er pan y cymmerodd naturiaeth ei bod,
Yn ysgrifenyddion bob mil;⁴²
Er dangos mewn golau y cariad neu'r serch,
Tarddedig yn nghalon y dwyfol Dduw derch,⁴³
At Adda syrthiedig a'i hil:

A'r rhai'n wrth gael einioes Methus'lah i fyw,
Ysgrifaw tu dalen bob munyd yn syw,
A flinent, a farwent dan feth;
Fe dreulid y pinau – eu lluniau ai'n llaes,
Fe lenwid y llyfr o fewn ac o faes,
Fe sychid y Du o bob teth:

Ac yna i ddatgan ei Gariad, O gyd!
Holl engyl y nefoedd a dynion y byd,
Archengyl a fethent, a saint;
Ie hefyd pe byddent hwy byth wrth y dasg,
A threuliaw byth hefyd o wynfyd di-wasg,
Hwy ffaelent fynegi ei faint!

Prin fod yn rhaid ychwanegu bod Don Glan Towy yn well argraffydd nag ydoedd o fardd – er iddo fethu yn y gorchwyl hwnnw hefyd maes o law!

Fe gafwyd un ymgais arall i addasu'r gerdd Saesneg i'r Gymraeg, a hynny nid yn *Goleuad Cymru* ond yn *Y Gwyliedydd*, cylchgrawn yr 'Hen Bersoniaid Llengar', ymhen rhai blynyddoedd wedyn, yn rhifyn Gorffennaf 1828 (t. 220). Y cyfieithydd oedd y clerigwr, John Jones ('Tegid'; 1792–1852), brodor o'r Bala a oedd adeg cyhoeddi'r gerdd yn offeiriad yn Rhydychen. Roedd yn Gymro brwd ac yn ysgolhaig Hebraeg da. Cynorthwyodd Charlotte Guest i gyfieithu'r Mabinogion i'r Saesneg. Fe'i trwythwyd yn nhraddodiad barddol cylch y Bala, ac er nad oedd yn fardd o'r radd flaenaf, bu'n athro barddol, a daeth ei gerdd 'Ymweliad y Bardd [â'r Bala]' yn boblogaidd ar y taflenni baledi.⁴⁴ Talfyriad o'r gerdd Saesneg wreiddiol sydd gan Tegid, ac mae'n rhagori cryn dipyn ar y tair ymgais arall i'w throsi i'r Gymraeg:

AM GARIAD DUW.

Pe ba'i'r moroedd, a'r afonydd,
A'r ffynonydd o bob rhyw,
Gyd â'r llynoedd, gwlaw, a'r gwllithoedd,
Oll yn inc o dduaf liw;
Pe caed llyfyr maint y ddaear,
Llawn dalenau gwynion mawr;
Pe caed pinau ysgrifennu
O rifedi gwellt y llawr:

Pe ba'i pawb o feibion Adda
A fu ar y ddaear las,
Yn ysgrifenu ynddo'n fedrus
Am faint cariad Duw a'i ras;

Pe caent oll mewn llawn tawelwch
Oes Methusalem i fyw,
Pe pob moment llenwid dalen
Ganddynt bawb am gariad Duw:

Blinai'r llaw, darfyddai'r papur,
Y dalenau aent yn friw,
Hyspyddai'r inc cyn gellid olrhain
Anfeidroldeb gariad Duw;
Trwy holl oesoedd trag'wyddoldeb,
Nid all holl angelion nef,
Mwy no dyn er maint eu doniau,
Gael pen draw ei gariad Ef.^{xiv}

Felly, er i'r astudiaeth hon ddangos, gobeithio, pa mor rhyngwladol fu'r bywyd diwylliannol a llenyddol Cymraeg ar draws y canrifoedd, y tebyg yn y diwedd yw mai mewnudwr Saesneg oedd y fformwla am y môr yn inc a'r byd (neu'r ffurfafen) yn bapur yn ein hemynau llafar gwlad – ond yn fewnfudwr a ddysgodd y Gymraeg ac a ymgartrefodd yn llwyr yn ein plith.

NODIADAU

¹ Cyhoeddwyd y tair erthygl flaenorol ar y pwnc yn *Canu Gwerin*, 25 (2002), 48–58; 26 (2003), 46–57; a 27 (2004), 34–47.

² Wedi dweud hynny, ceir adlais o'r fformwla mewn cerdd yn *The Oxford Book of Modern Verse 1892–1935*, gol. W. B. Yeats (Rhydychen, 1936). Cerdd gan Walter de la Mare (1873–1956) ydyw, yn dwyn y teitl 'The Scribe' (rhif 145). (Rwy'n ddolchgar i'r Athro R. Geraint Gruffydd am y cyfeiriad hwn.)

³ At y cyfeiriadau yn nodyn 10 yn f'erthygl yn *Canu Gwerin*, 26 (2003), gellir ychwanegu i'r gerdd 'Helfa Hawdd ei Hepgor' gael ei chyhoeddi gan D. Silvan Evans yn yr adran 'Gweddillion Llenyddol' yn *Y Geninen*, 5 (1887), 200–4.

⁴ E. Wyn James, 'Dafydd William, Llandeilo Fach', *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr*, 2001, 61–2; idem, 'Dafydd William, Llandeilo Fach: An Eighteenth-Century Glamorgan Hymn-writer', *Morgannwg*, 47 (2003), 17–20.

⁵ Owen Thomas, 'Awdl Dafydd Nanmor i Rys ap Maredudd o'r Tywyn (*PWDN* cerdd III)', *Dwned*, 12 (2006), 82–3, 90. Gw. hefyd nodyn 20 yn f'erthygl yn *Canu Gwerin*, 26 (2003).

⁶ Ar ddatblygiad y chwedl, gw. Graham C. G. Thomas, 'Beddgelert: Y Chwedl Wreiddiol', *Llên Cymru*, 17:1–2 (1992), 5–10; gw. hefyd y drafodaeth ar y faled 'Gelert, Ci Llywelyn' yn E. Wyn James, 'Watching the White Wheat and That Hole Below the Nose: The English Ballads of a Late-Nineteenth-Century Welsh Jobbing-Printer' yn *Bridging the Cultural Divide: Our Common Ballad Heritage*, gol. Sigrid Rieuwerts & Helga Stein (Hildesheim, Yr Almaen, 2000), tt. 187–8. (Ceir fersiwn electronig o'r erthygl hon ar Wefan Baledi Cymru.) Ffynhonnell bwysig o wybodaeth am ardal Beddgelert yw D. E. Jenkins, *Bedd Gelert: Its Facts, Fairies, & Folk-Lore* (Porthmadog, 1899).

⁷ Ar y clerigwr Robert Jones (1769–1835), Plas-yn-llan, Llangynhafal, a'i gyfeillgarwch â Wordsworth, gw. D. Myrddin Lloyd, 'Wordsworth and Wales', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 6:4 (Gaeaf 1950), 338–52.

⁸ Gruffudd Parry, *Crwydro Llŷn ac Eifionydd* (Llandybie, 1960), t. 30.

⁹ Gw. Eryl Davies, *The Beddgelert Revival* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2004), tt. 36–7, 141–3. Ceir hanesyn am 'foneddwr o ganol Lloegr' yn dod yn unsydd i weld a chlywed Diwygiad Beddgelert yn Griffith Parry, *Cofiant a Chasgliad o Weithiau Barddonol y Parch. Robert Owen* (Eryron Gwyllt Walia.) *Llundain* (Manceinion, 1880), t. 21. Ar Ddiwygiad Beddgelert, gw. yn ogystal 'Diwygiadau Beddgelert', *Y Llenor* (O.M.E.), 1 (Ionawr 1895), 21–50; Henry Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru* (Caernarfon, [1906]), tt. 249–301.

¹⁰ John Jones, 'Ychydig o hanes y Diwygiad, neu Adfywiad ar Grefydd yn mhlith y Trefnyddion Calfaidd yn Medd Gelert, yn swydd Gaernarfon, a ddechreuodd yn y flwyddyn 1817', *Goleuad Cymru*, cyf. 3, rhif 51 (Ionawr 1823), 7–8.

¹¹ Ceir peth o hanes William Williams yn yr adran 'Ardal Beddgelert' yn William Hopley, *Hanes Methodistiaeth Arfon: [Cyfrol 2] Dosbarth Caernarvon, Ardaloedd Waenfawr a Beddgelert* (Cyfarfod Misol Arfon, 1913).

¹² David Thomas, 'David Williams Perthi Llwydion', *Cymru*, 14 (1898), 223.

¹³ *Ibid.* 224.

¹⁴ Gw., yn enwedig, R. T. Jenkins, *The Moravian Brethren in North Wales, Y Cymmrodor* XLV (Llundain, 1938) a noder ei sylwadau am ymweliadau David Williams â gwasanaethau Morafaidd yn Lloegr (t. 157). Dywed R. T. Jenkins (t. 50) fod Evan Williams, y cenhadwr Morafaidd cyntaf a anfonwyd o Fryste i ogledd Cymru, yn 1758, yn medru Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg ac yn bwriadu dysgu Almaeneg. Am weithgarwch y Morafiaid yng Nghymru, gw. hefyd Gomer M. Roberts, 'Y Morafiaid yn Neheudir Cymru', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 20:3 (Haf 1978), 273–99. Bu'r genhadaeth Morafaidd yn ardal Beddgelert yn cyfarfod am rai blynyddoedd ar aelwyd William ac Alice Griffith, Drws-y-coed Uchaf, ym mlaen Dyffryn Nantlle. Mae'n debyg fod y cenedlaetholwr Gwyddelig dylanwadol, Arthur Griffith (1871–1922), un o brif sylfaenwyr Sinn Féin, yn un o'u disgynyddion, gw. Alun Llywelyn-Williams, *Crwydro Arfon* (Llandybie, 1959), t. 142; Arwel Ellis Owen, '“Ar Ben Fy Hunan Bach”', *Golwg*, 17:39 (9 Mehefin 2005), 10–11. Ceir sawl cyfeiriad yng ngwaith T. H. Parry-Williams at Ddrws-y-coed, ac at William Griffith a'r Morafiaid – gw., er enghraifft, *Casgliad o Ysgrifau T. H. Parry-Williams*, ail argraffiad (Llandysul, 1992), tt. 113–16, 231–3, 335, 388. Yn y cofnod arno yn *Y Bywgraffiadur*

Cymreig disgrifir William Griffith (1719–82), Drws-y-coed, fel ‘carwr llenyddiaeth’, a gogleisiol yn y cyd-destun presennol yw deall bod englyn gan Ddafydd Ddu Eryri ar ei feddfaen, gan fod Dafydd Ddu yn defnyddio amrywiad ar ‘dopos yr anhraethadwy’ (er nad yr union fformwla sydd dan sylw yn yr erthygl bresennol) mewn cerdd ar y testun ‘Tragwyddoldeb’. Dyma ran gyntaf y gerdd honno fel y’i ceir yn David Thomas (‘Dafydd Ddu Eryri’), *Corph y Gaingc* (Caernarfon, 1834), tt. 324–5:

Pa beth yw tragwyddoldeb maith,
A oes un iaith mor eglur,
A ddichon ddangos yn ddi wâd
I ddyn barhad ei fesur?

Pe rhifid tywod mân y môr,
A luniodd lor yn derfyn;
Holl lwch y byd, dail coedydd glân,
A meillion mân pob dyffryn.

Pe rhifid atynt gan un gŵr,
Ddefnynau dw’r dyfnderoedd;
Rhifedi’r gwlith er cynnydd pêr,
A nifer sêr y nefoedd.

Pe lluosogid oll ynghyd,
Wrth drefn celfyddyd fuddiol,
Ni allant ddangos (mewn un pryd)
Barhad y byd trag’wyddol.

Rhy fach y gwelir yr holl swm,
Ni ddichon rheswm ddirnad
Dechreuad oesoedd maith di ri’,
Ac amser di-ddiweddiad.

¹⁵ Andrew Breeze, ‘Bepai’r Ddaear yn Bapir’ yn yr adran ‘Nodiadau Amrywiol’, *Bwletin y Bwrdd Gwybodaau Celtaidd*, 30:3/4 (Tachwedd 1983), 276. Priodolir y gerdd yn aml i John Lydgate (c.1370–1449/50?), un o feirdd Saesneg mwyaf cynhyrchol hanner cyntaf y bymthegfed ganrif. Mae’n bosibl fod y ddrama Gymraeg o gyfnod y Dadeni, *Troelus a Chresyd*, a luniwyd tua 1600, yn ddyledus mewn mannau i *The Troy Book*, cerdd hir Lydgate ar hanes Caerdroea, gw. W. Beynon Davies (gol.), *Troelus a Chresyd* (Caerdydd, 1976), t. 18.

¹⁶ Andrew Breeze, ‘Bepai’r Ddaear yn Bapir’, 277.

¹⁷ Wedi dweud hynny, dylid nodi bod peth presenoldeb Iddewig mewn bwrdeistrefi a phorthladdoedd yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol. Er enghraifft, ceir awgrym yn erthygl John Morgan-Guy, ‘The Margam Concordantiae: Mystical Theology and a Twelfth Century Cistercian Community in Wales’, *Morgannwg*, 49 (2005), 10–11, 25–6, fod cysylltiadau rhwng abaty Margam, ac efallai rhai sefydliadau Sistersaidd eraill yn ne-ddwyrain Cymru, a’r gymuned Iddewig ym Mryste.

¹⁸ Yn 1290 yr oedd Edward I newydd oresgyn Cymru. Yn y cyd-destun hwnnw mae'n werth dyfynnu'r sylwadau a ganlyn gan Joshua Levy yn ei erthygl 'Expulsion and Readmission' ar www.myjewishlearning.com: 'In addition to economic and religious reasons for expelling the Jews in the late Middle Ages, historian Salo Baron adds his theory of nationalism and intolerance. Baron noticed that all of the regions that expelled the Jews during this period were evolving national states. In England, France, and the Iberian peninsula, argues Baron, the emergence of a national identity contributed to the decision to expel. In defining the national self, these states eliminated the most obvious "other," the Jews. The expansion of two multinational states at the time – Poland-Lithuania and the Ottoman Empire – provided refuge for the exiles.' Mae rhai wedi awgrymu cysylltiad mwy uniongyrchol fyth rhwng trechu Llywelyn y Llyw Olaf yn 1282 a gyrru allan yr Iddewon yn 1290, sef bod Iddewon Lloegr wedi ymdlodi yn sgîl y godro ariannol a fu arnynt gan Edward I i dalu am ei ryfeloedd Cymreig, a bod eu gwerth cyllidol i'r Goron wedi lleihau'n sylweddol o'r herwydd.

¹⁹ Gw. David S. Katz, *Philo-Semitism and the Readmission of the Jews to England 1603–1655* (Rhydychen, 1982); Eliane Glaser, *Judaism without Jews: Philosemitism and Christian Polemic in Early Modern England* (Basingstoke, 2007).

²⁰ Gw. Gareth Lloyd Jones, *The Discovery of Hebrew in Tudor England: A Third Language* (Manceinion, 1983). Fe barhaodd y diddordeb yn yr Hebraeg mewn cyfnodau diweddarach hefyd, fel y gwelir er enghraifft yn rhagair W. H. Barker, prifathro Ysgol Ramadeg Caerfyrddin, i'w gyfrol *A Plain Grammar of the Hebrew Language, Adapted to the Use of Schools, with Biblical Examples*, a argraffwyd yng ngwasg John Ross yng Nghaerfyrddin yn 1773: 'The great encouragement at present shewn in the revival of Hebrew learning, was the chief motive that influenced the compiler of the following sheets to commit them to public, tho' originally intended for private use.' Fel y crybwyllwyd yn nhrydedd erthygl y gyfres hon, yn *Canu Gwerin*, 27 (2004), 40, rheswm ychwanegol dros y diddordeb yn yr Hebraeg yng Nghymru oedd y gred fod y Gymraeg a'r Hebraeg yn perthyn yn agos i'w gilydd.

²¹ Ar hyn, gw. Derec Llwyd Morgan, 'Morgan Llwyd a'r Iddewon' yn *Ysgrifau Beirniadol XXI*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1996), 81–96; Goronwy Wyn Owen, *Cewri'r Cyfamod: Y Piwritaniaid Cymreig 1630–1660* (Bangor, 2008), pennod 3. Ar ddylanwad y 'Gobaith Piwritanaidd' hwn, fel y'i gelwir, ar y Methodistiaid mewn cyfnod diweddarach, gw. E. Wyn James, 'Williams Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol' yn *Cof Cenedl XVII*, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 2002), 65–101.

²² Thomas E. Ellis (gol.), *Gweithiau Morgan Llwyd o Wynedd*, cyf. 1 (Bangor a Llundain, 1899), t. 44.

²³ Irving Linn, 'If All the Sky were Parchment', *PMLA (Publications of the Modern Language Association of America)*, 53:4 (Rhagfyr 1938), 956, 962.

²⁴ Ar hyn oll, gw. Iona a Peter Opie (goln), *The Oxford Dictionary of Nursery Rhymes* (Rhydychen, 1951), tt. 436–8. Gw. hefyd 'A Note on "If All The World Were Paper"', *Journal of the English Folk Dance and Song Society*, 1:1 (Rhagfyr 1932), 69–70; Evelyn K. Wells, 'Playford Tunes and Broadside Ballads', *Journal of the English Folk Dance and Song Society*, 3:3 (Rhagfyr 1938), 201.

²⁵ Fe'i dyfynnir yma o Francis Grose, *The Olio* (Llundain, 1792), t. 292, yr enghraifft gynharaf y gwn i amdani o'r pennill mewn print. 'Was [*neu* Were] the whole earth of parchment made' yw darlleniad yr ail linell yn yr enghreifftiau eraill o'r pennill a welais o'r ddeunawfed ganrif hefyd, ond mae'n amlwg fod fersiwn arall ar yr ail linell, yn darllen 'And were the skies of parchment made', yn cylchredeg erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, onid ynghynt.

²⁶ Mae'n bosibl mai'r rheswm am hynny yw fod cymysgu rhwng y pennill hwnnw a'r pedair llinell sy'n cloi cerdd Isaac Watts, 'False Greatness' yn ei lyfr, *Horae Lyricae*: 'Were I so tall to reach the pole, / Or grasp the ocean with my span, / I must be measur'd by my soul: / The mind's the standard of the man.' Nid oedd Isaac Watts yn dal iawn, ac yn ôl hanesyn enwog, dyfynnodd Watts y geiriau hyn mewn tŷ coffi pan glywodd rhywun yn rhyfeddu bod y 'great Dr Watts' mor fach o gorffolaeth, gw. Thomas Wright, *Isaac Watts and Contemporary Hymn-writers*, 'The Lives of the British Hymn-Writers', cyf. 3 (Llundain, 1914), t. 174. Cafwyd dau gyfieithiad Cymraeg o bennill Watts yng ngholofn 'Briglwyd', 'Dalen o Hen Ddydd-Lyfr' yn *Cyfaill yr Aelwyd*, 3:1 (Hydref 1882), 27. Mae'n werth nodi, yng nghyd-destun dylanwadau Saesneg ar emynwyr Cymraeg, fod sawl llyfr o waith Isaac Watts, gan gynnwys yr wythfed argraffiad o'i *Horae Lyricae* (1743), yn llyfrgell Williams Pantycelyn, gw. Glyn Tegai Hughes, 'Llyfrgell Pantycelyn', *Y Traethodydd*, Hydref 1991, 221–31.

²⁷ Francis Grose, *The Olio* (Llundain, 1792), t. 292; C. Bruyn Andrews (gol.), *The Torrington Diaries*, cyf. 1 (Llundain, 1934), t. 258; cf. *Notes and Queries*, 8 (1853), 180. 'Anna' yw enw'r awdur a nodir o dan y pennill pan gyhoeddwyd ef yn *Variety. A Collection of Miscellanies, in Verse and Prose*, cyf. 2 (Dulyn, 1795), t. 236.

²⁸ Gw. Kenneth W. Osbeck, *101 More Hymn Stories* (Grand Rapids, Michigan, 1985), tt. 270–3.

²⁹ Y fersiwn yn yr albwm yw'r un sy'n cynnwys 'And were the skies of parchment made' yn yr ail linell. Roedd Lizzie Rowlands (1840–1916) yn hanner chwaer i'r llenor, Andronicus (John William Jones, 1842–95). Fe fu hi am gyfnod yn athrawes i wryon y Parch. Richard Jones o'r Wern yng Ngwyddelfynydd, ger Bryn-crug, Meirionnydd. Yn y cyfnod hwnnw byddai'n ymweld â Mary Jones, a oedd erbyn hynny mewn gwth o oedran, a chofnododd hanes taith Mary Jones i'r Bala yn 1800 i gael Beibl gan Thomas Charles fel y'i cafwyd o enau Mary Jones ei hun. Ar Lizzie Rowlands a'i chysylltiad â Mary Jones, gw. erthyglau K. Monica Davies: 'Beibl Lydia Williams', *Y Drysorfa* (Mehefin 1965), 116–18; 'Rhagor am Mari Jones', *Y Drysorfa* (Mai 1967), 100–3; 'Mary Jones (1784–1864)', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 52:3 (Hydref 1967), 74–80. Mae albwm Lizzie Rowlands, a fu ar un adeg yn eiddo i David Lloyd George, bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol (LIGC 22010i B).

³⁰ Gw. E. Wyn James, 'Dafydd William, Llandeilo Fach', *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr*, 2001, 42, 46–7. Ar Hopcyn Bevan, gw. D. Huw Owen, 'Hopcyn Bevan, Llangyfelach', *Cylchgrawn Hanes (Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd)*, 7 (1983), 4–23; Brynley F. Roberts, 'Emynwyr Abertawe', *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru*, 2:6 (1983), 168–9.

³¹ Dyfynnwyd yn 'Briwsion Hanes ... 2. Dau o lyfrau Hopkin Bevan, Llangyfelach', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 7:2 (Awst 1922), 69.

³² Betty W. Rizzo, 'Christopher Smart's "Chaucerian" Poems', *The Library*, cyfres 5, 28:2 (Mehefin 1973), 124–30; gw. hefyd Karina Williamson, 'Christopher Smart in the Songbooks',

³³ Gw., er enghraifft, drafodaeth Rhidian Griffiths ar berthynas emyn-donau ac alawon gwerin yn ei ddarlith, *Ffiniau* (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 1991).

³⁴ Y dyn hynaf a enwir yn y Beibl, a thad-cu Noa. Bu farw'n 969 oed (Genesis 5:27).

³⁵ Cyfieithwyd pregeth Timothy Priestley ar farwolaeth Arglwyddes Huntingdon i'r Gymraeg, gw. E. Wyn James, 'Morgan John Rhys a Chaethwasiaeth Americanaidd' yn *Canu Caeth: Y Cymry a'r Afro-Americaniaid*, gol. Daniel G. Williams (Llandysul, 2010), t. 20, n12.

³⁶ Cyhoeddwyd rhai o gerddi John Elias, ond nid y cyfieithiad hwn, mewn atodiad yn William Pritchard, *John Elias a'i Oes* (Caernarfon, 1911). Ar 'Ai am fy meiau i', gw. E. Wyn James, 'Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790–1840', *Taliesin*, 119 (Haf 2003), 49.

³⁷ Ailgyhoeddwyd cyfieithiad John Elias, wedi'i ddiwygio ychydig, yn *Yr Athraw*, cylchgrawn Humphrey Gwalchmai, yn Hydref 1838 (t. 221), ac yna gyda cherddoriaeth yng nghyflwr y Wesle, Thomas Jones ('Canrhawdfardd'), *Y Symbal* (Llanrwst, 1844), rhifyn 2, 22. Ar Ganrhawdfardd, gw. E. Wyn James, 'Rhwygo'r Llenni a'r Emyn' yn *Ysgrifau Beirnadol XIX*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1993), 234.

³⁸ Arno, gw. Robert Rhys, *James Hughes ('Iago Trichrug')*, Cyfres 'Llên y Llenor' (Caernarfon, 2007).

³⁹ Arno, gw. E. Wyn James a Brynley F. Roberts, 'Gomer, John Evans a *Swp o Ffigys* Daniel Evans', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 25:3 (Haf 1988), 322–4. Gw. hefyd Eiluned Rees, 'The Sales-Book of Samuel Williams, Aberystwyth Printer (Part 1)', *Ceredigion*, 10 (1984–87), 255–7.

⁴⁰ Ychwanegwyd y gair 'Uchel' mewn troednodyn.

⁴¹ Ychwanegwyd y gair 'Ingc' mewn troednodyn.


⁴² Ychwanegwyd y gair 'Crëadur' mewn troednodyn.

⁴³ Ychwanegwyd y gair 'Uchel' mewn troednodyn.

⁴⁴ Arno, gw. E. Wyn James, 'Bardd Hiraeth: Siarl Wyn o Benllyn – a Buenos Aires', *Taliesin*, 137 (Haf 2009), 107–9.

⁴⁵ Cynhwyswyd y cyfieithiad yng nghyflwr Robert Williams, Glan Clwyd, *Casgliad o Ganiadau* (Caernarfon, 1836), tt. 59–60, ac fe'i cynhwyswyd hefyd (gydag ychydig o newidiadau i'r testun) yn y casgliad o waith Tegid a gyhoeddwyd ar ôl ei farwolaeth dan olygyddiaeth ei nai, Henry Roberts (1825–82), *Gwaith Barddonawl ... Tegid* (Llanymddyfri, 1859), tt. 217–18. Yno, dyfynnir mewn troednodyn y pennill emyn 'Could we with ink the ocean fill, / Were the whole earth of parchment made', gan nodi'r traddodiad iddo gael ei lunio gan 'ynfyty'n'. (Dyfynnir y pennill o lyfr a gyhoeddwyd yn yr 1830au gan y Crynwr efengylaidd a'r diwygiwr cymdeithasol, J. J. Gurney (1788–1847), brawd Elizabeth Fry.)

Y Golofn Farddol



I Phyllis a'i Llyfr

Yn dda 'i fyd tyfodd efô – a difai

Fu d'ofal amdano;

I fawrhau ceinciau'r co'

Lluniaist bob sill ohono.

O'i lunio cest lawenydd – ar brydiau

Cest bryder aflonydd,

Ond daeth ha', a dyma'r dydd

Y cludwn iti'n clodydd.

Meredydd Evans

(Diolch i Dr Meredydd Evans am ganiatâd i gyhoeddi'r englynion hyn a ysgrifennwyd ganddo i anrhydeddu Phyllis Kinney. Ef oedd y datgeiniad pan y'u cyflwynwyd iddi ar achlysur lansiad ei chyfrol *Welsh Traditional Music* yn y Drwm yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru brynhawn Iau, 19 Mai 2011.)

Adolygiad

Phyllis Kinney, *Welsh Traditional Music* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2011), 336tt. Pris: £24.99

Mae *Welsh Traditional Music* yn garreg filltir nodedig ym maes hanes cerddoriaeth yng Nghymru. Fel y noda Daniel Huws yn ei gyflwyniad i gyfrol newydd Phyllis Kinney, mae'r astudiaeth gyfoes hon yn rhoi i ni werthfawrogiad cwbl ffres o draddodiad cerddorol Cymru, o'r canrifoedd cynnar hyd y presennol. Dyma gyfrol ysgolheigaidd, gynhwysfawr, sy'n trin a thrafod y cyfoeth a'r amrywiaeth a geir oddi mewn i'r traddodiad, a'r cyfan wedi ei gyflwyno mewn modd hynod ddiddorol a darllenadwy dros ben gan apelio at gynulleidfa eang. Mae'n gyflwyniad ardderchog i'r llygwr ac yn drysorfa werthfawr i'r sawl sydd eisoes yn gyfarwydd â'r hanes.

Rhoddir sylw i bob cyfnod ac agwedd ar ein traddodiad, o draddodiad llafar yr Oesoedd Canol i'r cyfnod pan ddechreuwyd cyhoeddi ein halawon a'n caneuon mewn print am y tro cyntaf, a chlywn am brif ffigurau cerddoriaeth draddodiadol Cymru, yn gasglwyr ac yn berfformwyr. Ceir ymdriniaeth fanwl ar gynnwys y prif lawysgrifau a chasgliadau a'r mathau gwahanol o ganeuon ac alawon a geir ynddynt, yn garolau plygain, baledi, caneuon gwerin, ac alawon telyn, i enwi dim ond rhai, a'r cyfan yn dod yn fyw ac yn eglur i ni drwy'r myrdd enghreifftiau cerddorol a gynhwysir. Arwydd o waith ymchwil eang a thrylwyr Phyllis Kinney i lawysgrifau a chasgliadau cerddoriaeth draddodiadol y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw'r modd mae'n gallu pwyso a mesur arwyddocâd pob un o fewn ei oes ei hun, a hefyd eu harwyddocâd a'u pwysigrwydd i ni heddiw. Mae'n tynnu casgliadau craff, gan nodi sawl ffaith o bwys, megis perthynas alawon a chaneuon â'i gilydd, eu rôl gymdeithasol, a'r dulliau o'u perfformio. Pwysleisia hefyd bwysigrwydd y casglwyr eu hunain: fe'n hatgoffir bod Iolo Morganwg yn un o'r casglwyr cyntaf yn Ewrop a rhoddir lle amlwg iawn yn y bennod olaf i gasglwyr brwd dechrau'r ugeinfed ganrif, cyfnod sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, ac yn arbennig felly i'r mwyaf toreithiog a dylanwadol ohonynt, sef J. Lloyd Williams. Noda darddiad a ffynhonnell gynharaf nifer o'n halawon mwyaf poblogaidd, a difyr iawn yw darllen sawl hanes diddorol am ganeuon cyfarwydd, er enghraifft am gysylltiad clòs yr hen ffefryn 'Oes gafr eto?' â thraddodiad 'canu yn drws' dathliadau Gŵyl Fair yng Ngogledd Cymru'r ddeunawfed ganrif, traddodiad sy'n llai cyfarwydd i ni heddiw na thraddodiadau eraill y cyfnod, megis y Fari Lwyd a'r Calennig.



Trwy gydol y gyfrol rhoddir y cyfan yn ei gyd-destun hanesyddol a chymdeithasol a thrwy ddwyn yr holl hanes ynghyd fe ddangosir i ni sut y bu i un cyfnod ddylanwadu ar y nesaf ar hyd yr oesau. Daw'r gyfrol i ben trwy drafod

ein cyfnod ni, pan fo cerddoriaeth draddodiadol eto yn addasu yn ôl chwaeth gerddorol boblogaidd yr oes, a phan welir datblygiadau technolegol ym maes recordio, cofnodi ac ymchwil yn ysgogi cenhedlaeth newydd i ymddiddori a chyfrannu i sicrhau traddodiad byw a ffyniannus.

Ar ddiwedd y gyfrol ceir atodiad sy'n rhoi sylw i hanes cerdd dant ac sy'n trafod amryw bwyntiau megis tarddiad hynafol y grefft, ei hesblygiad, arddull y canu, a'r camau a arweiniodd at sefydlu Cymdeithas Cerdd Dant Cymru. Mae'n crynhoi'n gelfydd ddatblygiadau diweddar ac yn rhoi i ni enghreifftiau penodol o osodiadau cerdd dant o wahanol gyfnodau, sy'n dangos yn eglur y newid a fu rhwng gosodiadau syml dechrau'r ugeinfed ganrif a'n gosodiadau ni heddiw

gyda'u harmonïau mwy soffistigedig. Ar y diwedd hefyd ceir llyfryddiaeth gynhwysfawr a fydd yn hynod ddefnyddiol i unrhyw un sydd â'i fryd ar ddarllen ymhellach am unrhyw agwedd benodol ar y maes.

Mae *Welsh Traditional Music* yn gyfrol y gallwn ymfalchïo ynddi fel cenedl. Amlygir ynddi pa mor unigryw a pha mor rhyfeddol o hirhoedlog yw ein traddodiad cerddorol, er gwaethaf pwysau mawr dylanwadau estron. Diolch i Phyllis Kinney am y gyfrol nodedig hon sy'n ddarlun byw o'n hetifeddiaeth gerddorol: bydd yn adnodd ac yn ffynhonnell werthfawr am genedlaethau i ddod, nid yn unig yng Nghymru ond yn rhyngwladol.

Gwenan Gibbard



* 1 7 3 4 2 2 0 *

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.